



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Canllawiau

Canllawiau i Awdurdodau Lleol  
ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Hydref 2016

# Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

---



**GWT  
Countryside**

## Cynnwys

|                                                                         |           |
|-------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Cynnwys .....</b>                                                    | <b>2</b>  |
| <b>1. Cyflwyniad.....</b>                                               | <b>5</b>  |
| Rhagor o Wybodaeth.....                                                 | 6         |
| Adnoddau Awdurdodau Lleol .....                                         | 6         |
| Statudau .....                                                          | 7         |
| Cyrff Cyfrifol.....                                                     | 7         |
| <b>2. Rheoli'r Rhwydwaith.....</b>                                      | <b>8</b>  |
| Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy .....                                  | 8         |
| Argaeledd Mapiau a Datganiadau i'r Cyhoedd eu Gweld .....               | 8         |
| Cofrestrau.....                                                         | 8         |
| Llwybrau a Hyrwyddir.....                                               | 9         |
| Cynlluniau Blaenoriaethu .....                                          | 10        |
| Fforymau Mynediad Lleol .....                                           | 11        |
| Rhoi Gwybod i Unigolion a Grwpiau Eraill.....                           | 11        |
| Darparu Gwybodaeth ar gyfer y Cyhoedd .....                             | 12        |
| Wardeiniaid a Gwirfoddolwyr.....                                        | 12        |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 .....                                           | 12        |
| Anghenion Pobl ag Anawsterau Symudedd .....                             | 13        |
| Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 .....                                      | 13        |
| Cadwraeth Natur.....                                                    | 13        |
| Rhywogaethau Estron Goresgynol a Chwyn Niweidiol.....                   | 15        |
| Henebion Rhestredig.....                                                | 16        |
| <b>3. Cynnal y Rhwydwaith.....</b>                                      | <b>17</b> |
| Safonau Cynnal .....                                                    | 17        |
| Adeileddau.....                                                         | 17        |
| Pontydd.....                                                            | 17        |
| Giatiau a Chamfeydd .....                                               | 18        |
| Cyfrifoldebau Cynnal.....                                               | 18        |
| Awdurdodi Adeileddau Newydd – Adran 147 .....                           | 18        |
| Gwella Adeileddau – Adran 147ZA .....                                   | 19        |
| Wynebau .....                                                           | 20        |
| Arwyddion .....                                                         | 21        |
| Arwyddbyst Ymyl Ffyrdd.....                                             | 21        |
| Marcio Ffyrdd.....                                                      | 21        |
| Cael Mynediad er mwyn Gwneud Gwaith .....                               | 22        |
| Pwerau Mynediad at Ddibenion Tirfesur.....                              | 22        |
| Pŵer Mynediad at Ddibenion Cynnal Adeileddau a Gwaith Penodol.....      | 22        |
| Pwerau Mynediad at Ddibenion Cysylltiedig â Gorchmynion Penodol Parthed |           |
| Llwybrau Troed a Llwybrau Ceffylau .....                                | 22        |
| Pwerau Mynediad i Eiddo.....                                            | 23        |
| Mynediad â Cherbydau.....                                               | 23        |
| Gwella Mynediad ar gyfer Cerbydau Cynnal yn y Dyfodol .....             | 24        |
| Mynediad ar gyfer Arwyddbyst a Marciau Ffyrdd .....                     | 24        |
| Pwerau Mynediad Eraill.....                                             | 24        |
| <b>4. Diogelu'r Rhwydwaith .....</b>                                    | <b>26</b> |
| Dulliau Gorfodi.....                                                    | 26        |
| Dim Gweithredu er mwyn Gorfodi.....                                     | 26        |
| Cyngor Anffurfiol.....                                                  | 27        |

|                                                                                     |           |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Cyflwyno Rhybudd a Gweithredu Uniongyrchol .....                                    | 27        |
| Rhybudd Syml .....                                                                  | 27        |
| Erlyn .....                                                                         | 28        |
| <b>Anifeiliaid .....</b>                                                            | <b>28</b> |
| Gwartheg, gan gynnwys Teirw .....                                                   | 28        |
| Cŵn .....                                                                           | 29        |
| Ceffylau .....                                                                      | 29        |
| Rhywogaethau Peryglus.....                                                          | 29        |
| <b>Rhwystro .....</b>                                                               | <b>30</b> |
| Rhwystro Priffordd yn Fwriadol .....                                                | 31        |
| Cadw Llystyfiant Rhag Bargodi Ffyrdd .....                                          | 31        |
| Cyfrifoldeb Corfforaethol.....                                                      | 31        |
| Cyflwyno Rhybuddion i Awdurdodau Lleol.....                                         | 32        |
| <b>Difrod .....</b>                                                                 | <b>32</b> |
| Amharu ar Wyneb Ffyrdd .....                                                        | 32        |
| Gweithgareddau Amaethyddol.....                                                     | 32        |
| Lled Llwybrau at Ddibenion Adfer yn Dilyn Amharu a Llechfeddiannu.....              | 33        |
| <b>Peryglon .....</b>                                                               | <b>34</b> |
| Cloddio .....                                                                       | 34        |
| Weiren Bigog .....                                                                  | 34        |
| Coed Peryglus .....                                                                 | 34        |
| Adeiladau Peryglus .....                                                            | 34        |
| <b>Ataliaeth .....</b>                                                              | <b>34</b> |
| Arwyddion .....                                                                     | 34        |
| Bygythion .....                                                                     | 35        |
| <b>Digwyddiadau .....</b>                                                           | <b>35</b> |
| <b>Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.....</b>                                         | <b>36</b> |
| <b>Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus .....</b>                                   | <b>37</b> |
| <b>5. Cofnodi'r Rhwydwaith.....</b>                                                 | <b>39</b> |
| <b>Y Map a Datganiad Diffiniol .....</b>                                            | <b>39</b> |
| Llwybrau Troed.....                                                                 | 39        |
| Llwybrau Ceffylau.....                                                              | 39        |
| Cilffyrdd Cyfyngedig.....                                                           | 40        |
| Cilffyrdd Ar Agor i Bob Traffig .....                                               | 40        |
| <b>Cynnal y Map a Datganiad Diffiniol.....</b>                                      | <b>40</b> |
| <b>Addasu'r Map a Datganiad Diffiniol .....</b>                                     | <b>42</b> |
| Ceisiadau ar Gyfer Gorchmynion Addasu Map Diffiniol .....                           | 43        |
| Gwneud Gorchmynyn .....                                                             | 44        |
| Cyhoeddusrwydd ar gyfer Gorchmynion.....                                            | 46        |
| Cyflwyno Sylwadau a Gwrthwynebiadau .....                                           | 47        |
| Cadarnhau Gorchmynion .....                                                         | 47        |
| Cyhoeddusrwydd ar Gyfer Penderfyniadau Ynghylch Gorchmynion .....                   | 47        |
| Dileu neu Israddio Ffyrdd a Ddangosir ar y Map a Datganiad Diffiniol.....           | 48        |
| <b>Paratoi Mapiau a Datganiadau Diffiniol ar gyfer Ardaloedd Nas Eithriwyd ....</b> | <b>49</b> |
| <b>Dileu Hawliau Penodol dan Ran 6 DANCLG 2006 .....</b>                            | <b>49</b> |
| <b>Rhestr Strydoedd .....</b>                                                       | <b>50</b> |
| Ffyrdd Annosbarthedig ar y Rhestr Strydoedd .....                                   | 50        |
| <b>6. Newid y Rhwydwaith.....</b>                                                   | <b>51</b> |
| <b>Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus – Deddf Priffyrdd 1980.....</b>                     | <b>51</b> |
| Gorchmynion Creu Llwybr Cyhoeddus.....                                              | 51        |

|                                                                                              |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Gorchmynion Dileu Llwybr Cyhoeddus .....                                                     | 52        |
| Gorchmynion Dargyfeirio Llwybr Cyhoeddus .....                                               | 53        |
| <b>Cytundebau Creu – Deddf Priffyrdd 1980.....</b>                                           | <b>55</b> |
| <b>Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus Arbennig– Deddf Priffyrdd 1980.....</b>                      | <b>56</b> |
| Gorchmyn Croesfan Rheilffordd .....                                                          | 56        |
| Gorchmyn Arbennig Atal Troseddu .....                                                        | 58        |
| Gorchmyn Arbennig Diogelu Ysgolion .....                                                     | 58        |
| Dargyfeiriadau SoDdGA .....                                                                  | 58        |
| <b>Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.....</b>                | <b>59</b> |
| Gorchmynion Cau a Dargyfeirio a Wneir gan Awdurdodau Lleol .....                             | 59        |
| Gorchmynion Dileu ar Dir a Ddelir at Ddibenion Cynllunio.....                                | 61        |
| Y Weithdrefn sydd Ar Gael i Weinidogion Cymru o Flaen Llaw ar gyfer Caniatâd Cynllunio ..... | 61        |
| Achosion Deddf Caffael Tir 1981 .....                                                        | 61        |
| <b>Gorchmynion Cau Dros Dro (Mwynau) .....</b>                                               | <b>62</b> |
| <b>Ceisiadau Llys Ynadon .....</b>                                                           | <b>63</b> |
| <b>Gorchmynion Cyfredol.....</b>                                                             | <b>63</b> |
| <b>Gorchmynion Ar y Cyd a Chyfun .....</b>                                                   | <b>64</b> |
| <b>Gorchmynion a Deddfau Seneddol Ffyrdd Ymyl .....</b>                                      | <b>64</b> |
| <b>Ceisiadau am Gostau .....</b>                                                             | <b>64</b> |
| Gorchmynion ‘Cyfatebol’ .....                                                                | 65        |
| Gorchmynion a Benderfynir mewn Llys Ynadon .....                                             | 66        |
| <b>Trefnau ar gyfer Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus .....</b>                                   | <b>66</b> |
| Ymgeisio .....                                                                               | 66        |
| Ymgynghori Cynorchmynnol.....                                                                | 68        |
| Penderfynu.....                                                                              | 69        |
| Gwneud Gorchmyn .....                                                                        | 69        |
| Cyflwyno Cyflwyniadau.....                                                                   | 71        |
| Cadarnhau .....                                                                              | 71        |
| <b>Arolwg Ordnans.....</b>                                                                   | <b>72</b> |
| <b>7. Caniatâd Cynllunio a’r Rhwydwaith .....</b>                                            | <b>74</b> |
| Datblygu a Ganiateir .....                                                                   | 76        |
| <b>Atodiad 1 .....</b>                                                                       | <b>77</b> |
| Cyrff Rhestredig .....                                                                       | 77        |
| <b>Atodiad 2 .....</b>                                                                       | <b>80</b> |
| Ffynonellau Gwybodaeth Ychwanegol .....                                                      | 80        |
| <b>Atodiad 3 .....</b>                                                                       | <b>81</b> |
| Model Drafft Cytundeb 147ZA.....                                                             | 81        |
| <b>Atodiad 4 .....</b>                                                                       | <b>82</b> |
| Siart Ilif: Ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Addasu .....                                      | 82        |
| <b>Atodiad 5 .....</b>                                                                       | <b>86</b> |
| Siart Ilif: Gweithdrefn ar gyfer Addasiadau a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus .....           | 86        |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cyngor a'r canllaw hwn yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hawliau tramwy cyhoeddus a'i barn ynghylch y gyfraith. Nid yw'n disodli deddfwriaeth sylfaenol, ond ceisia roi golwg gyffredinol arni o fewn cyd-destun polisi. Disodla:

- Cylchlythyr Swyddfa Cymru 44/93 Deddf Hawliau Tramwy 1990
- Cylchlythyr Swyddfa Cymru 45/90 Addasu'r Map Diffiniol: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981
- Cylchlythyr Swyddfa Cymru 5/93 Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Cylchlythyr Swyddfa Cymru 6/93 Adennill Costau Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus a Chroesfan Rheilffordd
- Cylchlythyr Swyddfa Cymru 47/96 Adennill Costau Rheoliadau Diwygio Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus a Chroesfan Rheilffordd
- Paragraffau 8 – 22 Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 31/2001
- Canllawiau Statudol o dan adran 147 ac 147ZA Deddf Prifffyrdd 1980 parthed y gofyn i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion pobl ag anawsterau symudedd wrth awdurdodi camfeydd a giatiau, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006.

1.2. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn ymwneud â Chymru'n unig.

1.3. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cyngor i awdurdodau ynghylch yr agweddau canlynol ar hawliau tramwy cyhoeddus:

- **Rheoli'r Rhwydwaith:** y systemau sydd ar waith i reoli hawliau tramwy cyhoeddus mewn modd effeithiol, a thrafodaeth o'r prif faterion rheoli sy'n codi'n ymarferol.
- **Cynnal y Rhwydwaith:** pwerau a dyletswyddau awdurdod i elfennau ffisegol y rhwydwaith a'i adeileddau cysylltiedig.
- **Diogelu'r Rhwydwaith:** pwerau a dyletswyddau gorfodi awdurdodau i sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau i fod ar gael ar gyfer defnydd cyhoeddus.
- **Cofnodi'r Rhwydwaith:** dulliau a phrosesau cofnodi'r rhwydwaith yn gyhoeddus.
- **Newid y Rhwydwaith:** sut y gellir newid y rhwydwaith trwy brosesau cyfreithiol.
- **Caniatâd Cynllunio a'r Rhwydwaith:** sut y mae'r rhwydwaith yn rhyngweithredu â'r broses rheoli datblygu.

1.4. Mae ein rhwydwaith eang o hawliau tramwy cyhoeddus yn darparu adnodd hamdden sylweddol a'r cyfle i brofi amrywiaeth eang ein tirwedd a'n haneddiadau ynddi. Anogir pawb, felly, gan gynnwys awdurdodau, tîrfeddianwyr, defnyddwyr llwybrau a chyrff gwirfoddol, i gydweithio er mwyn sicrhau diffinio hawliau tramwy'n gyfreithiol, eu cynnal yn gywir, eu hyrwyddo a'u cadw'n agored at ddefnydd cyhoeddus. Dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn neilltuo digon o adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus.

- 1.5. Yn llawer i achos, nid yw'r defnydd o hawliau tramwy cyhoeddus yn cyd-fynd yn union â ffiniau gweinyddol, ac anogir awdurdodau i gydweithio lle bydd hynny'n gwella mwynhad cyffredinol o'r rhwydwaith. Anogir staff hawliau tramwy, hefyd, i weithio'n agos â'u cydweithwyr ym meysydd megis twristiaeth a chludiant i helpu i wella i'r eithaf fudd eu rhwydwaith i ddatblygu economaidd a theithio cynaliadwy/llesol. Trwy weithio'n agos â Llywodraeth Cymru a chyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru, gellir teimlo budd ein rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus eang a helaeth ledled Cymru.
- 1.6. Mae hawliau tramwy'n parhau i gyflawni eu prif ddiben, sef darparu mynediad i bobl o fewn eu cymuned leol, ond er mwyn gwneud y gorau ohonynt at ddibenion hamdden, byddai'n well pe'u rheolir gan awdurdodau megis rhan hanfodol o holl ddarpariaeth cyfleusterau hamdden ardal benodol.
- 1.7. Mae gan hawliau tramwy ran bwysig, hefyd, yng nghyflawni amcanion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i alluogi rhagor o bobl i gerdded, beicio a theithio'n gyffredinol trwy ddulliau arall na moduro. Y mae cryn le i awdurdodau ddefnyddio a datblygu'r rhwydwaith hawliau tramwy wrth gyflawni eu cyfrifoldebau i wella cyfleusterau a ffyrdd ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn barhaus, ac i baratoi mapiau'n dangos pa ffyrdd y gallant eu defnyddio yn awr ac, fe ddichon, yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae'n bwysig fod llwybrau'n cael eu cynnal a'u gwella, pan fo'n ymarferol, er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn eu gosod ar awdurdodau.

### Rhagor o Wybodaeth

- 1.8. Gydol y canllawiau hyn, cyfeirir ar ganllawiau a chyhoeddiadau eraill, a phan fo'r cyfryw ar gael ar-lein, darperir hyperddolenni. Ceir rhestr o ffynonellau gwybodaeth ychwanegol yn **Atodiad 2**.
- 1.9. Dylai awdurdodau sylwi, hefyd, nad yw'r canllaw hwn ond yn datgan cyfrifoldebau sydd yn ymwneud yn benodol â deddfwriaeth rheoli hawliau tramwy cyhoeddus. Mewn llawer i achos, efallai y bydd angen i awdurdodau ystyried deddfwriaeth arall wrth gyflawni eu dyletswyddau: ynghylch cadwraeth natur neu iechyd a diogelwch, er enghraifft.

### Adnoddau Awdurdodau Lleol

- 1.10. Nid yw'r ddogfen hon yn gosod unrhyw rwymedigaethau ychwanegol ar awdurdodau, felly nid oes iddi unrhyw oblygiadau parthed rhagor o weithwyr neu wariant. Darperir arian ar gyfer gwaith hawliau tramwy trwy'r cymhorthdal cynnal refeniw. Dylai Awdurdodau sicrhau eu bod yn neilltuo digon o adnoddau ar gyfer cyflawni eu cyfrifoldebau statudol parthed diogelu a chofnodi hawliau tramwy cyhoeddus, a bod y rhwydwaith hawliau tramwy mewn cyflwr addas i'r rhai sy'n dymuno ei ddefnyddio.

## Statudau

- 1.11. Mae'r holl gyfeiriadau at statudau yn y ddogfen hon at y fersiynau sydd mewn grym ar hyn o bryd, fel y'i diwygiwyd. Dyma sut y cyfeirir at y statudau perthnasol yn y ddogfen hon:

|                    |                                                          |
|--------------------|----------------------------------------------------------|
| <b>DPCMCG 1949</b> | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad at Gefn Gwlad 1949 |
| <b>DCG 1968</b>    | Deddf Cefn Gwlad 1968                                    |
| <b>DP 1980</b>     | Deddf Priffyrdd 1980                                     |
| <b>DBGChG 1981</b> | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981                    |
| <b>DTFf 1988</b>   | Deddf Traffig Ffyrdd 1988                                |
| <b>DHT 1990</b>    | Deddf Hawliau Tramwy 1990                                |
| <b>DCGTh 1990</b>  | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990                       |
| <b>DCGHT 2000</b>  | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000                   |
| <b>DANChG 2006</b> | Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006      |

## Cyrff Cyfrifol

- 1.12. Mae pob un o'r Deddfau a grybwyllir uchod yn cyfeirio at y corff cyfrifol perthnasol: yr awdurdod priffyrdd lleol, yr awdurdod cynllunio lleol, yr awdurdod lleol, yr awdurdod trefsur, yr awdurdod sy'n gwneud y gorchymyn, neu'r awdurdod traffig, er enghraifft. Gan fod gan Gymru awdurdodau unedol, y mae'r cyrff hyn yn un a'i gilydd. O ganlyniad, cyfeiria'r ddogfen hon at yr **awdurdod** yn unig, gan olygu'r awdurdod unedol. Yr unig eithriad i hyn yw o fewn ein tri Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC). Lle dirprwyir swyddogaethau priffyrdd penodol i APC trwy gytundeb, gall ysgwyddo cyfrifoldeb am ddyletswyddau a phwerau hawliau tramwy cyhoeddus o fewn y parc. Yr APCau yw'r awdurdod cynllunio lleol, hefyd.



## 2. Rheoli'r Rhwydwaith

- 2.1. Mae rheoli'r rhwydwaith yn cynnwys amrywiaeth eang o dasgau, gan gynnwys rhaglennu gwelliannau, cynnal cofnodion, darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a sicrhau cydymffurfiaid â gofynion cyfreithiol.

### Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy

- 2.2. Mae Adran 60 DCGHT 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl i CGHT fod y prif fodd y gall awdurdodau glustnodi'r newidiadau sydd i'w gwneud er mwyn rheoli a gwella eu rhwydwaith hawliau tramwy leol, er mwyn darparu'n well ar gyfer defnyddwyr. Dylai awdurdodau ddwyn canllawiau Llywodraeth Cymru parthed CGHT mewn cof wrth baratoi ac adolygu eu dogfen leol.

### Argaeledd Mapiau a Datganiadau i'r Cyhoedd eu Gweld

- 2.3. Mae Mapiau a Datganiadau Diffiniol yn gofnodion dogfennol o hawliau tramwy cyhoeddus. Mynegant lle gall y cyhoedd gerdded, marchogaeth neu yrru'n gyfreithlon. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch natur Mapiau a Datganiadau Diffiniol yn yr adran '*Cofnodi'r Rhwydwaith*', isod (para. 5.1– 5.60).
- 2.4. Rhaid i Awdurdodau beri bod copïau o'u Map a Datganiad diffiniol a'u Gorchmynion Addasu ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn un neu ragor o leoedd y mae a wnelo'r map a'r diffiniad â hwy, fel arfer yn swyddfeydd yr awdurdod neu fannau eraill lle gall y cyhoedd eu gweld. Dylai awdurdodau, hefyd, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, roi copïau i'w cadw gan gynghorau cymuned a thref; nid oes ond angen i'r rhain ymwneud â'r ardal berthnasol i'r gymuned honno. Rhaid i awdurdodau gadw o leiaf un copi o Fapiau a Datganiadau blaenorol, ynghyd â'r Gorchmynion yn eu haddasu, ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn ogystal â hysbysu'r cyhoedd bod copïau o Fapiau a Datganiadau diffiniol ar gael i'w gweld.
- 2.5. Bydd llawer o awdurdodau'n cadw 'copïau gweithiol' o'u map, a seilir ar y Map Diffiniol, ond nad oes iddynt statws cyfreithiol terfynol Mapiau Diffiniol. Gallai map gweithiol gynnwys gwybodaeth ychwanegol nad yw'n ofynnol i'r Map Diffiniol ei gynnwys, megis llwybrau dargyfeiriedig na wnaed Gorchmynion Addasu Oherwydd Digwyddiad Cyfreithiol ar eu cyfer hyd yn hyn, neu lwybrau a ganiateir. Anogir awdurdodau, hefyd, i beri bod mapiau gweithiol ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ond dylai'r fath gopïau ddatgan yn eglur eu diffyg statws cyfreithiol.

### Cofrestrau

- 2.6. Mae Adran 53B o'r DBGChG 1981 yn mynnu bod awdurdodau'n cadw cofrestr ceisiadau am Orchmynion Addasu Map diffiniol. Nodir y gofynion statudol ar gyfer cofrestrau yn y rheoliadau - [Rheoliadau Hawliau Tramwy](#)

**Cyhoeddus (Cofrestrau) (Cymru) 2006** - ond os yw awdurdodau'n dymuno cofnodi gwybodaeth ychwanegol, fe'u hanogir i wneud hynny.

- 2.7. Mae Adran 31A o'r DP 1980 yn mynnu bod awdurdodau'n sefydlu cofrestr yn cynnwys gwybodaeth parthed datganiadau a roddir yng ngofal, a mapiau a datganiadau a roddir ar gadw, dan a. 31(6) o'r DP 1980. Mae'r fath ddatganiadau ac adneuon yn galluogi tirfeddianwyr i gydnabod yn ffurfiol yr hawliau tramwy ar draws eu tir, a thrwy hynny ei wneud yn eglur na fwriadant gyflwyno unrhyw lwybrau eraill ar draws eu tir.
- 2.8. Mae Adran 121B o'r DP 1980 yn mynnu y cedwir cofrestrau ar gyfer Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus ar gyfer pa rai y mae hawl ymgeisio dan a. 118ZA, a. 118C, a. 119ZA ac a. 119C o'r DP 1980. Nid yw'r adrannau hyn, fodd bynnag, mewn grym yng Nghymru. Tan y byddant mewn grym, ni chaiff y ddyletswydd i gadw cofrestr ei sbarduno o dan a. 121B.

### Llwybrau a Hyrwyddir

- 2.9. Gallai awdurdodau ddymuno datblygu llwybrau a hyrwyddir ar raddfa leol a rhanbarthol. Gellir gwneud hyn, hefyd, mewn partneriaeth ag eraill megis grwpiau gwirfoddol, ac â chyfraniad y Fforwm Mynediad Lleol. Gall y fath llwybrau fod yn adnodd rhagorol ar gyfer y cyhoedd, trwy osod man cychwyn a darford, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynghylch mwynderau'r fro, megis:
- Toiledau cyhoeddus
  - Mannau parcio
  - Trafnidiaeth gyhoeddus
  - Pa lwybrau / rannau y mae gan bobl sydd â phroblemau symudedd fynediad atynt
  - Graddfeydd anhawster.
- 2.10. Dylai'r wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd fod yn eglur parthed statws y llwybrau hyn er mwyn osgoi unrhyw amwysedd pe hawlid, ar ryw adeg yn y dyfodol, Orchymyn Addasu Map Diffiniol a effeithiai ar unrhyw ran ohono. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle nad oes gan ffyrdd yr un statws am eu hyd cyfan, neu lle cynhwysir rhannau caniataol.
- 2.11. Gallai hyrwyddo llwybr gynyddu'r defnydd ar yr hawl dramwy gyhoeddus dan sylw. Dylid ystyried yn ofalus addasrwydd y llwybrau a ddewisir, a'u gallu i wrthsefyll cynnydd i draffig. Dylid nodi hefyd unrhyw waith gwella sydd ei angen, gan gynnwys yr angen i gyrraedd unrhyw safonau ansawdd perthnasol. Dylid osgoi llwybrau sy'n dyblygu neu sy'n mynd yn gyfochrog â llwybrau rhanbarthol neu bellter maith rhanbarthol sydd eisoes yn cael eu hyrwyddo, er mwyn osgoi dryswch. Lle bo llwybrau'n mynd yn agos at ffiniau awdurdod, dylai'r ddau awdurdod ystyried cyflwr a chydlynid llwybrau.
- 2.12. Dylai awdurdodau ystyried yn ofalus farn pobl leol, gan gynnwys tirfeddianwyr; a dylent sicrhau, cyn rhoi unrhyw gyhoeddusrwydd i lwybrau penodol neu eu cymeradwyo, bod ymrwymiad pendant at eu cynnal yn y dyfodol, gan gofio cynnydd posibl yn y defnydd ohonynt. Efallai, hefyd, y bydd

angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw gyfleusterau ychwanegol sydd i'w darparu ar hyd llwybrau y mae cryn ddefnydd ohonynt. Dylid achub ar bob cyfle i hyrwyddo dirnadaeth o broblemau cefn gwlad ac amgylcheddol, pan fo modd. Gellir defnyddio cyhoeddusrwydd, hefyd, i ddwyn sylw at unrhyw gyfyngiadau yn sgil is-ddeddfau lleol a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

- 2.13. Gall hyrwyddo llwybrau sy'n croesi priffyrdd neu reilffyrdd prysur arwain at gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r croesfannau hyn, gan gynyddu perygl damweiniau. Dylai Awdurdodau fod yn ymwybodol, felly, o'r bygythiad dichonol i ddiogelwch y cyhoedd wrth hyrwyddo'r fath llwybrau, a gweithredu yn ôl yr angen i leihau'r perygl i'r cyhoedd wrth groesi ffyrdd. Yn achos croesfannau rheilffordd, dylai awdurdodau ymgynghori â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (SRhFf) a Network Rail, a fydd yn cynghori ynghylch goblygiadau diogelwch cynnydd mewn defnydd. Am ragor o arweiniad ynghylch diogelwch croesfannau rheilffordd, gweler dogfen SRhFf, '[\*Document Level Crossings: a guide for managers, designers and operators\*](#)'.
- 2.14. Wrth ddatblygu brand ar gyfer ffordd a hyrwyddir, dylid gofalu sicrhau nad yw'n camarwain ynghylch y safonau marcio ffyrdd derbyniedig. Dylai logo'r ffordd gynnwys un ai saethau o'r lliw addas ar gyfer statws y llwybr, neu fod wedi'i gynllunio'n unol â marciau ffordd traddodiadol, neu gynnwys dyluniad cyfeiriadol na ellid camgymryd ei fod yn mynegi ei statws. Enghraifft dda o lwybr wedi'i frandio yw Llwybr Arfordir Cymru, lle defnyddir cyfuniad o saethau marcio ffordd wedi'u brandio â chylchigau 'cragen ddraig' ar eu pennau eu hunain.
- 2.15. Wrth frandio ffyrdd, dylai awdurdodau sicrhau nad yw hynny'n arwain at godi gormod o arwyddion, na rhai diangen, yng nghefn gwlad, nac at ddryswch. Yn arbennig, dylid gweithredu'r hierarchaeth marcio ffyrdd cydnabyddedig, gyda brandio ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol yn cael y blaen ar lwybrau a hyrwyddir ar raddfa fwy lleol.

## Cynlluniau Blaenoriaethu

- 2.16. Trwy Orchymyn, rhaid i Awdurdodau sicrhau eu bod yn adolygu'r Mapiau a'r Datganiadau Diffiniol yn barhaus er mwyn eu cadw'n gyfoes. Lle bo llwyth o gynlluniau diwygio'r map diffiniol wedi crynhoi, anogir awdurdodau i weithredu fel bo'n addas er mwyn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i ddiweddarau eu Mapiau Diffiniol cyn gynted ag y bo modd. Argymhellir, hefyd, y dylai awdurdodau gyhoeddi, o bryd i'w gilydd, ddatganiad o'u blaenoriaethau ar gyfer diweddarau'r Map Diffiniol, a pharhau i'w ddiweddarau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai ymgeiswyr dichonol ddwyn y datganiad hwnnw mewn cof wrth gyflwyno eu ceisiadau am Orchymynion Addasu.
- 2.17. Mae gan ymgeiswyr, wedi ymgynghori ag awdurdod, hawl gofyn i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod hwnnw i benderfynu ynghylch cais am Orchymyn Addasu Map Diffiniol oni phenderfynwyd cais o fewn 12 mis i'r awdurdod dderbyn cadarnhad bod hysbysiad wedi ei gyflwyno i'r tîffeddiawyr a deiliaid yr effeithir arnynt. Wrth ymateb i'r fath gais, bydd

Gweinidogion Cymru, wrth ystyried a ddylid cyfarwyddo awdurdod i benderfynu cais am orchymyn o fewn cyfnod penodol, yn ystyried:

- unrhyw ddatganiadau a wnaed gan yr awdurdod yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer sicrhau bod y Map Diffiniol yn gyfoes, a'i gadw felly;
- rhesymoldeb y fath flaenoriaethau.
- unrhyw weithredu eisoes gan yr awdurdod ynghylch y cais o dan sylw, neu fynegiant o fwriadau yn ei gylch;
- amgylchiadau'r cais, ac unrhyw farn a fynegwyd gan yr ymgeisydd.

2.18. Gallai Awdurdodau, hefyd, nodi cynllun blaenoriaethu ar gyfer rheoli a gwella eu rhwydwaith leol. Gallai hwn fod yn rhan o'u CGHT, a dylid sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn eu goleuo ynghylch sut yr ymdrinnir â cheisiadau cynnal a gorfodi i'r awdurdod. Pan foo awdurdod yn cyhoeddi cynllun blaenoriaethu er mwyn cynnal neu ddiogelu'r rhwydwaith, gallai'r llys ystyried hyn pan yw'n penderfynu beth fyddai'n amser rhesymol ar gyfer cyflawni gwaith trwsio mewn perthynas â cheisiadau a wnaed dan a. 56 o DP 1980.

### **Fforymau Mynediad Lleol**

- 2.19. Mae Adran 94 o'r DCGHT 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i sefydlu Fforymau Mynediad Lleol i gynghori ynghylch mynediad cyhoeddus at dir at unrhyw ddiben cyfreithlon a hamddena awyr agored, gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus a hawl mynediad at dir agored.
- 2.20. Dylai aelodaeth Fforymau Mynediad Lleol gynnwys cydbwysedd o ddefnyddwyr hawliau tramwy a hawl mynediad at dir agored, tirlfeddianwyr a deiliaid, ynghyd ag unrhyw fuddion eraill arbennig o berthnasol i'r ardal. Dylai Fforymau Mynediad Lleol ganolbwyntio ar y materion hynny sydd fwyaf perthnasol i'w hardal nhw eu hunain, gan ystyried materion ar raddfa strategol, gan ofalu cyfeirio cyngor at y derbynwyr addasaf, a chan fod yn rhagweithredol. Rhaid i Awdurdodau ystyried barnau Fforymau wrth benderfynu ynglŷn â materion yn ymwneud â mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus.

### **Rhoi Gwybod i Unigolion a Grwpiau Eraill**

- 2.21. I gyd-fynd â swyddogaeth strategol Fforymau Mynediad Lleol, gallai awdurdodau ddymuno sefydlu neu gynnal grwpiau cyswllt sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr pawb sydd â budd yn y rhwydwaith hawliau tramwy. Lle bo angen newid y rhwydwaith er mwyn sicrhau ei bod yn fwy addas at anghenion defnyddwyr, gall grwpiau cyswllt fod â rhan werthfawr wrth helpu i ddiffinio cynlluniau sy'n dal y ddysgl yn wastad, gorau y gellir, rhwng yr holl fuddiannau. Mae'r modd y gall grwpiau cyswllt graffu'n fanylach ar gynlluniau hawliau tramwy yn ychwanegiad gwerthfawr at waith Fforymau Mynediad Lleol. Gallai Fforymau Mynediad Lleol sefydlu is-grwpiau i gyflawni'r math hwn o swyddogaeth.

## Darparu Gwybodaeth ar gyfer y Cyhoedd

- 2.22. Dylai'r Awdurdodau amcanu darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd ynghylch holl amrywiaeth y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer mwynhau'r rhwydwaith hawliau tramwy. Dylai pob gwybodaeth o'r fath fod yn hygyrch, yn hollgynhwysol, ac wedi'i hyrwyddo'n helaeth.
- 2.23. Dylai awdurdodau addasu eu cyhoeddusrwydd at anghenion, cyfleoedd a chyfyngiadau lleol, ond y mae cynlluniau llawn dychymyg sydd eisoes ar gael yng nghefn gwlad yn cynnwys cynhyrchu taflenni cerdded, marchogaeth a beicio; cynnig teithiau cerdded neu farchogaeth tywysedig; trefnu neu ymuno mewn gwyliau; defnyddio technoleg symudol ar ffurf apiau ffonau symudol a llwybrau GPX; hyrwyddo'r rhwydwaith ym meysydd gwaith eraill megis cynlluniau cynnal cymunedau gwledig; a pheri bod gwybodaeth ar gael ar wefan sy'n dangos argaeledd hawliau tramwy cyhoeddus a'u perthynas â thiroedd eraill y mae gan y cyhoedd fynediad ato. Mae cyhoeddusrwydd hefyd yn darparu cyfle i hyrwyddo amgyffrediad o gefn gwlad a materion amgylcheddol.

## Wardeiniaid a Gwirfoddolwyr

- 2.24. Mae gan awdurdodau bwerau penodi wardeiniaid, a hynny yng nghefn gwlad yn gyffredinol ac, yn rhinwedd a. 62 o'r DBGChG 1981, i weithredu ar hawliau tramwy cyhoeddus. Gall wardeiniaid gynghori aelodau'r cyhoedd ynghylch defnyddio hawliau tramwy. Gallant helpu hefyd i warchod rhag ymddygiad anystyriol.
- 2.25. Dylai awdurdodau ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael gan dirfeddianwyr a grwpiau gwirfoddol wrth gyflawni eu dyletswyddau ynghylch cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus. Gall grwpiau gwirfoddol gynorthwyo ag amrywiaeth eang o weithgareddau megis mapio, trwsio a marcio llwybrau. Dylai awdurdodau sy'n defnyddio cymorth gwirfoddol sicrhau darparu hyfforddiant addas ym meysydd megis defnyddio offer ac iechyd a diogelwch, a bod arolygu digonol.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

- 2.26. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd amryw agweddau ar ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu. Mynna fod rhaid i gyrff sector cyhoeddus ragweithredu i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb neu gyfle, a meithrin perthnasau da cydrhwng pobl ag anabledd ac eraill. Ehanga ddiffiniad anabledd: bydd anhawster symudedd, golwg gwael, anawsterau dysgu, dehurwydd llaw a rhai clefydau tymor hir oll yn dod o fewn y Ddeddf.
- 2.27. Diwygiodd Adran 69 o'r DCGHT 2000 a. 47 o'r DP 1980, gan fynnu bod awdurdodau'n ystyried anghenion pobl ag anawsterau symudedd wrth awdurdodi codi camfeydd, giatiau neu gelfi eraill ar hawliau tramwy cyhoeddus addas. Mae gan awdurdodau bwerau penodol dan adran 147ZA yn hyn o beth (gw. para. 3.13 - 3.15).

- 2.28. Mae a. 147 ac a. 147ZA yn cynnwys pwerau gosod amodau ar gynllun a chynnal adeileddau. Cyngorir Awdurdodau y gellir defnyddio'r pwerau hyn i fynnu, er enghraifft, bod adeiledd yn cydymffurfio â BS 5709, o leiaf.

### **Anghenion Pobl ag Anawsterau Symudedd**

- 2.29. Dylai awdurdodau fod yn ymwybodol o'r canllawiau arfer gorau diweddaraf, gan gynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan grwpiau defnyddwyr perthnasol megis y Fieldfare Trust a'r Pittecroft Trust. Dylai'r fath ddogfennau, ynghyd â Safon Brydeinig BS5709 bylchau, giatiau a chamfeydd, roi i awdurdodau ddigon o wybodaeth ynghylch sut mae cloriannu anghenion pobl ag anawsterau symudedd, a phenderfynu pa lwybrau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer darparu gwell mynediad ar gyfer y fath bobl. Dylai awdurdodau weithredu polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol, gan sicrhau cyn lleied o rwystrau â phosibl wrth osod ac ailosod giatiau a chamfeydd, trwy gytundeb â'r tiffeddiannwr. Nid yw mynd i'r afael â rhwystrau corfforol ar hawliau tramwy ond yn un rhan o ddarparu gwell mynediad i gefn gwlad i bobl ag anableddau neu anawsterau symudedd, a rhaid ystyried y fath bethau â chyhoeddusrwydd, parcio, a chyfleusterau perthnasol eraill, hefyd.
- 2.30. Wrth baratoi eu CGHT, dylai awdurdodau nodi sut y mae'r rhwydwaith hawliau tramwy leol yn diwallu gofynion defnyddwyr lleol y presennol a'r dyfodol, gan gynnwys y deillion a phobl ag anawsterau symudedd. Dylai Fforymau Mynediad Lleol geisio sicrhau gwahodd cynrychiolwyr grwpiau anabledd lleol i fod yn aelodau o'r Fforwm. Ceir rhagor o wybodaeth mewn Canllawiau CGHT a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

### **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

- 2.31. Seilir Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar dair prif egwyddor:
- Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.
  - Yng Nghymru, ni ddylid trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.
  - Dylid hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.
- 2.32. O ganlyniad i Fesur y Gymraeg, dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn rhoi i'r Gymraeg le mor amlwg â'r Saesneg. Dylai pob gorchymyn a hysbysiad swyddogol a gyhoeddir (y rhai mewn perthynas â Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus, er enghraifft) a phob deunydd hyrwyddol, fod yn ddwyieithog, gan ddefnyddio testun o'r un maint ac amlygrwydd ar gyfer y ddwy iaith. Lle'n briodol, gellir defnyddio symbolau a ddefnyddir yn gyffredin ar arwyddion yn hytrach nag iaith.

### **Cadwraeth Natur**

- 2.33. Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Awdurdodau Lleol) i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' cyn belled ag y bo'n gyson ag arfer



priodol y swyddogaethau hynny. Trwy wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio 'hybu cydnerthedd ecosystemau' hefyd.

- 2.34. Dylai'r Awdurdod Lleol gyfeirio at ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ogystal ag unrhyw ganllawiau mewnol. Os nad oes canllawiau o'r fath ar gael, cysylltwch ag ecolegydd yr ALI (neu ecolegydd annibynnol pan nad oes un ar gael) am ragor o gyngor.
- 2.35. Rhoddir diogelwch cyfreithiol i bob aderyn gwyllt ac anifeiliaid penodol eraill o dan Ran I DBGChG 1981. Cyn ymgymryd â gwaith, dylai awdurdodau ystyried a yw'r camau arfaethedig yn debygol o effeithio ar rywogaeth anifail neu blanhigyn a warchodir. Mae lefel y diogelwch yn wahanol yn ôl anghenion rhywogaethau unigol. Dylid gofyn am gyngor ar rywogaethau unigol gan ecolegwyr mewnol yr awdurdod pan fyddant ar gael neu arbenigwyr allanol priodol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi trwyddedau i ganiatáu i waith penodol gael ei wneud a fyddai'n anghyfreithlon fel arall. Gall awdurdodau ofyn am gymorth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar yr angen am drwydded.
- 2.36. Rhoddir diogelwch ychwanegol i rywogaethau anifail a phlanhigyn o bwysigrwydd Ewropeaidd (Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop - EPS) trwy Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'). Mae'n rhaid i awdurdodau ystyried goblygiadau'r weithred arfaethedig ar unrhyw EPS cyn gwneud unrhyw waith. Gall awdurdodau gael trwydded EPS gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn osgoi torri'r gyfraith.
- 2.37. Caiff moch daear a'u brochfeydd eu diogelu o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992. Gellir cael trwyddedau ar gyfer gwaith a allai effeithio ar foch daear gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar ddiben y gweithgarwch sy'n cael ei gynnal.
- 2.38. Mae Rhan II DBGChG 1981 yn ymwneud â neilltuad ardaloedd gwarchodedig, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) a Pharciau Cenedlaethol. Ceir dros 1000 o SoDdGAau yng Nghymru, pob un yn cael ei warchod gan y gyfraith rhag difrod trwy ddatblygiad neu reolaeth anghynaliadwy neu weithgareddau eraill.
- 2.39. Bernir bod Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn 'awdurdodau Adran 28G' at ddibenion y DBGChG 1981. Gan hynny, y mae ar awdurdodau ddyletswydd i gymryd camau rhesymol, cyson â chyflawniad priodol eu swyddogaethau, i hyrwyddo cadwraeth a gwella'r planhigion, yr anifeiliaid, neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffegol yn rhinwedd pa rai y mae'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.
- 2.40. Fel 'awdurdod adran 28G', mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan adran 28H a 28I DBGChG 1981, hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud unrhyw waith sy'n debyg o ddifrodi unrhyw un o'r nodweddion ddarfu beri datgan SoDdGA a hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn rhoi caniatâd i unrhyw weithgareddau sy'n debyg o ddifrodi nodweddion SoDdGA. Mae'r ddyletswyddau hyn yn berthnasol hyd yn oed lle nid yw gweithrediad o fewn y

SoDdGA, ond y gallai effeithio arno er gwaeth. Gallai gweithrediadau hyn gynnwys y gweithgareddau hynny a gysylltir fel rheol â chreu priffyrdd neu eu cynnal a'u cadw fel mater o drefn. Cynghorir awdurdodau felly i ymgynghori'n anffurfiol â Chyfoeth Naturiol Cymru cyn cyflawni unrhyw weithredu mewn SoDdGA neu'n gyfagos, gan gynnwys cynnal a chadw llwybrau.

- 2.41. Mae'n rhaid i awdurdodau ystyried hefyd a yw safleoedd wedi'u neilltuo at unrhyw ddiben cadwraeth natur arall o dan ddeddfwriaeth ddomestig neu fel safleoedd Ewropeaidd neu Ryngwladol (e.e.: GNGau, ACAau, AGAau, safleoedd Ramsar). Mae'n rhaid i awdurdodau ystyried eu rhwymedigaethau o dan Ran 6 y Rheoliadau Cynefinoedd o ran gwneud neu ganiatáu gwaith ar gyfer cynllun neu brosiect sy'n debyg o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd o ystyried amcanion cadwraeth y safle.
- 2.42. Mae'r gofyniad i ystyried y dibenion ar gyfer pa rai y crëwyd Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (a. 11A(2), DPCMCG 1949; a. 85 DCGHT 2000) yn berthnasol i awdurdod wrth gyflawni dyletswyddau i reoli a chynnal yr hawliau tramwy cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt.

### Rhywogaethau Estron Goresgynol a Chwyn Niweidiol

- 2.43. Mae DBGChG 1981, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, DCGHT 2000 a Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynol (CE 1143/2014) DANChG 2006 yn ymdrin yn bennaf â rheoli rhywogaethau estron goresgynol. Wrth gynnal y rhwydwaith, dylid cynllunio gwaith er mwyn sicrhau na chaniateir ymlediad rhywogaethau estron goresgynol megis (ond nid yn unig) yr efwr mawr, y ffromlys chwarennog a llysiau'r dial a bod 'gwastraff a reolir' yn cael ei waredu. Mae angen rhoi sylw i gyflawni'r weithred yn ddiogel gan y gall planhigion (e.e. yr efwr mawr) a chynhyrchion a ddefnyddir fod yn wenwynig. Ceir rhagor o fanylion parthed rhywogaethau estron goresgynol yn [www.nonnativespecies.org](http://www.nonnativespecies.org) a <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/plantss/eedsbotechnology/invasive-non-native-species/invasive-plant-species/?lang=cy>
- 2.44. Dylid rhoi sylw tebyg i chwyn niweidiol megis (ond nid yn unig) llysiau'r gingroen a thaflen y cŵn, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n briodol ac na chaniateir iddynt ledaenu i dir cyfagos. Rhagor o wybodaeth am sut i atal a rheoli ymlediad llysiau'r gingroen: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/plantss/eedsbotechnology/injweeds/?lang=cy>
- 2.45. Dylai staff awdurdodau neu gontractwyr gymryd i ystyriaeth hefyd y canllawiau a ddarperir ar y defnydd o blaladdwyr gerllaw hawliau tramwy cyhoeddus a mannau awyr agored eraill sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae'r canllawiau ar gael yn: <http://www.hse.gov.uk/agriculture/topics/pesticides.htm>



## Henebion Rhestredig

- 2.46. Mae henebion rhestredig yn henebion o bwys cenedlaethol y rhoddir iddynt ddiogelwch statudol o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Amcan y diogelu yw osgoi unrhyw ddifrod sylweddol i'r heneb a'i gyd-destun neu newid y cyfryw. Dangosir hyd a lled unrhyw heneb o'r fath ar y cynllun a elwir yn ardal restredig.
- 2.47. Dylid ymgynghori â Cadw cyn gwneud unrhyw waith ar hawl dramwy gyhoeddus o fewn heneb restredig. Rhaid cael caniatâd heneb restredig gan Weinidogion Cymru, trwy gais at Cadw, cyn gwneud unrhyw waith o fewn yr ardal restredig a allai ddifrodi'r heneb restredig. Trosedd yw gwneud fel arall, ac y mae'r mathau o waith y mae angen caniatâd o'r fath ar eu cyfer yn cynnwys gweithgareddau cynnal a chadw arferol megis agor tyllau ar gyfer pyst, gosod celfi newydd a gollwng deunyddiau ar wyneb. Dylid ystyried cynlluniau yng ngoleuni canllawiau cyhoeddedig parthed Egwyddorion Cadwraeth Rheolaeth Gynaliadwy ar yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan Cadw](#).
- 2.48. Dylid hefyd ymgynghori â Cadw cyn gwneud unrhyw waith ar hawl dramwy gyhoeddus o fewn parc a gardd hanesyddol cofrestredig.

### 3. Cynnal y Rhwydwaith

- 3.1. Mae modd cynnal mwyafrif yr hawliau tramwy cyhoeddus ar draul y cyhoedd, a lle felly y bo, dyletswydd awdurdodau yw eu cynnal. Gallai awdurdodau hefyd gynnal hawliau tramwy cyhoeddus nad oes modd eu cynnal yn gyhoeddus.
- 3.2. O dan a. 43 o'r DP 1980, gall cynghorau cymuned neu dref gynnal llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig yn eu hardal sy'n cael eu cynnal a chadw ar draul y cyhoedd heb gael caniatâd neu gytundeb yr awdurdod, er y cynghorir yn gryf y dylid ceisio cytundeb cyn dechrau gwaith. Nid yw cynnal gan gynghorau cymuned, fodd bynnag, yn esgusodi awdurdodau rhag cyflawni eu dyletswyddau hwy eu hunain. O dan a50 o'r DP 1980, gall awdurdodau, cynghorau cymuned neu dref gynnal llwybrau troed a llwybrau ceffylau na ellir eu cynnal ar draul y cyhoedd heb effeithio ar hawliau a dyletswyddau'r perchnogion cyfrifol.

#### Safonau Cynnal

- 3.3. Bernir nad ymarferol argymhell safonau penodol cynnal neu adfer ar gyfer mathau penodol o hawliau tramwy cyhoeddus. Dylai'r cynnal, fodd bynnag, fod yn gyfryw ag i sicrhau y gall llwybrau gefnogi'r defnydd a wneir ohonynt gan draffig arferol gydol y flwyddyn. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu dwyn i mewn a thaenu deunyddiau caled addas. Nid rhaid i gynnal gydymffurfio â safon adeiladu neu olwg fympwyol, ond yn hytrach dylai gydweddu â golwg a chymeriad cyffredinol yr amgylchedd, neu gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau perthnasol, er enghraifft o ganlyniad i statws SoDdGA.

#### Adeileddau

##### Pontydd

- 3.4. Mae adrannau 91 a 92 o'r DP 1980 yn caniatáu ar gyfer adeiladu ac ailadeiladu pontydd sy'n rhan o hawl dramwy gyhoeddus. Gellir ailadeiladu pont ar yr un safle neu ar safle newydd o fewn 200 llath i'r un blaenorol. Pe symudid pont i safle newydd o fewn y cyfyngiad 200 llath, mae'r pŵer yn ymestyn at y briffordd a rydd fynediad at y bont, a gellir ailadeiladu hon ynghyd â'r bont heb fod angen gorchymyn dargyfeirio. Fodd bynnag, mae angen caniatâd amddiffyn rhag llifogydd, o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, cyn unrhyw waith mewn, tros, o dan neu yn ymyl prif afon. Lle bo pont i'w hadeiladu tros unrhyw fath arall ar ddyfrffos (gan gynnwys ffosydd, draeniau, sianelau, cobiau, carthffosydd eraill na charthffosydd cyhoeddus, a mynedfeydd trwy ba rai y mae dŵr yn llifo), mae angen caniatâd dyfrffos gyffredin gan y prif awdurdod llifogydd lleol, sef, fel arfer, yr awdurdod unedol.

## Giatiau a Chamfeydd

- 3.5. Mae giatiau, camfeydd ac adeileddau eraill ar hawl dramwy gyhoeddus yn rhwystrau anghyfreithlon:
- Onis cofnodir yn gyfyngiad ar y datganiad diffiniol, neu
  - Y gellir dangos y neilltuwyd y ffordd â'r fath adeiledd er nas cofnodwyd yn y datganiad diffiniol (h.y. y mae angen diweddarau'r datganiad), neu
  - Eu bod wedi'u hawdurdodi gan yr awdurdod dan a. 147 o'r DP 1980, neu
  - Eu bod wedi'u hawdurdodi o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- 3.6. Onis neilltuwyd gyda chyfyngiad giât, ni ellir gosod y fath adeiledd ar draws cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd agored i bob traffig. Dywed a145 o'r DP 1980 yn benodol fod rhaid darparu o leiaf 5 troedfedd (1.5 metr) o led ar gyfer giât ar draws llwybr ceffylau, ac o leiaf 10 troedfedd (3 metr) ar gyfer giât ar briffordd sy'n ffordd gerbydau (sef un lle mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar gyfer cerbydau). Yn achos giatiau llwybr ceffylau a neilltuwyd yn amodol ar safonau BS 5709, rhaid medru defnyddio'r giatiau hynny tra bo'r marchog yn y cyfrwy.

## Cyfrifoldebau Cynnal

- 3.7. O dan a. 146(1) o'r DP 1980, mae tirfeddianwyr yn gyfrifol am gynnal giatiau, camfeydd ac adeileddau cyffelyb ar draws llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gefnffyrdd cyfyngedig, pa un a'u dangosir ar y map diffiniol ai peidio. Rhaid i Awdurdodau gyfrannu nid llai na chwarter y treuliau rhesymol pan fo tirfeddianwyr yn ymgymryd â gwaith ar y fath strwythur. Y mae'r cyfrifoldebau hyn mewn grym onid yw cytundeb neu amod penodol, ysgrifenedig i'r gwrthwyneb wedi'i gwblhau cydrhwng yr awdurdod a'r tirfeddiannwr, megis pan fo strwythur wedi'i awdurdodi'n amodol ar amodau dan a. 147 o'r DP 1980. Lle'r ymddengys i awdurdod nad yw'r tirfeddiannwr yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol, gall yr awdurdod hysbysu'r tirfeddiannwr ynghylch eu bwriad i wneud a fo angen er mwyn trwsio ac adfer cyflwr y gamfa, y giât neu waith arall. Gallai'r awdurdod adennill gan y tirfeddiannwr y treuliau rhesymol yr aethpwyd iddynt wrth gyflawni'r gwaith.
- 3.8. Lle bo awdurdodau'n trefnu i wneud gwaith i gynnal adeileddau eu hunain, dylent fod yn eglur wrth ymwneud â'r tirfeddiannwr fod y gwaith i'w wneud ar ran y tirfeddiannwr.

## Awdurdodi Adeileddau Newydd – Adran 147

- 3.9. Rhydd adran 147 i awdurdodau cymwys pŵer awdurdodi codi ar lwybr troed neu lwybr ceffylau (ond nid ar gilffordd gyfyngedig na chilffordd sy'n agored i bob traffig na llwybr beicio) gamfa, giât neu adeiledd arall sy'n atal mynediad anifeiliaid i mewn ac allan. Ar gais perchennog, deiliad prydles neu ddeiliad y tir yn unig y gall yr awdurdod weithredu. Mae'r pŵer yn ymwneud yn unig â llwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n croesi tir a ddefnyddir, neu y dechreuir

eu defnyddio, ar gyfer amaethyddiaeth (yn ôl diffiniad a. 329 o'r DP 1980), coedwigaeth, neu fagu neu gadw ceffylau. Nid yw unrhyw awdurdodiad a roir dan a. 147 yn caniatáu unrhyw amharu ar hawliau mynediad preifat na hawliau ymgymrwyr statudol.

- 3.10. Gallai awdurdod, os penderfyna roi awdurdodiad, osod amodau ar gyfer cynnal ac ar gyfer sicrhau y gellir defnyddio'r hawl dramwy heb anhwylyso'r cyhoedd yn ddiangen. Mae pwerau eraill ar gael dan a. 66(3) o'r DP 1980 i Awdurdodau ddarparu a chynnal y fath rwystrau, pyst, rheiliau neu ffensys ar lwybr troed neu lwybr ceffylau ag y bernir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer diogelu'r sawl sy'n defnyddio'r briffordd.
- 3.11. Cyn awdurdodi rhwystr newydd dan a. 147, dylai awdurdodau fod yn fodlon ynglŷn â'r tri canlynol:
- Y defnyddir y tir, neu y dechreuir ei ddefnyddio, ar gyfer amaeth, coedwigaeth neu fagu neu gadw ceffylau.
  - Ei fod yn hwylus, er mwyn cyflawni'r defnydd hwnnw'n effeithlon, gosod adeiledd ar y llwybr neu'r ffordd sy'n croesi'r tir er mwyn atal mynediad anifeiliaid i mewn ac allan.
  - Mai'r rhwystr a awdurdodir yw'r rhwystr lleiaf cyfyngol sy'n gyson â'r angen i gyfyngu ar anifeiliaid neu eu cau allan.
- 3.12. Lle nad oes bellach bŵer parhaol i'r rhesymau dros awdurdodi'r rhwystr, dylid diddymu'r awdurdodiad a symud y rhwystr ymaith.

### **Gwella Adeileddau – Adran 147ZA**

- 3.13. Darfu i adran 69 o'r DCGHT 2000 hefyd gyflwyno a147ZA newydd i'r DP 1980, gan roi i awdurdodau bwerau ymrwymo i gytundebau â thirfeddianwyr, deiliaid prydles neu ddeiliaid tir i wneud gwaith ar adeiledd sydd ar lwybr troed neu lwybr ceffylau, er mwyn gosod yn ei le adeiledd newydd neu well a fydd yn fwy diogel neu'n fwy cyfleus gan y sawl sydd ag anawsterau symudedd.
- 3.14. Dylai Awdurdodau nodi'r canlynol:
- Mae'n darparu pŵer ar gyfer ymrwymo i gytundeb yn unig. Ni all awdurdodau ymrwymo i gytundeb heb ganiatâd pob perchennog, deiliad prydles neu ddeiliaid tir y mae'r adeiledd perthnasol arno. Mae pwerau, tebyg i'r rhai yn a. 147, ar gyfer gosod amodau, gan gynnwys amodau ar gyfer cynnal yn y dyfodol.
  - Mae pŵer ymrwymo i gytundeb yn gyfyngedig i adeileddau sy'n "adeileddau perthnasol". Mae'r cyfryw'n adeileddau cyfreithlon, a'r Awdurdodau sydd i'w bodloni'u hunain a yw adeiledd sy'n destun cytundeb arfaethedig yn "adeiledd perthnasol". Gall yr awdurdod ymdrin ag unrhyw adeiledd nad yw'n "adeiledd perthnasol" ar draws llwybr troed neu lwybr ceffylau dan a. 130 ac a. 143 o'r DP 1980 megis rhwystr. O dan rai amgylchiadau, gallai awdurdodi adeiledd newydd gan yr awdurdod dan a. 147 ddatrys y mater.
  - Gall cytundeb a. 147ZA gynnwys rhagor nag un adeiledd.

- Dylai Awdurdodau sicrhau mai'r adeiledd newydd, neu'r un wedi'i wella, yw'r rhwystr lleiaf cyfyngol sy'n gyson ag unrhyw angen i gyfyngu ar anifeiliaid neu eu cau allan. Dylai Awdurdodau sylwi nad yw pŵer ymrwymo i gytundebau'n cynnwys tynnu adeileddau ymaith heb osod eraill yn eu lle. *Sylwer:* Yn yr achos hwn, gallai bwlch sy'n cydymffurfio â BS 5709 neu debyg fod yn adeiledd os yw amgylchiadau unrhyw achos penodol yn awgrymu y gall fod felly.
- Rhagwêl y pŵer ymrwymo i gytundebau y bydd gwaith yn dilyn, felly ni ellir defnyddio'r pŵer i ymrwymo i gytundebau i awdurdodi gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni yn ôl-ddyddiedig.

3.15. Ar wahân i'r pwerau sydd ar gael dan a. 147ZA, dylai awdurdodau roi sylw, hefyd, i'w cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Atodir model cytundeb a. 147ZA yn Atodiad 3. Dylai awdurdodau gadw cofnodion o awdurdodiadau dan a. 147 ac a. 147ZA, ac anogir hwy i beri bod y rhain ar gael i'r cyhoedd eu gweld ynghyd â'r map a'r datganiad diffiniol. Ceir rhagor o fanylion ynghylch y gofyniad hwn ym mharagraff 5.22.

## Wynebau

- 3.16. Mae adran 283 o'r DP 1980 yn breinio wynebau priffyrdd sy'n gynaliadwy ar draul y cyhoedd yn yr awdurdod priffyrdd. Gall awdurdodau, felly, weithredu fel pe baent yn berchnogion ar wynebau hawliau tramwy cyhoeddus, hyd raddfa ddigonol ar gyfer rheoli, diogelu a chynnal y ffordd ar gyfer ei defnyddio gan y cyhoedd.
- 3.17. Rhaid i'r awdurdod sicrhau y gall ffyrdd hwyluso'r defnydd a wneir ohonynt gan draffig cyffredin gydol y flwyddyn. Golyga hyn fod rhaid mynd ati i sicrhau bod y ffordd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer traffig cyffredin, fel sy'n briodol i'w statws. Mae hyn yn cynnwys tocio unrhyw lystyfiant ar yr wyneb yn ôl y gofyn.
- 3.18. Mae gan Awdurdodau bwerau penodol ar gyfer gwella wynebau priffyrdd. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys:
- Gwastatáu.
  - Adeiladu pontydd.
  - Gosod pontydd yn lle rhydau neu gerrig camu.
  - Plannu a threfnu ymylon.
  - Gosod cerrig wyneb.
  - Gwella draeniad.
  - Trin y briffordd i ostwng llwch.
  - Darparu gridiau gwartheg.
  - Diogelu rhag peryglon natur.
  - Cyflawni gwaith neu osod adeileddau at ddibenion gwella amwynder neu ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.
- 3.19. Yn ychwanegol, mae gan awdurdodau bŵer gwella cyffredinol dan a. 62 o'r DP 1980 y gellir dibynnu arno mewn amgylchiadau lle nid yw pwerau penodol

yn gymwys. Dylai gwelliannau, fodd bynnag, sicrhau yr erys y llwybr yn ddefnyddiadwy fel y'i neilltuwyd.

## Arwyddion

### Arwyddbyst Ymyl Ffordd

- 3.20. Mae adran 27 o'r DCG 1968 yn mynnu bod awdurdodau'n gosod arwyddbyst ar lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd agored i bob traffig lle gadawont ffyrdd metlin. Ffordd yw unrhyw briffordd ac unrhyw ffordd arall y mae gan y cyhoedd fynediad ati; felly mae ffordd fetlin yn cynnwys unrhyw hawl dramwy sydd ag wyneb caled, wedi'i wella (megis tarmac). Nid oes rhaid i awdurdodau godi arwyddbyst ar gyffordd ffordd â ffordd fetlin pan ymgynghorwyd â'r cyngor tref neu gymuned a'i fod wedi cytuno nad oes angen hynny.
- 3.21. Trosedd dan a. 131(2) o'r DP 1980 yw symud ymaith neu ddileu arwydd traffig sy'n cydymffurfio â'r Llawlyfr Arwyddion Traffig heb awdurdodiad.

### Marcio Ffordd

- 3.22. Mae'r term "arwyddbost" hefyd yn cynnwys arwyddion eraill megis marc ffordd wedi'i baentio. Mae arwyddbyst a marciau ffordd o fudd sylweddol i ddefnyddwyr llwybrau, a hefyd o gymorth i dirfeddianwyr trwy helpu i atal tresmasu. Rhaid i awdurdodau hefyd sicrhau darparu digon o wybodaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd, trwy gyfrwng arwyddion neu hysbysiadau addas, yn enwedig ar gyffyrdd llwybrau, i'w galluogi i ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy leol. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle newidiwyd llwybrau trwy gyfrwng Gorchmynion statudol ers cyhoeddi fersiwn ddiweddaraf mapiau sydd ar gael i'r cyhoedd, megis rhai'r Arolwg Ordnans.
- 3.23. Rhaid ymgynghori, pob tro, â pherchennog neu ddeiliad y tir a groesir gan hawl tramwy, cyn codi unrhyw arwydd, er nad oes angen cydsyniad gan na all tirfeddiannwr wrthod â chaniatáu marcio ffordd. Rhaid cael cydsyniad tirfeddiannwr, fodd bynnag, os yw'r arwydd i'w atodi wrth ei eiddo ef neu hi, megis ar bostyn ffens neu gamfa. Ym mwyafrif yr achosion, gosodir arwyddbost yn y man lle mae hawl tramwy'n gadael ffordd fetlin ar ymyl ffordd neu lwybr troed sydd ym meddiant yr awdurdod, felly mae mwyafrif yr achosion lle mae angen cael caniatâd, yn rhai lle y gosodir marciau ffordd i dywys y cyhoedd ar hyd y llwybr cywir.
- 3.24. Mae'r drefn a argymhellir yng Nghymru ar gyfer marcio hawliau tramwy cyhoeddus yn defnyddio saethau lliw bychain i ddangos cyfeiriad y llwybr, a bod yn nod pan welir nhw o bell. Defnyddir gwahanol liw ar gyfer pob un dosbarth o hawl dramwy gyhoeddus, a hynny'n unig er mwyn dangos statws y llwybr, ac nid mynegi a yw'n gorfforol addas:
- Caiff llwybrau troed eu marcio â saethau melynion (BS 08 E 51).
  - Caiff llwybrau ceffylau eu marcio â saethau gleision (BS 20 E 51).
  - Caiff cilffyrdd cyfyngedig eu marcio â saethau porffor (BS 02 C 39).

- Caiff cilffyrdd sy'n agored i bob traffig eu marcio â saethau cochion (BS 06 E 55, yn fras).

## Cael Mynediad er mwyn Gwneud Gwaith <sup>1</sup>

### Pwerau Mynediad at Ddibenion Tirfesur

- 3.25. Mae Adran 289 DP 1980 yn darparu y gall y sawl sydd wedi'i awdurdodi'n briodol mewn ysgrifen gan awdurdod fynd, ar unrhyw adeg resymol, ar unrhyw dir at ddibenion mesur y tir hwnnw neu unrhyw dir arall mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau awdurdod priffordd. Nid yw hyn yn cynnwys, yn blaen, swyddogaethau'r awdurdod tirfesur parthed ei ddyletswyddau o dan y DBGChG 1981. Parthed y ddyletswydd o dan y ddeddf honno i adolygu'r map a datganiad diffiniol yn barhaus, awgrymwyd bod yr angen i fynd ar dir (at ddibenion tirfesur ar gyfer Gorchymyn, er enghraifft) yn y ddyletswydd gyffredinol ar yr awdurdod priffyrdd i "*fynnu a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r briffordd*" dan a. 130 o'r DP 1980, ac felly bod y pwêr i fynd ar dir at ddibenion tirfesur yn y DP 1980 yn cynnwys mynediad ar gyfer tirfesur mewn perthynas â'r DBGChG 1981. Ni phrofwyd y ddadl hon yn y Llysoedd hyd yn hyn, fodd bynnag.
- 3.26. Ategir y pwerau yn a. 289 gan ddarpariaethau a. 290, ac y mae angen darllen y ddwy adran â'i gilydd. Mae adran 292(4) yn gwneud rhwystro'n fwriadol y sawl sy'n gweithredu gan arfer pŵer dan a. 289 yn drosedd.

### Pŵer Mynediad at Ddibenion Cynnal Adeileddau a Gwaith Penodol

- 3.27. Lle bo gan awdurdod bŵer cynnal, newid neu symud ymaith unrhyw adeiledd neu waith ar, tros neu o dan dir nad yw'n perthyn i'r awdurdod, nac yn rhan o briffordd ar gyfer yr hon yr ydynt yn awdurdod priffordd, ceir pwerau mynediad yn a. 291 o'r DP 1980. Mae isadrannau (1), (2) a (3) a. 290 hefyd yn berthnasol i a. 291. Parthed a. 291, mae "adeiledd" yn cynnwys pont, ffens, rhwystr neu bostyn, a "gwaith" yn cynnwys twnnel, ffos, gwter, cwrs dŵr, ceuffos, draen, suddbant neu bibell. Mae adran 292(4) yn gwneud rhwystro'r sawl sy'n gweithredu gan arfer pŵer dan a. 291 yn drosedd.

### Pwerau Mynediad at Ddibenion Cysylltiedig â Gorchmynion Penodol Parthed Llwybrau Troed a Llwybrau Ceffylau

- 3.28. Mae adran 293 o'r DP 1980 yn cynnwys pwerau ychwanegol at y rhai yn a. 289 i fynd ar dir at y diben o'i fesur neu ei brisio mewn perthynas â Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus. Yn ogystal â rhoi'r pwerau mynediad hyn i awdurdodau, ceir awdurdodiad penodol sy'n galluogi swyddogion y Swyddfa Brisio i fynd ar dir at ddibenion prisio. Eto, dylid sylwi nad yw'r pwerau mynediad hyn yn cynnwys gorchmynion a wnaed o dan y DBGChG 1981.

---

<sup>1</sup> Mae'r testun yn yr adran hon yn seiliedig ar y testun o'r Ganllaw Arfer Da Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad. Nid yw'r Canllaw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith na'i dehongliad ac mae'r olaf i'r llysoedd ei benderfynu yn y pen draw.



## Pwerau Mynediad i Eiddo

3.29. Mae adran 294 o'r DP 1980 yn caniatáu i'r awdurdod ymgeisio i'r Llys Ynadon am orchymyn yn awdurdodi'r awdurdod (gan unrhyw swyddog awdurdodedig) i fynd i'r eiddo, ei archwilio a'i "agor" at ddibenion:

- Tirfesur.
- Gwneud cynlluniau.
- Cyflawni, cynnal neu archwilio gwaith.
- Canfod llwybrau carthffosydd neu ddraeniau.
- Canfod neu bennu ffiniau.
- Ganfod a yw unrhyw wrych, goeden neu lwyn yn farw, wedi'i heintio, wedi'i ddifrodi neu'n ansad ei wreiddiau.

3.30. Yn ychwanegol at y materion penodol hyn, mae Atodlen 22 yn cymhwyso darpariaethau a. 294 at nifer fawr o adrannau eraill y DP 1980. Y rhai a ddichon fod fwyaf defnyddiol ar gyfer swyddogion hawliau tramwy yw:

- Adran 36(6) a (7) (dyletswydd cadw'r rhestr strydoedd).
- Adran 38 (mabwysiadu priffordd trwy gytundeb).
- Adran 154(1) a (4) (tocio coed a brigau bargodol).
- Adran 163 (atal dŵr rhag disgyn ar briffordd neu lifo arni).
- Adran 165 (tir peryglus yn nesaf at stryd).

## Mynediad â Cherbydau

3.31. Mae adran 300(1) o'r DP 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu:

*"Ni fydd i unrhyw ddarpariaeth statudol yn gwahardd neu'n cyfyngu ar ddefnydd llwybrau troed, llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig yn effeithio ar ddefnydd awdurdod cymwys o beiriannau neu gerbydau, boed wedi eu gweithio neu eu gyrru'n fecanyddol ai peidio, ar gyfer glanhau, cynnal, neu wella llwybrau troed, llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig neu eu hymylon er mwyn atal neu symud ymaith rwystrau arnynt neu atal neu liniaru fel arall niwsansau neu ymyraethau â hwy, neu er mwyn cynnal neu newid adeileddau neu waith arall sydd yno."*

3.32. Mae'r Rheoliadau Cerbydau (Amodau Defnydd ar Lwybrau Troed) 1963 yn cynnwys y defnydd gan yr awdurdod o beiriannau neu gerbydau ar hawliau tramwy. Dylid sylwi, yn arbennig, y cyfyngir cyflymder unrhyw gerbyd i 5 mya. Diwygiwyd y rheoliadau ym 1966, i wneud darpariaeth benodol ar gyfer croesi pibellau nwy gan gerbydau. Lle bo hawl dramwy yn croesi rheilffordd, fe all y bydd cyfyngiadau ychwanegol mewn grym, a dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn hyn o beth.

3.33. Er mai teitl a. 300 o'r DP 1980 yw "*Hawliau awdurdodau lleol i ddefnyddio cerbydau a pheiriannau ar lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig*", nid yw'n eglur sut y mae unrhyw hawl o'r fath i'w orfodi, ac ni ddywed yr adran ddim am sut y mae awdurdodau'n ymdrin â materion megis



mynediad ar hyd hawliau tramwy pan fo'r lled a gofnodwyd yn gyfreithlon yn rhy gul i ganiatáu mynediad cerbydau, neu pan fo'r hawl tramwy'n amodol ar gyfyngiadau megis camfeydd neu giatiau y byddai'n rhaid eu symud ymaith er mwyn caniatáu i gerbydau neu beiriannau fynd heibio. Nid yw adran 300 yn caniatáu defnyddio cerbydau ar dir nad yw'n hawl dramwy gyhoeddus, nac yn darparu am dalu iawndal am unrhyw ddifrod i dir neu adeileddau.

- 3.34. Mae adran 290(2) sy'n berthnasol i a. 289 ac a. 291 yn rhoi pŵer i unrhyw un sydd ag awdurdod i fynd â *“pha bynnag bobl eraill a pha bynnag gerbydau ac offer eraill y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol”* ar y tir. Mae adran 289 yn ymwneud â thirfesur. Mae adran 291 yn rhoi hawl mynediad ar dir os yw'n angenrheidiol i arfer y pŵer neu'r hawl i gynnal, addasu neu gael gwared ar unrhyw adeiledd os nad yw'r tir yn eiddo i'r awdurdod nac yn rhan o briffordd y mae'n gyfrifol amdani. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu modd i'r awdurdod orfodi mynediad â cherbydau ar hyd llwybr troed neu llwybr ceffylau.
- 3.35. Mae paragraff 7 o Atodlen 12A o'r DP 1980 yn rhoi awdurdod i unrhyw berson a awdurdodwyd yn briodol mewn ysgrifen i fynd ar dir gan gymryd ag ef *“gerbydau, peiriannau ac offer arall yn ôl yr angen”*. Mae'r pwerau mynediad Atodlen 12A mewn perthynas â gwaith adfer llwybrau lle bu amharu diawdurdod ar yr wyneb. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig. Mae'r pwerau mynediad ar gyfer mynediad ar dir perthnasol, ac yn cynnwys mynediad ar dir y cred yr awdurdod, yn rhesymol, ei fod o dan yr un berchnogaeth.
- 3.36. Er nad oes, eto, fodd amlwg gorfodi tirlfeddiannwr i ganiatáu mynediad, ymddengys bod y pwerau Atodlen 12A yn darparu mynediad ar dir arall na thrwy ganlyn llinell yr hawl tramwy.

### Gwella Mynediad ar gyfer Cerbydau Cynnal yn y Dyfodol

- 3.37. Adeg awdurdodi giatiau neu gamfeydd newydd dan a. 147 o'r DP 1980 (paragraffau 3.9-3.12 uchod) ar llwybr sy'n addas ac yn ddigon llydan ar gyfer caniatáu mynediad cerbydau, gallai'r awdurdod ddymuno ystyried cynnwys amod yn mynnu bod tirlfeddiannwyr yn symud ymaith ac yn ailosod yr adeiledd hwnnw pe bai ar yr awdurdod angen mynediad yn ddiweddarach.

### Mynediad ar gyfer Arwyddbyst a Marciau Ffyrdd

- 3.38. Mae adran 71 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn galluogi'r awdurdod i *“fynd ar unrhyw dir ac arfer pa bwerau eraill a fo'n angenrheidiol at ddiben arfer a chyflawni eu pwerau a'u dyletswyddau gosod, amnewid, newid a thynnu ymaith arwyddion traffig”*. At ddibenion a. 71, mae “arwyddion traffig” yn cynnwys mynegbyst ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffylau, a “mynegbyst” yn cynnwys hysbysiadau neu arwyddion eraill i'r unrhyw ddiben. Mae unrhyw awdurdod a wna orchymyn rheoleiddio traffig o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 hefyd â phŵer myned ar dir dan a. 71.

### Pwerau Mynediad Eraill

- 3.39. Mae adran 40(2) o'r DCGHT 2000 yn darparu y gall y sawl a awdurdodwyd gan yr awdurdod fynd ar dir at ddiben gweithgareddau penodol mewn

perthynas ag adrannau 35 i 37, er mwyn canfod a oes cyflawni trosedd dan a. 14 neu a. 39, neu at ddibenion codi hysbysiadau dan a. 19(1). Mae gofynion hysbysu yn ymwneud â thir a feddiannir ac eithrio tir mynediad, ac nid oes hawl mynediad i anheddau.

- 3.40. Mae adran 324 o'r DCGTh 1990 yn cynnwys pwerau mynediad mewn perthynas â swyddogaethau cynllunio penodol, ond nid yw'r rhain yn cynnwys, yn uniongyrchol y pwerau i wneud Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus o dan yr un Ddeddf.

## 4. Diogelu'r Rhwydwaith

- 4.1. Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl disgwyl y cedwir pob hawl dramwy ar agor ac ar gael i'w defnyddio. Dibynna cyfanrwydd y rhwydwaith ar gydweithrediad tiffeddianwyr, deiliaid a deiliaid prydles wrth gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i sicrhau bod llwybrau'n rhydd rhag rhwystrau a pheryglon. Ceir cydymffuriad â'r dyletswyddau hyn ar y cyfan, a gall y cyhoedd ddefnyddio'r rhwydwaith yn rhydd. Yn yr achosion, fodd bynnag, lle nid felly y mae, mae gan awdurdodau amryw ddyletswyddau a phwerau i sicrhau y gellir datrys unrhyw broblemau.

### Dulliau Gorfodi

- 4.2. Mae'n angenrheidiol weithiau i awdurdodau ymchwilio i achosion honedig o dorri'r gyfraith, a gweithredu lle y canfyddir y cyflawnwyd troseddau. Yn aml, bydd ymchwiliad yn cael ei sbarduno gan gŵyn. Yn rhan o'r ymchwiliad, dylid archwilio'r safle, oni wnaed hynny'n ddiweddar, neu onid yw archwiliad yn debyg o fod o gymorth oherwydd natur y trosedd (e.e. ymddygiad bygythiol tuag at ddefnyddwyr llwybr cyhoeddus).
- 4.3. Wth ymchwilio i'r trosedd honedig, gallai awdurdodau ddymuno ystyried:
- A oes digon o dystiolaeth i ddangos cyflawni trosedd, neu y gallai y'i cyflawnwyd.
  - Y pwerau sydd ar gael i'r awdurdod ymdrin â'r drosedd.
  - A yw'r drosedd yn ailadrodd trosedd yr ymdriniwyd â hi o'r blaen trwy gamau gorfodi.
  - A yw'r drosedd yn ymwneud â chodi adeileddau neu ddatblygiadau parhaol.
  - A ddigwyddodd y drosedd yn ddiweddar neu a yw wedi bod yn digwydd ers cyfnod sylweddol o amser cyn iddi gael ei chanfod.
  - A fyddai camau gorfodi yn gymesur o dan yr amgylchiadau.
  - Telerau unrhyw bolisi arall sy'n weithredol o fewn yr awdurdod hwnnw, gan gynnwys egwyddorion y Concordat Gorfodaeth Dda, lle'n berthnasol.
- 4.4. Dyma'r opsiynau a fydd ar gael i awdurdodau ar ôl ymchwilio i gwynion o'r fath fel rheol:
- Dim gweithredu er mwyn gorfodi.
  - Dulliau gorfodi anffurfiol.
  - Cyflwyno rhybudd a/neu weithredu uniongyrchol gydag adennill costau.
  - Rhybudd Syml.
  - Erlyn.

### Dim Gweithredu er mwyn Gorfodi

- 4.5. Efallai y penderfynir na chyflawnwyd trosedd, neu y gellid datrys y broblem trwy ddulliau arall na gorfodi. O dan y fath amgylchiadau nid oes angen

gweithredu rhagor, er y gallai awdurdodau ddymuno cyngori cwynwyr a throseddwyr honedig, pan fo angen, ynghylch y canlyniad.

### Cyngor Anffurfiol

- 4.6. Pan fo'r problemau a ganfuwyd yn bitw, ac awdurdod yn hyderus y bydd y troseddwr honedig yn cywiro'r sefyllfa, gallai ymdrin â'r broblem trwy roi cyngor anffurfiol. O dan y fath amgylchiadau, gallai awdurdod ddymuno cytuno ar amserlen resymol ar gyfer gwaith cywiro, ac wedi hynny, ystyrir dulliau gorfodi mwy ffurfiol.

### Cyflwyno Rhybudd a Gweithredu Uniongyrchol

- 4.7. Pan fo darpariaeth yn cael ei gwneud yn y statud perthnasol, gallai awdurdodau gyflwyno rhybuddion statudol, sy'n mynnu bod unigolyn, busnes neu gorff yn cydymffurfio â gofynion penodol.
- 4.8. Pan gyflwynir rhybudd ffurfiol, dylid esbonio'n ysgrifenedig, ar yr un pryd, y dull apelio yn erbyn y rhybudd, os oes un. Dylai'r rhybudd esbonio'r hyn sydd o'i le, yr hyn sydd ei angen er mwyn cywiro, a'r hyn a ddigwydd oni chydymffurfir â'r rhybudd.
- 4.9. Yn gyffredinol, bydd methu â chydymffurfio â rhybudd statudol a ysgrifennwyd ac a gyflwynwyd yn gywir yn golygu bod y derbynnydd yn agored i'w erlyn. Mewn rhai achosion, gall awdurdodau gyflawni gwaith uniongyrchol os methir â chydymffurfio â'r rhybudd, ac adennill cost gwneud hynny gan dderbynnydd y rhybudd. Mewn rhai amgylchiadau, mae modd erlyn ar y cyd â chyflwyno rhybudd.
- 4.10. Yn aml, gwneir darpariaeth benodol o fewn statud ar gyfer y ffurf y dylai rhybudd ei chymryd a sut y dylid ei gyflwyno. Mae adrannau 320 a 322 yn berthnasol i rybuddion a roddir o dan y DP 1980.
- 4.11. Gallai awdurdodau ddefnyddio pwerau cyfraith gwlad, hefyd, er mwyn symud rhwystr neu liniaru, fel arall, niwsans ar briffordd, heb rybudd o flaen llaw.

### Rhybudd Syml

- 4.12. Yr hyn a elwid, gynt, yn rhybudd ffurfiol, gellir rhoi rhybuddion syml mewn amgylchiadau lle'r ymchwiliwyd i droseddau ac y cafwyd digon o dystiolaeth ynghylch euogrwydd i gynnig gobaith realistig y gellir erlyn yn llwyddiannus. Rhaid i'r troseddwr dan amheuaeth ddeall arwyddocâd rhybudd syml a chydysynio'n wybodus â'r rhybudd.
- 4.13. Dylai awdurdodau ddilyn y drefn a ddisgrifir yng [nghanllawiau'r](#) Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth roi rhybudd syml.
- 4.14. Amcanion rhybuddion syml yw:
- Ymdrin yn gyflym ac yn rhwydd â throseddwyr llai difrifol.
  - Osgoi ymddangosiadau diangen mewn llys troseddu.

- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd troseddwr yn troseddu drachefn.

4.15. Dylid cadw ar ffeil gofnod o rybudd a dderbyniwyd, a gellid cyfeirio ato os erlynir yn ddiweddarach yn sgil trosedd ychwanegol.

### Erlyn

4.16. Lle bo trosedd yn ddifrifol ei natur, gallai awdurdodau ddewis erlyn. Rhagwelir y bydd gan awdurdodau eu protocolau erlyn eu hunain, felly dylai swyddogion ymgynghori â'u cynghorwyr cyfreithiol eu hunain yn gynnar yn y broses.

4.17. Mae ymchwilio i drosedd yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus yn debyg, o leiaf, o esgor ar ddatganiad gan swyddog yn cadarnhau bodolaeth hawl dramwy gyhoeddus, berthnasol trwy gyfeirio at y Map a Datganiad Diffiniol, a disgrifiad o'r honiad yr ymchwiliwyd iddo.

### Anifeiliaid

4.18. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn creu rhwymedigaethau i beidio â pheryglu iechyd a diogelwch trydydd partïon. Yn ychwanegol, dan rai amgylchiadau, gallai ceidwad unrhyw anifail fod yn atebol, dan a. 2(2) Deddf Anifeiliaid 1971, am ddifrod a achosir gan yr anifail hwnnw. Mae ceidwad anifail, er enghraifft, yn atebol am ddifrod, gan gynnwys niwed, a achoswyd, os oeddent yn ymwybodol o debygolrwydd yr anifail i beri niwed.

4.19. Pe bai amaethwr, neu unrhyw dirfeddiannwr a deiliaid, yn cadw unrhyw anifail y gwyddai ei fod yn debygol o achosi niwed mewn cae a groesir gan hawl dramwy gyhoeddus, ac y niweidiwyd defnyddiwr o ganlyniad, yna byddai'n agored i'w erlyn o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, a gelai'r defnyddiwr hawlio iawndal ganddo o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971.

4.20. Yn gyffredinol, felly, ni chyflawnir unrhyw drosedd trwy ddim ond cadw anifeiliaid ar dir a groesir gan hawl dramwy gyhoeddus, ond gallai atebolrwydd godi pe bai digwyddiad. Ple y tynnir sylw awdurdodau at ddigwyddiadau'n ymwneud ag anifeiliaid, gallent ddymuno fwrw ymlaen trwy gysylltu â'r tirfeddiannwr perthnasol i'w atgoffa o'r atebolrwydd hwnnw, a chytuno, pan fo modd, ar unrhyw gamau y gellir eu cymryd er mwyn helpu i liniaru'r perygl.

### Gwartheg, gan gynnwys Teirw

4.21. Trosedd dan a. 59 o'r DBGChG 1981 yw i ddeiliaid ganiatáu i darw grwydro'n rhydd mae cae neu dir caeedig a groesir gan hawl dramwy gyhoeddus, heblaw lle:

- Nad yw'r tarw'n hŷn na 10 mis oed; neu
- Nid yw'r tarw o frîd godro cydnabyddedig, ac y mae â gwartheg neu ddyniewaid gydag ef.

4.22. Y bridiau godro cydnabyddedig yw: Ayrshire, Friesian Prydeinig, Holstein Prydeinig, Dairy Shorthorn, Guernsey, Jersey, a Kerry. Fodd bynnag, hyd yn

oed i deirw sydd wedi'u heithrio o'r drosedd yn a. 59, mae rhwymedigaethau amaethwyr o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn dal i fod yn berthnasol.

- 4.23. Datganodd astudiaeth y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (GID) fod mwyafrif y digwyddiadau ar hawliau tramwy sy'n ymwneud â gwartheg yn digwydd pan fo gwartheg sugno a lloi yn y caeau. Mae'r GID wedi crynhoi eu canfyddiadau ac wedi darparu canllawiau i'r cyhoedd ac amaethwyr yn [Nhaflen Gwybodaeth Amaethyddol Rhif 17EW\(rev1\)](#). Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch ffurf a chynnwys arwyddion y gellid eu defnyddio i roi gwybod am bresenoldeb anifeiliaid.

### Cŵn

- 4.24. Y mae ci sy'n atal defnydd rhwydd ar hawl dramwy gyhoeddus trwy ymddwyn mewn modd bygythiol, a dychryn defnyddwyr, yn niwsans cyhoeddus o dan gyfraith gwlad. Gallai hefyd fod yn drosedd dan a. 137 o DP 1980, gan ei fod yn rhwystro'r briffordd. Wrth ymdrin â'r fath ddigwyddiadau, gallai awdurdodau hefyd ystyried defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 mewn perthynas â pherchnogaeth anghyfrifol ar gŵn. Ceir rhagor o fanylion yn y [Llawlyfr Ymarferwyr: Ymdrin â Pherchnogion Cŵn Anghyfrifol](#).
- 4.25. Mae cŵn yn gymdeithion defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus, ond nid oes unrhyw ofyniad i wneud darpariaeth benodol ar eu cyfer, megis trwy osod camfeydd cŵn neu gelfi awyr agored arbenigol, ond o gofio bod rhai cŵn yn gŵn tywys, dylai awdurdodau ystyried eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cyfartaleddau 2010 hefyd ac ystyried a ellid symud ymaith unrhyw rwystr diangen i'r defnydd o hawliau tramwy cyhoeddus gan gŵn. Nid yw'r gyfraith yn deddfu bod rhaid i gi fod ar dennyn, ond dylid eu cadw dan reolaeth effeithiol gydol yr amser. Ceir cyngor eglur a chryno yn y [Cod Mynd â Chŵn am Dro](#). Mae unrhyw un sy'n defnyddio llwybr ac yn caniatáu i gi grwydro o'r llwybr hawl dramwy yn dod yn dresmaswr.

### Ceffylau

- 4.26. Fel y dywedwyd uchod, dylai amaethwyr a thirfeddianwyr/deiliaid ystyried a. 2 o Ddeddf Anifeiliaid 1971 pan ystyriont gadw unrhyw anifail mewn cae a groesir gan yr hawl dramwy gyhoeddus, gan gynnwys ceffylau. Mae'r Adran hon o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys ceidwad unrhyw geffyl sy'n niweidio unrhyw un sy'n defnyddio llwybr ceffylau yn gyfreithlon, megis cerddwr, ar yr amod y gwyddai'r ceidwad fod y geffyl yn debygol o achosi'r fath niwed.

### Rhywogaethau Peryglus

- 4.27. Dywed Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 '*ni fydd i unrhyw un gadw unrhyw anifail gwyllt peryglus heblaw drwy awdurdod trwydded a roddir yn unol â darpariaethau'r Ddeddf gan awdurdod lleol*'. Ceir rhestr gyflawn o'r rhywogaethau a gynhwysir yn y Ddeddf. At ddibenion amaeth, fodd bynnag, dylid sylwi bod y rhestr yn cynnwys y baedd gwyllt a'r estrys. Myn y Ddeddf fod rhaid cadw'r fath anifeiliaid, a gymeradwyir gan drwydded, mewn trigfan

ddiogel, ac nid mewn cyswllt ag aelodau'r cyhoedd. O ganlyniad, ni ddylid cadw'r fath anifail ar hawl dramwy gyhoeddus nac yn agos ati.

## Rhwystro

- 4.28. O dan a. 130(1) o'r DP 1980 mae ar awdurdodau ddyletswydd mynnu a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r hawliau tramwy cyhoeddus hynny y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae arnynt hefyd ddyletswydd dan a. 130(3) o'r DP 1980 i atal, cyn belled ag y bo modd, gau neu rwystro yr hawliau tramwy hynny y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hefyd yn ddyletswydd ar Awdurdodau i atal, cyn belled ag y bo'n bosibl, cau neu rwystro'r fath briffyrdd lle bernir bod hynny'n groes i fuddiannau eu hardal. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i awdurdodau gychwyn achos cyfreithiol i gymryd pa bynnag gamau y maent yn credu sy'n hwylus i gyflawni'r dyletswyddau hyn.
- 4.29. Yn ychwanegol, rhaid i awdurdodau, dan a. 130(6) o'r DP 1980, weithredu'n briodol pan dderbynnir cyflwyniadau gan gyngor cymuned neu dref fod ffordd wedi'i chau neu ei rhwystro, neu y bu llechfeddiannu anghyfreithlon ar dir gwastraff ymyl y ffordd.
- 4.30. Mae gan y cyhoedd hawl disgwyl y cedwir pob hawl dramwy ar agor ac ar gael ar gyfer ei ddefnyddio, ac y mae'n bwysig bod awdurdodau'n gweithredu'n gyflym i ymchwilio i unrhyw gŵyn a wneir iddynt. Dylai Awdurdodau sicrhau bod unrhyw rwystrau a ddarganfyddant neu y rhoddir gwybod iddynt amdanynt yn cael eu symud ymaith cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae Adran 143 DP 1980 yn galluogi awdurdodau i sicrhau symud ymaith adeileddau ar y briffordd trwy gyflwyno rhybudd i'r sawl sy'n gyfrifol a thrwy symud y rhwystr ymaith eu hunain, ar draul y sawl hwnnw, pe digwyddai iddo fethu â chydymffurfio â'r rhybudd. Mae Adran 149 DP 1980 hefyd yn galluogi awdurdod i symud ymaith unrhyw "beth" sydd wedi'i adael ar briffordd ac sy'n niwsans neu'n berygl i ddefnyddwyr.
- 4.31. Wrth ymdrin â rhwystrau, dylai awdurdodau fod yn ymwybodol fod gwybodaeth a gofnodir yn y Datganiad Diffiniol ynghylch lleoliad neu led hawl dramwy gyhoeddus, neu gyfyngiadau neu amodau sy'n berthnasol iddo yn dystiolaeth derfynol o'r materion hynny. Pan fo cyfyngiadau cyfreithlon, dylid cofnodi gwybodaeth yn y Datganiad Diffiniol yn disgrifio eu heffeithiau wrth gyfyngu defnyddio'r hawl dramwy gan y rhai sydd â hawl gyfreithiol i'w defnyddio. Lle nid bo'r wybodaeth a gofnodwyd ynglŷn â lleoliad neu led, neu lle nad yw'n berthnasol i gyfyngiadau neu amodau, dylai awdurdodau archwilio'r dystiolaeth ym mhob un achos er mwyn datrys unrhyw anghysondeb a gwneud unrhyw ddiwygiadau gofynnol i'r Map a Datganiad Diffiniol yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan a. 53(2) o'r DBGChG 1981.
- 4.32. Gallai dystiolaeth fod ar gael i awgrymu nad yw hawl dramwy gyhoeddus a ddangosir ar y Map Diffiniol yn bodoli. Y mae'r Map, fodd bynnag, yn bendant ynghylch yr hawliau tramwy cyhoeddus y dangosir eu bodolaeth arno (heb ymrwymiad ynghylch bodolaeth hawliau eraill – gweler a. 56(1) o'r DBGChG



1981) a rhaid i'r llwybr neu'r ffordd aros ar agor ac ar gael i'w defnyddio hyd nes y diwygir y Map Diffiniol, neu y cydymffurfiwyd â threfnau cau.

### **Rhwystro Priffordd yn Fwriadol**

- 4.33. O dan a. 137ZA o'r DP 1980, wrth euogfarnu rhywun dan a. 137 o'r Ddeddf honno o rwystro priffordd yn fwriadol, gall y Llys Ynadon orchymyn y sawl hwnnw i symud y rhwystr ymaith. Ni ellir erlyn drachefn dan a. 137 y sawl y gorchmynnwyd iddo symud rhwystr ymaith mewn perthynas â'r rhwystr hwnnw yn ystod y cyfnod a osodwyd gan y llys dan a. 137ZA ar gyfer ei symud ymaith. Ymhellach, ni ellir erlyn neb yn ystod unrhyw gyfnod am gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys dan a. 311(1) o'r DP 1980.
- 4.34. Lle bo awdurdodau'n penderfynu arfer unrhyw un o'u pwerau er mwyn symud ymaith rhwystr anghyfreithlon wedi i rywun gael ei euogfarnu dan a. 137ZA (3), mae a. 137ZA (4) ar y cyd ag a. 305 o'r DP 1980 yn caniatáu i awdurdodau adennill costau yr aethpwyd iddynt, yn rhesymol, wrth wneud hynny.

### **Cadw Llystyfiant Rhag Bargodi Ffyrdd**

- 4.35. Mae Adran 154(1) DP 1980 yn galluogi Awdurdodau i fynnu bod perchnogion a deiliaid tir lle mae coed, prysgoed neu wrychoedd yn bargodi priffyrdd i'r fath raddau ag i beryglu neu atal tramwyad cerbydau, cerddwyr neu farchogwyr i docio'r llystyfiant. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn cynnwys ffyrdd a llwybrau troed nad ydynt yn briffyrdd ond i ba rai y mae gan y cyhoedd fynediad, e.e. llwybrau a osodwyd mewn man cyhoeddus agored.
- 4.36. Gallai Awdurdodau gyflwyno rhybudd i berchnogion neu ddeiliaid tir i gael gwared ar wrychoedd, coed neu brysgwydd sy'n debyg o beryglu defnyddwyr trwy rwystro, beryglu neu beri perygl trwy gwmpo. Oni ddiddymir y broblem o fewn 14 diwrnod, gallai'r awdurdod docio'r llystyfiant neu symud coed a llwyni peryglus ymaith ei hun, a hawlio gan y sawl sydd ar fai y treuliau rhesymol yr aethpwyd iddynt. Mae adran 65 o'r DCGHT 2000 hefyd yn ehangu a. 154 i gynnwys llystyfiant sy'n peryglu neu'n atal marchogwyr rhag mynd heibio, gan ganiatáu ar gyfer tocio llystyfiant sy'n bargodi llwybrau ceffylau neu ffyrdd cerbydau i uchder addas.

### **Cyfrifoldeb Corfforaethol**

- 4.37. Aeth Deddf Priffyrdd (Rhwystro gan Gorff Corfforaethol) 2004 i'r afael â phryderon y gallai rhwymedigaethau i atal rhwystro priffyrdd gael eu hatal trwy sefydlu cwmni i ddal tir y mae hawl dramwy yn teithio ar ei draws. Diwygiodd Deddf 2004 y DP 1980 er mwyn cymhwyso a. 314 y ddeddf honno (sy'n galluogi dwyn achos drwgweithredu yn erbyn swyddogion neu aelodau corff corfforaethol) at a. 137 ac a. 137ZA er mwyn sicrhau y gellir euogfarnu cyfarwyddwyr a swyddogion eraill cwmni, yn ogystal â'r corff corfforaethol, a'u dirwyo (a gorfodi gorchymyn llys i symud ymaith y rhwystr yn achos a. 137ZA), lle bônt euog.

## Cyflwyno Rhybuddion i Awdurdodau Lleol

- 4.38. Mae Adrannau 130A-130D DP 1980 yn galluogi unrhyw berson i gyflwyno rhybudd i awdurdod, yn gofyn iddo sicrhau symud ymaith mathau penodol o rwystr ar hawliau tramwy cyhoeddus. Os yw'r Awdurdod yn gwrthod neu'n methu â gweithredu, gall yr ymgeisydd ymgeisio am orchymyn Llys Ynadon yn gorfodi'r awdurdod i weithredu.

## Difrod

### Amharu ar Wyneb Ffyrrdd

- 4.39. Lle bo wyneb llwybr troed, llwybr ceffylau neu unrhyw briffordd arall sydd neu sy'n ffurfio ffordd gerbydau arall na ffordd gerbydau wneuthuredig wedi'i amharu arno i'r fath raddau ac i beri ei fod yn anghyfleus ar gyfer arfer yr hawl dramwy gyhoeddus, cyflawnir trosedd dan a. 131A o'r DP 1980 a gellir erlyn y sawl sy'n euog. Yn gyffelyb, trosedd dan a. 131 yw:
- Gwneud ffos neu gloddfa mewn ffordd gerbydau (sef cilffordd gyfyngedig neu gilffordd agored i bob traffig), neu
  - Fynd ag unrhyw bridd neu dywarchen o unrhyw ran o briffordd, heblaw at ddiben gwella'r briffordd a chyda chydysyniad yr awdurdod, neu
  - Ollwng unrhyw beth o gwbl ar y briffordd fel ag i ddifrodi'r briffordd, neu
  - Gynnau tân, neu ollwng dryll neu dân gwyllt, o fewn 50 troedfedd i gan y ffordd gerbydau (sef cilffordd gyfyngedig neu gilffordd agored i bob traffig), gan arwain at ddifrodi'r briffordd.
- 4.40. Gwneir darpariaeth bellach dan a. 1 o'r Ddeddf Difrod Troseddol 1971 ar gyfer erlyn lle difrodir wyneb priffordd sydd yn gynaliadwy ar draul y cyhoedd. Y mae amddiffynfeydd yn yr achos hwn os, ar yr adeg y gwnaed y difrod, bod y troseddwr yn credu y byddai'r awdurdod wedi cydsynio â'r difrodi neu wedi cydsynio fel hynny, neu lle bu angen y difrodi ar unwaith er mwyn diogelu hawliau'r troseddwr ei hun ac y bu'r modd amddiffyn yn rhesymol.

### Gweithgareddau Amaethyddol

- 4.41. Caniateir, dan a. 134 o'r DP 1980, i ddeiliaid aredig llwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n mynd ar draws tir â'r. Ni ellir aredig cilffyrdd agored i bob traffig (CABT) a chilffyrdd cyfyngedig, na llwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n mynd ar hyd ymylon cae neu dir caeedig (llwybrau talar). Mae hawl aredig neu amharu fel arall ar wyneb llwybr sy'n croesi tir â'r yn amodol ar adfer y llwybr ar gyfer defnydd cyhoeddus. Ymhellach, nid yw'r hawl ond yn cynnwys amgylchiadau lle *"nid yw osgoi amharu ar wyneb y llwybr neu'r ffordd wrth aredig, neu amharu fel arall ar wyneb y tir, yn rhesymol gyfleus"*.
- 4.42. Lle bo deiliad tir wedi aredig neu amharu fel arall ar wyneb llwybr troed neu llwybr ceffylau, rhaid adfer y llwybr i gyflwr priodol hyd nid llai na'i led culaf, fel ag i'w wneud yn rhesymol gyfleus i'r cyhoedd ei ddefnyddio. Wrth wneud hynny, rhaid sicrhau bod llinell y llwybr yn amlwg ar wyneb y tir. Pennir yr amserlenni adfer yn y DP 1980, sef:

- O fewn 14 diwrnod lle'r amherir gan waith amaethyddol cyntaf y tymor, neu
- O fewn 24 awr yn achos amhariadau canlynol.

4.43. Ar gais y deiliad, naill ai cyn neu yn ystod cyfnod yr amhariad cyntaf, gallai'r Awdurdod roi estyniad am gyfnod ychwanegol o nid rhagor na 28 diwrnod. Ni ellir ôl-ddyddio estyniadau. Gall Awdurdodau hefyd awdurdodi, trwy Orchymyn, ddargyfeirio'r ffordd tros dro pan fo angen hynny er mwyn cyflawni'r fath waith. Gall Awdurdodau adennill gan yr ymgeisydd y treuliau rhesymol yr aethant iddynt mewn perthynas â'r Gorchymyn.

4.44. Gellir erlyn deiliaid sy'n methu ag adfer wyneb ffyrdd yr amherir arnynt gan aredig neu waith arall o fewn y cyfnodau statudol, lle nid yw'r adfer yn ddigon ar gyfer arferiad rhesymol gyfleus yr hawl tramwy.

#### **Lled Llwybrau at Ddibenion Adfer yn Dilyn Amharu a Llechfeddiannu**

4.45. Lle gwyddys lled hawl tramwy, megis trwy ei gofnodi yn y Datganiad Diffiniol, yna gellir derbyn mai hwn yw'r lled culaf y mae'n rhaid adfer llwybr iddo yn dilyn aredig neu gynaeafu.

4.46. Oni chofnodwyd lled yr hawl tramwy, mae Atodlen 12A DP 1980 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y "lled culaf" ar gyfer adfer gan y deiliad, sy'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau (gweler isod). Os metha'r deiliad ag adfer yn unol â'r safon dderbyniol isaf, ac y mae'r awdurdod ei hun yn gwneud y gwaith, yna gosodir lled ehangaf ar gyfer yr wyneb wedi'i adfer gan Atodlen 12A hefyd.

4.47. Dyma'r lledau culaf ac ehangaf hyn:

- Ar gyfer llwybrau ar draws cae:
  - Llwybr troed: lled culaf 1 medr a lled lletaf 1.8 medr.
  - Llwybr ceffylau: lled culaf 2 medr a lled lletaf 3 medr.
- Ar gyfer llwybrau talar:
  - Llwybr troed: lled culaf 1.5 medr; lled lletaf 1.8 medr.
  - Llwybr ceffylau: rhaid i'r lled fod yn 3 medr.
- Ar gyfer priffyrdd eraill
  - Cilffyrdd, Cilffyrdd Cyfyngedig ac eraill: lled culaf 3 medr; lled lletaf 5.

4.48. Y lled culaf yw'r lleiafswm absoliwt derbyniol ar gyfer defnyddwyr llwybr. Yn achos cnydau megis rêp hadau olew, sy'n dueddol, wrth iddynt aeddfedu, i gwmpo ar draws ffordd a gliriwyd, bydd angen clirio'r planhigion am led ehangach na'r lled culaf er mwyn sicrhau tramwyad cyfleus. Nid yw'r lledau culaf hyn ond yn berthnasol i adfer hawl dramwy gyhoeddus yn dilyn aredig neu amharu, ac nid ydynt yn lledau cyffredinol sydd i'w defnyddio o dan amgylchiadau eraill.

## Peryglon

### Cloddio

- 4.49. O dan a165 o'r DP 1980 gallai awdurdod gyflwyno rhybudd yn mynnu bod tîrfeddiannwr yn cyflawni unrhyw waith diogelu, trwsio, symud ymaith neu gau er mwyn dileu unrhyw ffynhonnell berygl ar dir nesaf at briffordd nas ffensiwyd neu sydd â ffensys annigonol. Mae gan y perchennog hawl apelio yn erbyn y fath rybudd. Onid yw'r perchennog yn cydymffurfio, ac yn amodol ar unrhyw apel, gallai'r awdurdod gyflawni'r gwaith angenrheidiol ac adennill y costau gan y perchennog.

### Weiren Bigog

- 4.50. O dan a. 164 o'r DP 1980 gallai awdurdod gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i ddeiliad tir nesaf at briffordd lle mae weiren bigog yn debyg o niweidio pobl neu anifeiliaid sy'n defnyddio'r briffordd yn gyfreithlon. Dylai'r fath rybudd fynnu bod y deiliad yn dileu'r niwsans a achosir gan y weiren bigog o fewn cyfnod penodedig (rhwng mis a chwe mis o ddyddiad y rhybudd).

### Coed Peryglus

- 4.51. O dan a. 154(2) o'r DP 1980, gallai awdurdodau gyflwyno rhybudd i'r tîrfeddiannwr, neu symud ymaith unrhyw wrych, coeden neu brysgwydden sy'n farw, wedi'i heintio, wedi'i difrodi neu wedi'i gwreiddio'n ansad sy'n debyg o beri difrod i'r briffordd oherwydd ei chyflwr. Onid yw'r tîrfeddiannwr neu'r deiliad yn cydymffurfio, gallai'r awdurdod gyflawni'r gwaith ei hun ac adennill ganddo gost gwneud hynny.

### Adeiladau Peryglus

- 4.52. O dan Ddeddf Adeiladu 1984, mae gan awdurdod bŵer i ymdrin ag adeiladau, adeileddau neu rannau o adeiladau neu adeileddau y bernir eu bod yn beryglus. Gweithredir y pwerau hyn, gan amlaf, trwy swyddogaeth Rheoli Adeiladu awdurdod. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i awdurdod fynd ati i symud ymaith neu wneud yn ddiogel y fath adeiledd os digwydd iddynt fethu â chanfod y perchennog, er mwyn rhoi iddynt gyfle i ymdrin â'r perygl eu hunain.

### Ataliaeth

### Arwyddion

- 4.53. Trosedd dan a. 57 o'r DPCMCG 1949 yw gosod neu gynnal, ar neu gerllaw hawl dramwy gyhoeddus a ddangosir ar y Map Diffiniol, hysbysiad neu arwydd yn cynnwys gwybodaeth ffug neu gamarweiniol sy'n debyg o atal y cyhoedd rhag defnyddio'r hawl dramwy honno. Mae Adran 57 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod i orfodi'r darpariaethau hyn.
- 4.54. Mae adran 132 o'r DP 1980 yn gwneud paentio, ysgrifennu neu osod unrhyw lun, llythyr, arwydd neu farc arall ar wyneb y briffordd, neu ar unrhyw goeden,

adeiledd neu waith yn y briffordd, heb awdurdod cyfreithlon, yn drosedd. Mae gan yr Awdurdod bŵer symud ymaith unrhyw arwydd o'r fath.

- 4.55. Mae adran 131(2) DP 1980 yn gwneud tynnu i lawr neu ddileu arwydd traffig neu fynegbost yn drosedd.

### Bygythion

- 4.56. Os yw tirfeddiannwr (neu ddeiliad) yn herio aelod o'r cyhoedd trwy weiddi neu ei yrru o'r tir, gan ei atal neu ei rwystro, i bob diben, rhag defnyddio'r hawl dramwy gyhoeddus, gellid gofyn i'r awdurdod gyflawni eu dyletswydd dan a. 130 o'r DP 1980 i fynnu a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau hawliau tramwy cyhoeddus. Gellid ymdrin â pharhad yr ymddygiad heriol hwn megis rhwystr dan a. 137.
- 4.57. Mae dulliau gweithredu cyfreithiol eraill yn cynnwys a. 4 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, Deddf Diogelwch Rhag Aflonyddu 1997, a Deddf Ynadon Heddwch 1361, yn ogystal â chyfraith gwlad.
- 4.58. Lle'r ymddengys y cyflawnwyd trosedd trefn gyhoeddus, neu y gellid ei gyflawni, dylai awdurdodau ymgynghori â'u hawdurdod heddlu lleol i gynorthwyo gyda datrys y sefyllfa.

### Digwyddiadau

- 4.59. Yn gyffredinol, bernir bod defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer teithiau noddedig trefnedig, heriau rhedeg traws gwlad a digwyddiadau cyffelyb yn dderbyniol, ar yr amod yr adlewyrchant yr hawliau sydd ar gael ar y llwybr a ddewiswyd, h.y. peidio â threfnu ras feicio ar lwybr troed.
- 4.60. Mae trefnu neu fod â rhan mewn ras foduron neu brawf cyflymder ar unrhyw briffordd yn drosedd dan a. 12 o DTFf 1988.
- 4.61. Mae hyrwyddo neu fod â rhan yn unrhyw gystadleuaeth neu brawf modur arall (nid ras neu brawf cyflymder, h.y.) ar briffordd (sy'n cynnwys cilffyrdd cyfyngedig) yn drosedd dan a. 13 o DTFf 1988 onid awdurdodir a chynhelir y prawf yn unol ag unrhyw amodau a osodir gan Weinidogion Cymru dan reoliadau.
- 4.62. Mae hyrwyddo neu fod â rhan mewn prawf rhwng cerbydau modur ar lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig yn drosedd dan a. 33 o DTFf 1988 onid awdurdodir gan yr awdurdod (yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y gwelo'r awdurdod yn dda eu gosod) ac â chydsyniad ysgrifenedig y tirfeddiannwr a'r deiliad.
- 4.63. Mae hyrwyddo neu fod â rhan mewn ras neu brawf cyflymder rhwng beiciau ar lwybr ceffylau yn drosedd dan a31 o DTFf 1988, heb unrhyw eithriad. Gallai Gweinidogion Cymru awdurdodi'r fath brofion ar ffyrdd cyhoeddus eraill trwy reoliadau. Rhaid cynnal y profion yn unol ag unrhyw amodau a osodir gan y rheoliadau.

## Gorchmynion Rheoleiddio Traffig

- 4.64. Gallai gwrthdrawiadau ynghylch y math o ddefnydd ddigwydd ar rai hawliau tramwy cyhoeddus, a dylai awdurdodau geisio datrys y rhain pan fo modd trwy gamau rheoli, wedi'u seilio ar gydweithredu a chytuno. Bydd grwpiau defnyddwyr yn aml yn cytuno ar gamau ymatal gwirfoddol y bydd hwy eu hunain yn cynorthwyo i helpu i gadw golwg arnynt.
- 4.65. O dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gellir gwneud gorchmynion, hefyd, i wahardd, cyfyngu neu reoleiddio traffig sy'n defnyddio priffyrdd penodol, gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd agored i bob traffig. Mae'r term "traffig" yn cynnwys cerddwyr a phobl sy'n gyrru, yn marchogaeth neu'n arwain ceffylau neu anifeiliaid gweithiol eraill. Mae'r Ddeddf yn nodi'r dibenion ar gyfer pa rai y gellir gwneud y fath Orchmynion. Mae'r rhain yn cynnwys atal perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd, diogelu cymeriad y ffordd ar gyfer ei defnyddio gan gerddwyr neu farchogwyr, a diogelu mwynderau'r ardal trwy'r hon y mae'r ffordd yn mynd. Mae Gweinidogion Cymru'n cymeradwyo defnyddio'r fath Orchmynion i atal defnydd amhriodol a diogelu cefn gwlad pan fo angen hyn, a phan fo camau rheoli eraill wedi methu neu yr aseswyd eu bod yn annigonol.
- 4.66. Mae Adrannau 14 a 15 y Ddeddf, fel y'u hamnewidiwyd gan Atodlen 1 Deddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Tros Dro) 1991, hefyd yn galluogi gwneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Tros Dro am gyfnodau o hyd at chwe mis parthed llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig, llwybrau beicio a chilffyrdd agored i bob traffig (CABT), neu hyd at 18 mis ar briffyrdd eraill. Dim ond oherwydd gwaith ar neu yn ymyl y llwybr; tebygrwydd perygl i'r cyhoedd neu ddifrodi'r ffordd; neu, at ddibenion clirio a glanhau sbwriel y gellir gwneud Gorchmynion. Rhaid i Awdurdodau ystyried bodolaeth llwybrau eraill addas ar gyfer y traffig a effeithid gan y Gorchmyn.
- 4.67. Lle bo tiffeddianwyr neu gwmnïau cyfleustodau'n ymgeisio am Orchmynion Traffig Tros Dro ar lwybrau neu ffyrdd sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru, Llwybr Cenedlaethol neu lwybr a hyrwyddir yn lleol, yna lle ni ellir cynnal mynediad ar gyfer defnyddwyr ar hyd y briffordd a gaewyd, dylent geisio sicrhau darparu ac arwyddo dargyfeiriad addas. Dylid darparu gwybodaeth cyn darparu manylion unrhyw orchymyn o'r fath, a darparu ar gyfer caniatáu i ddefnyddwyr fwrw ymlaen â'u taith.
- 4.68. Mae adrannau 16A-C o'r Ddeddf yn galluogi'r awdurdod traffig i gyfyngu neu i wahardd tros dro, trwy orchymyn, ddefnyddio ffyrdd (gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus) neu unrhyw ran ohonynt at ddibenion hwyluso cynnal digwyddiad chwaraeon, cymdeithasol neu adloniadol; galluogi aelodau'r cyhoedd i wyllo'r digwyddiad, neu leihau'r amharu ar y traffig y mae'r digwyddiad yn debygol o'i achosi. Gellir gwneud hyn i'r fath raddau ac ar y fath amodau neu eithriadau ag sy'n angenrheidiol neu'n hwylus ym marn yr awdurdod. Wrth wneud hynny, y mae angen i awdurdodau traffig fodloni eu hunain nad yw'n rhesymol ymarferol cynnal y digwyddiad heblaw ar ffordd; yr ystyriwyd diogelwch a chyfleuster ffyrdd amgen, addas ar gyfer y traffig a



effeithir gan y gorchymyn; ac nad effaith y gorchymyn fuasai atal ar unrhyw adeg mynediad cerddwyr i unrhyw fangre ar y ffordd neu'n nesaf ato, neu i unrhyw fangre arall y mae gan gerddwyr fynediad ati o'r ffordd, neu ddim ond o'r ffordd. Bydd gorchmynion, fel arfer, yn parhau mewn grym am 3 diwrnod fan bellaf, oni chânt eu gwneud neu eu cytuno gan Weinidogion Cymru.

- 4.69. Dim ond trwy ymgeisio i Weinidogion Cymru y gellir ymestyn Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Tros Dro. Dylid ymgynghori â defnyddwyr lleol cyn ymgeisio am ymestyniad, yn unol â disgrifiad Cylchlythyr Swyddfa Cymru 31/92.
- 4.70. Gellir cyhoeddi Hysbysiadau Rheoleiddio Traffig Tros Dro lle'r ymddengys y dylai cyfyngiad ddod i rym yn ddi-oed. Gallai hysbysiadau barhau mewn grym am 5 niwrnod, i ddechrau, neu am 21 diwrnod lle'u cyhoeddwyd oherwydd tebygolrwydd peryglu'r cyhoedd neu ddifrodi'r ffordd.

### Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus

- 4.71. Cyflwynwyd Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 a ddaeth i rym ar 20 Hydref 2014. Mae'r Ddeddf a'r [rheoliadau](#) a wnaed o dan y Ddeddf yn weithredol yng Nghymru ac yn Lloegr. Gellir defnyddio GDMC i atal mynediad cyhoeddus at rai mathau o briffordd, gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus, yn ogystal ag i ardaloedd ehangach o ofod cyhoeddus. Bernir nad yw hawliau tramwy cyhoeddus a gyfyngir gan GDMC yn peidio â bod yn briffyrdd.
- 4.72. Mae GDMC yn disodli Gorchmynion Llidiartu a Gorchmynion Rheoli Cŵn. Mae trefniadau pontio ar gyfer unrhyw Orchymyn Llidiartu neu Reoli Cŵn a oedd yn bod pan ddaeth y Ddeddf i rym yn caniatáu 3 blynedd ar gyfer eu disodli gan GDMC.
- 4.73. Er bod y Cod Cefn Gwlad yn datgan y dylid cadw cŵn dan reolaeth effeithiol, wrth ddisodli Gorchmynion Rheoli Cŵn, gellir gwneud GDMC fel ag i fynnu bod pobl mewn mannau cyhoeddus:
- Yn cadw ci ar dennyn.
  - Yn rhoi ci ar dennyn os yw swyddog heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu rywun o'r cyngor yn dweud wrthynt.
  - Yn atal ci rhag cael mynediad at fannau penodol - fel ffermdir neu rannau o barc;
  - Yn cyfyngu ar nifer y cŵn y gall unigolyn fod ag ef (mae hyn yn cynnwys cerddwyr cŵn proffesiynol, hefyd).
  - Yn glanhau wedi ci.
- 4.74. Efallai y bydd angen y fath reoli ar hawliau tramwy cyhoeddus, pan fo angen cyfyngiadau, er enghraifft, er mwyn diogelu buddiannau cadwraeth natur.



- 4.75. Ceir rhagor o arweiniad yn y cyhoeddiad *'Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014: Reform of anti-social behaviour powers Statutory guidance for frontline professionals'* a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref.

## 5. Cofnodi'r Rhwydwaith


### Y Map a Datganiad Diffiniol

- 5.1. Mae Map a Datganiad Diffiniol yn dystiolaeth bendant ynghylch hawliau'r cyhoedd ar ddyddiad perthnasol y Map Diffiniol hwnnw, neu'r Gorchymyn cyfreithiol dilynol sy'n diwygio'r hawliau hynny. Pan ddaw priffordd i fodolaeth, trwy ba fodd bynnag, a pha un a yw wedi ei chofnodi ai peidio, mae'n parhau am gyfnod amhenodol, pa un a gaiff ei defnyddio ai peidio, oni bai ei bod yn cael ei chau nei ei dargyfeirio drwy Orchymyn cyfreithiol.
- 5.2. Dywed adran 56 o'r DBGChG 1981 fod y Map a Datganiad Diffiniol, â'i gilydd, yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer hawliau tramwy a'r cyfyngiadau sydd ynglŷn â hwy.
- 5.3. Fe all fod yna hawliau tramwy cyhoeddus ychwanegol nas cofnodwyd ar y Map a Datganiad Diffiniol, neu hawliau sydd wedi eu 'tangofnodi', gan ddangos, er enghraifft, llwybr troed lle ceir llwybr ceffylau.

### Llwybrau Troed

- 5.4. Y mae darlunio llwybr troed yn brawf pendant y bu gan y cyhoedd, ar y dyddiad perthnasol, hawl dramwy ar droed.  
Dangosir llwybrau troed ar y Mapiau Diffiniol yn llinellau porffor di-fwch, llinellau di-fwch â bariau cwta ysbeidiol, neu'n llinellau duon toredig â bylchau byrion.
- 5.5. At ddibenion y DP 1980, diffinnir llwybr troed yn briffordd ar ba un y mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar droed yn unig, nad yw'n droetffordd. Mae'r DP 1980 yn gwahaniaethu, felly, rhwng llwybrau troed a throetffyrdd. Y mae troetffyrdd (sef palmantau) hefyd â hawliau ar droed yn unig ond sydd yn rhan o briffyrdd sydd hefyd yn ffordd gerbydau (hawliau tramwy ar gyfer tramwyad cerbydau, h.y.) (gweler y diffiniadau o 'droetffordd' a 'ffordd gerbydau': a. 329 o'r DP1980). Gellir defnyddio cerbydau'r methodig, gan gynnwys cadeiriau olwyn a chadeiriau olwyn a yrrir gan fodur, ar droetffyrdd a llwybrau troed cyhoeddus yn rhinwedd Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Rhaid i gadeiriau olwyn a yrrir fan fodur beidio â theithio ar gyflymder o ragor na 4 mya ar llwybrau troed, a dylid eu defnyddio'n unol ag amodau penodedig a nodir mewn [rheoliadau](#).

### Llwybrau Ceffylau


- 5.6. Mae llwybrau ceffylau'n brawf pendant ar y dyddiad perthnasol ynghylch hawliau cyhoeddus ar droed a chan farchogaeth neu arwain ceffyl, ac fe'u dangosir ar fapiau â llinell werdd ddi-fwch, llinell ddi-fwch â bariau cwta ar ei thraws, neu linell doredig â bariau traws yn y bylchau.
- 5.7. Ehanga adran 30 o'r DCG 1968 hawliau cyhoeddus ar llwybrau ceffylau i gynnwys hawl reidio beiciau. Wrth arfer yr hawl honno, mae'n rhaid i feicwyr, fodd bynnag, ildio'r ffordd i gerddwyr ac i farchogwyr. Ymhellach, darpara'r

DCG 1968 yn benodol na fyddai ehangu hawliau i gynnwys beicwyr yn creu unrhyw rwymedigaeth ychwanegol parthed cynnal na gwneud dim i hwyluso defnyddio'r llwybr ceffylau gan feicwyr. Rhaid i feiciau pedal a gynorthwyr yn drydanol gyrraedd y gofynion a nodir yn Rheoliadau Beiciau Pedal a Gynorthwyr yn Drydanol 1983, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Beiciau Pedal a Gynorthwyr yn Drydanol (Diwygiad) 2015, er mwyn eu hystyried felly. Yn yr un modd ag ar lwybrau troed, gellir defnyddio cerbydau'r methodig, gan gynnwys cadeiriau olwyn a chadeiriau olwyn a yrrir gan fodur, ar lwybrau ceffylau yn rhinwedd Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Rhaid i gadeiriau olwyn a yrrir gan fodur beidio â theithio ar gyflymder o ragor na 4 mya ar lwybrau ceffylau, a dylid eu defnyddio'n unol ag amodau penodedig a nodir mewn [rheoliadau](#).

### Cilffyrdd Cyfyngedig

- 5.8. Creodd y DCGHT 2000 ddosbarth newydd o briffordd - cilffyrdd cyfyngedig - yn cludo hawl dramwy gyhoeddus ar droed, ar gefn ceffyl, ac ar gyfer cerbydau eraill na cherbydau a yrrir yn fecanyddol. O 16 Tachwedd 2006, ail-ddosbarthwyd ffyrdd a ddangosid ar Fapiau a Datganiadau Diffiniol yn ffyrdd a ddefnyddiwyd megis llwybrau cyhoeddus (FfDdLIC) yn gilffyrdd cyfyngedig. Mae cilffyrdd cyfyngedig yn defnyddio'r nodiant a neilltuwyd yn flaenorol ar gyfer FfDdLIC, sef llinell fylchog werdd neu linell fylchog â phennau saethau bychain yn y bylchau.
- 
- 5.9. Megis uchod, gellir defnyddio cerbydau'r methodig, gan gynnwys cadeiriau olwyn a chadeiriau olwyn a yrrir gan fodur, ar gilffyrdd cyfyngedig yn rhinwedd Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (gweler diffiniad 'troetffordd' dan a20 o'r Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 - cynhwyswyd 'cilffordd gyfyngedig' gan OS2006/1177). Rhaid i gadeiriau olwyn a yrrir gan fodur beidio â theithio ar gyflymder o ragor na 4 mya ar gilffyrdd cyfyngedig, a dylid eu defnyddio'n unol ag amodau penodedig y [rheoliadau](#).

### Cilffyrdd Ar Agor i Bob Traffig

- 5.10. Mae cilffordd ar agor i bob traffig (CABT) yn hawl dramwy gerbydol sydd â hawliau ar gyfer defnyddwyr cerbydau a yrrir yn fecanyddol ac a ddefnyddir gan y cyhoedd yn bennaf at y dibenion y defnyddir llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Dangosir Cilffyrdd ar agor i bob traffig gan naill ai linell frown barhaus neu linell barhaus â phennau saethau uwchlaw ac islaw'r llinell am yn ail. Yn achos cilffyrdd ar agor i bob traffig, gellir defnyddio cerbydau'r methodig dosbarth traffig 3 hyd at eu cyflymder mwyaf o 8mya. Rhaid parhau i'w defnyddio'n unol ag amodau penodedig a nodir mewn [rheoliadau](#).
- 

### Cynnal y Map a Datganiad Diffiniol

- 5.11. Mae awdurdodau'n gyfrifol am Fapiau a Datganiadau Diffiniol. Eu dyletswydd yw eu cadw mor ddiweddar ag y bo modd, gan gymryd yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ystyriaeth er mwyn cynnal Map a Datganiad sydd mor gywir ag y bo modd. Dylai awdurdodau roi'r flaenoriaeth i gynhyrchu Map a Datganiad

cyfamserol ar y rhai y cofnodir pob hawl dramwy gyhoeddus ac y sy'n cynnwys yr holl ardal y maent yn gyfrifol amdani.

- 5.12. Mae adran 53 o'r DBGChG 1981 yn mynnu bod awdurdodau yn adolygu eu Mapiau a'u Datganiadau Diffiniol yn barhaus, ac yn eu haddasu trwy gyfrwng Gorchmynion lle dangosir eu bod yn anghywir neu'n anghyflawn. Y man dechrau yw'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer ardal benodol yn ôl diffiniad a. 53(1), a hyd nes y'i disodlir gan Fap a Datganiad addasedig a baratoir yn unol â darpariaethau a. 57(3), gallai fod:
- Y Map a Datganiad Diffiniol diweddaraf yn dilyn cwblhau adolygiad dan a. 33 o'r DPCMGG 1949 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol neu y'i diwygiwyd gan DCG 1968; neu
  - Pan na fu adolygiad, neu y rhoddwyd y gorau i'r adolygiad cyntaf o dan ddarpariaethau a. 55 o'r DBGChG 1981, paratowyd y map a datganiad gwreiddiol dan a. 32 o'r DPCMGG 1949; neu
  - Yn achos y bwrdeistrefi sirol blaenorol a'r ardaloedd neilltuedig eraill na fabwysiadwyd darpariaethau arolygu ar eu cyfer erioed, neu pan ddechreuwyd arolwg, ond y rhoddwyd y gorau iddo, y Map a'r Datganiad a baratowyd dan a. 55(3) o'r DBGChG 1981.
- 5.13. Mae adran 57(3) o'r DBGChG 1981 yn galluogi awdurdodau i gyfuno Gorchmynion Addasu'n Fap a Datganiad newydd. Mae a57A yn galluogi awdurdodau i baratoi Map cyfun ar gyfer yr holl ardal y maent yn gyfrifol amdani ar hyn o bryd. Ni ddylai dyddiad y Map a Diffiniad newydd fod yn rhagor na chwe mis cyn y dyddiad y'i paratowyd arno, a dylai fod yn hwyrach na dyddiad perthnasol y Gorchymyn Addasu olaf a gyfunwyd iddo.
- 5.14. Mae adran 53(2) o'r DBGChG 1981 yn mynnu bod Mapiau a Datganiadau Diffiniol yn cael eu hadolygu'n barhaus gan awdurdodau. Myn fod awdurdodau'n addasu eu Mapiau a Datganiadau Diffiniol trwy Orchymyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi unrhyw un o'r digwyddiadau a ragnodir yn a. 53(3).
- 5.15. Mae a53(2) yn gwahaniaethu rhwng digwyddiadau a ddigwyddasant cyn dechreuad y DBGChG 1981 (a.53)(2)(a) ar yr 28<sup>ain</sup> o Chwefror 1983 a'r rhai a ddigwyddasant wedi hynny (a.53)(2)(b). Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol, gan fod rhaid cyfeirio at yr adran alluogi yn rhaglith gorchmynion addasu.
- 5.16. Nid rhaid i awdurdodau fod wedi cwblhau addasu eu Mapiau a'u Datganiadau ar gyfer pob digwyddiad a ragflaenodd dechreuad y DBGChG 1981 cyn dechrau ar addasiadau yn sgil digwyddiadau diweddarach: dylid gwneud y ddau ar yr un pryd. Mae modd, hefyd, seilio un Gorchymyn Addasu ar sawl digwyddiad sy'n gymwys dan a. 53(2)(a) ac a. 53(2)(b), pan ystyrir bod hynny'n briodol.
- 5.17. Lle, mewn perthynas â hen ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus, y dangosir ffordd ar y Map â'r nodiant cilffordd gyfyngedig, ond y'i disgrifir yn y Datganiad yn briffordd o ddisgrifiad arall, dylai awdurdodau sicrhau statws

cywir y ffordd, ac addasu'r map a'r datganiad i'r perwyl hwnnw yn unol â'u dyletswydd dan a. 53 o'r DBGChG 1981, ac addasu'r Map a'r Datganiad fel y bo'n addas. Caiff unrhyw geisiadau am Orchmynion i addasu statws ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus a wnaed cyn 16 Tachwedd 2006 eu penderfynu o dan y DBGChG 1981, yn amodol ar a. 67 o'r DANCLG 2006.

### Addasu'r Map a Datganiad Diffiniol

- 5.18. Nodir y digwyddiadau sydd i'w hystyried mewn perthynas ag addasu Mapiau a Datganiadau Diffiniol yn a. 53(3) o'r DBGChG 1981.
- Mae isadran 3(a) yn ymwneud â newidiadau angenrheidiol i'r Map a Datganiad Diffiniol o ganlyniad i gadarnhau Gorchmynion o dan ddeddfwriaeth priffyrdd ac eraill, a Gorchmynion Llys Ynadon dan a. 116 o'r DP 1980.
  - Mae isadran 3(b) yn ymwneud â neilltuo rhagdybiedig llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig o dan gyfraith gwlad neu yn rhinwedd a31 o'r DP 1980. Gall gynnwys ffyrdd a dangosir ar y Map a Datganiad Diffiniol ond y rhagdybir bod mwy o hawliau wedi'u neilltuo iddynt bellach.
  - Mae isadran 3(c) yn ymwneud â chanfod gan awdurdodau dystiolaeth a ddengys bodolaeth hawl dramwy nas dangosir ar y Map a'r Datganiad, neu honiad rhesymol ei bod yn bodoli, ac y dylid ei dangos; neu y dylid dangos hawl dramwy a ddangosir eisoes yn hawl dramwy o wahanol ddisgrifiad; neu nad yw hawl tramwy'n bodoli ac y dylid ei dileu, neu fod angen addasu manylion yn y Map a'r Diffiniad.
- 5.19. Ni ddylai awdurdodau wneud Gorchymyn diweddarau'r Map a Datganiad Diffiniol o dan is-adran 3(a) pan fo gofyn iddynt wneud hynny, hyd nes y rhoddwyd ardystiad neu hysbysiad i'r perwyl bod effaith y Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus neu'r gorchymyn Llys Ynadon wedi'i gyflawni yn y maes. Daw'r Gorchmynion Addasu Map Diffiniol is-adran 3(a) hyn i rym pan y'u gwneir.
- 5.20. Wrth benderfynu a ddylid dangos ffordd yn gilffordd agored i bob traffig ar y Map a Datganiad Diffiniol, dylai awdurdodau archwilio nodweddion y ffordd. Er mwyn i ffordd gerbydau fod yn gilffordd agored i bob traffig, mae cyfraith achos berthnasol yn awgrymu nad yw'n rhag-amod angenrheidiol ei bod yn cael ei defnyddio gan gerddwyr neu farchogwyr, na bod y fath ddefnydd yn fwy na defnydd gan gerbydau: ond gellir ystyried ei chymeriad neu ei math, a'i haddasrwydd ar gyfer ei defnyddio gan gerddwyr a marchogwyr yn hytrach na chan gerbydau. Ceir rhagor o wybodaeth yn [Nodyn Cyngor 8](#) Hawliau Tramwy yr Arolygiaeth Gynllunio. Lle bo ffordd y rhagdybir y'i neilltuwyd yn briffordd at bob diben dan a. 31 o'r DP 1980 hefyd yn cyflawni'r diffiniad o gilffordd agored i bob traffig, gallai awdurdodau wneud Gorchymyn i ychwanegu'r ffordd i'r Map a Datganiad Diffiniol dan a. 53(3)(c)(i) y Ddeddf, yn amodol ar y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff [5.56](#).
- 5.21. Mae'r ddeddfwriaeth gweithredu cilffyrdd cyfyngedig yn darparu y gellir cofnodi cilffyrdd cyfyngedig, hefyd. Diwygiodd y DANCLG 2006 y DP 1980 er mwyn caniatáu ychwanegu cilffyrdd cyfyngedig, trwy gyfrwng Gorchymyn a

wnaed o dan y DBGChG 1981, i'r Map a Datganiad Diffiniol ar sail tystiolaeth defnyddwyr neu ddogfennau. Mae adran 68 o'r DANCLG 2006 hefyd yn diwygio'r DP 1980 fel ag i egluro y gallai cyfnod cymhwysol o ddefnydd gan feiciau pedal hefyd ddwyn cilffordd gyfyngedig i fodolaeth, ond awgryma cyfraith achos y gall y fath ddefnydd greu hawliau ffordd geffylau'n unig wrth ystyried defnydd yn y gorffennol.

- 5.22. Dylai awdurdodau gadw cofnodion o awdurdodiadau a roddir dan a. 147Z o'r DP 1980 a chytundebau a wneir dan a. 147ZA yr un Ddeddf, ac fe'u hanogir i beri bod yr awdurdodiadau hynny ar gael i'r cyhoedd eu gweld ynghyd â'r Map a Datganiad Diffiniol. Fodd bynnag, nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y ddyletswydd i gadw'r Map a Datganiad Diffiniol dan adolygiad parhaus yn cynnwys gofyniad i gofnodi bodolaeth awdurdodiad neu gytundeb a. 147 neu a. 147ZA ar y Map a Datganiad. Yr unig fodd y gellid cofnodi'r fath awdurdodiad neu gytundeb ar y Map a Datganiad Diffiniol yw trwy Orchymyn dan a. 53(3)(c)(iii). Mae adran 53(4) yn ei gwneud yn eglur y gallai Gorchymyn Addasu Map Diffiniol ychwanegu at y datganiad fanylion cyfyngiadau sy'n effeithio ar yr hawl tramwy.

### Ceisiadau ar Gyfer Gorchymynion Addasu Map Diffiniol

- 5.23. Mae adran 53(5) o'r DBGChG 1981 yn galluogi unrhyw un i wneud cais i'r awdurdod am wneud Gorchymyn yn addasu Map a Datganiad Diffiniol parthed unrhyw un o'r digwyddiadau a grybwyllir yn a53(3)(b) neu (c) o'r DBGChG 1981. Nodir y drefn ar gyfer gwneud a phenderfynu ceisiadau yn Atodlen 14 o'r DBGChG 1981. Nid oes gan neb hawl ymgeisio am Orchymyn Addasu Map Diffiniol dan a. 53(3)(a) o'r DBGChG 1981.
- 5.24. Pennir ffurf cais yn rheoliad 8 **Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Mapiau a Datganiadau Diffiniol) 1993** ac fe'i nodir yn Atodlen 7 y rheoliadau hynny. Ynghyd â'r cais, rhaid cyflwyno map ar raddfa nid llai nag 1:25,000 yn dangos yr hawliau tramwy a hawliwyd sy'n destun y cais, a chopïau o unrhyw dystiolaeth gefnogol, gan gynnwys datganiadau tystion. Digon yw i'r mapiau sydd ynglŷn â chais fod wedi'u deillio'n ddigidol o fap gwreiddiol mwy nag 1:25,000, cyn belled ag y bo graddfa map y cais a gyflwynwyd yn ystod y cais yn llai nag 1:25,000. Er y gallai awdurdod anwybyddu rhai o ofynion Atodlen 14 DBGChG 1981 wrth benderfynu pa un a ddylid derbyn cais ai peidio, mae cyfraith achos wedi ei wneud yn eglur, yn achos cais i gydnabod cilffordd ar agor i bob traffig (boed trwy uwchraddio ffordd bresennol neu drwy gofnodiad cyntaf unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus) nad yw'r hawliau cerbyd a yrrir yn fecanyddol a hawli'r, a ddiddymid yn awtomatig fel arall, wedi eu cadw dan a. 67(3) a (6) o'r DANCLG 2006, oni chyflawnir holl ofynion datganedig Atodlen 14 o'r DBGChG 1981.
- 5.25. Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno i bob perchennog a deiliad y tir o dan sylw hysbysiad fod cais am Orchymyn wedi'i wneud. Gallai ymgeiswyr na allant ganfod enw neu gyfeiriad perchennog neu ddeiliad y tir ymgeisio i'r awdurdod am eithriad rhag y gofyniad cyflwyno hysbysiad personol, trwy ei gyfeirio, yn hytrach, at berchennog neu ddeiliad y tir (fel y'i disgrifiwyd yn yr hysbysiad) a'i osod ar wrthrych amlwg ar y tir. Ni ddylid gwrthod y fath gais, fel arfer, os gall



yr ymgeisydd ddangos ei fod ef neu hi wedi gwneud pob ymdrech resymol i ganfod perchennog neu ddeiliad y tir. Yn olaf, rhaid i'r ymgeisydd roi i'r awdurdod dystysgrif yn rhoi gwybod iddo fod hysbysiad ynglŷn â'r cais wedi'i gyflwyno i'r tirfeddianwyr a'r deiliaid o dan sylw, yn amodol ar y darpariaethau parthed achosion lle ni ellir canfod pwy biau tir. Pennir ffurf yr hysbysiad a'r dystysgrif gan reoliad 8, ac Atodlenni 8 a 9, o'r Rheoliadau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (Mapiau a Datganiadau Diffiniol) 1993.

- 5.26. Rhaid i awdurdodau ymchwilio i geisiadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac wedi ymgynghori â'r cynghorau tref neu gymuned perthnasol, benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd. Oni phenderfynir o fewn 12 mis (o'r dyddiad pryd y cyflwynodd yr ymgeisydd hysbysiad i'r tirfeddianwyr a'r deiliad yr effeithir arnynt), yna mae gan yr ymgeisydd hawl gofyn i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod i benderfynu ynghylch cais. Bydd Gweinidogion Cymru, wrth ymateb i'r fath gais, yn ystyried:
- Unrhyw ddatganiad a wnaed gan yr awdurdod yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer sicrhau bod y map diffiniol yn gyfoes a'i gadw felly.
  - Pa mor rhesymol yw'r fath flaenoriaethau.
  - Unrhyw weithredu gan yr awdurdod eisoes, neu fynegiant o fwriadau i weithredu rhagor, ynghylch y cais o dan sylw.
  - Amgylchiadau'r achos.
  - Unrhyw farn a fynegwyd gan yr ymgeisydd.
- 5.27. Rhaid rhoi i'r ymgeisydd ac i berchennog a deiliad y tir o dan sylw unrhyw benderfyniadau ynghylch ceisiadau. Lle gwrthodir cais, dylid rhoi rhesymau.
- 5.28. Os yw awdurdod yn gwrthod gwneud Gorchymyn, mae gan yr ymgeisydd hawl apelio at Weinidogion Cymru yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Rhaid cyflwyno apeliadau i'r Arolygaeth Gynllunio o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y mae'r awdurdod yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ei benderfyniad. Dylid apelio mewn ysgrif, gan roi seiliau'r apêl, a chyda chopïau o'r cais, y map yn dangos y ffordd o dan sylw, y ddogfennaeth ategol, a phenderfyniad yr awdurdod. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad apelio i'r awdurdod, hefyd, ond heb yr ategolion. Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ystyried apêl, benderfynu, yn dilyn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, a ddylid gwneud Gorchymyn, ac os felly, cyfarwyddo'r awdurdod i'r perwyl hwnnw. Nid oes gan Weinidogion Cymru bŵer i awdurdodi addasu'r Map a Datganiad Diffiniol, na gwneud Gorchymyn eu hunain.
- 5.29. Rhaid i awdurdodau gofnodi pob cais am Orchymyn Addasu Map Diffiniol, a chanlyniadau'r ceisiadau hynny, mewn cofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Gwneud Gorchymyn

- 5.30. Cyn gwneud Gorchymyn, rhaid i awdurdodau ymgynghori ag awdurdodau lleol eraill (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) yn nhiriogaeth pa rai y mae'r ffordd. Yn unol ag a. 53(2)(b) o'r DBGChG 1981 dylai awdurdodau wneud y Gorchymyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddynt



benderfynu y dylid gwneud un, neu wedi eu cyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i wneud felly yn dilyn apêl lwyddiannus dan Atodlen 14 o'r DBGChG 1981.

- 5.31. Mae Gorchmynion a wneir dan DBGChG 1981 yn adlewyrchu hawliau penodol yr hawlr eu bod yn bodoli eisoes (neu ddim yn bodoli, yn achos israddio neu ddileadau) ar sail tystiolaeth a gasglwyd, felly nid oes dyletswydd statudol ehangach i ymgynghori y tu hwnt i awdurdodau lleol eraill. Gallai ceisio gwybodaeth yn ehangach ynghylch Gorchymyn DBGChG 1981 arfaethedig, fodd bynnag, esgor ar ddeunydd ychwanegol parthed ei fodolaeth neu ei statws gwirioneddol, a gallai ragatal camddealltwriaethau, datrys gwrthwynebiadau a lleihau gwrthdaro. Mae'r cyrff penodedig (gw. [Atodiad 1](#)) yn fan cychwyn ynghylch y cyrff y dylid ymgynghori â nhw, ond ni ddylai awdurdodau farnu mai dyma'r unig rai.
- 5.32. Rhestrir ffurfiau'r amryw Orchmynion y mae DBGChG 1981 yn darparu ar eu cyfer yn Rheoliadau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (Mapiau a Datganiadau Diffiniol) 1993. Lle bo'n addas, mae'r ffurflen benodedig yn darparu ar gyfer cyfeiriadau amgen yn Atodlen y Gorchymyn ar gyfer y gwahanol addasiadau y gellir eu gwneud i Fapiau a Datganiadau Diffiniol, sef ychwanegiadau, dileadau, newidiadau statws ac addasu datganiadau ysgrifenedig yn unol â gofynion posibl amgylchiadau pob un achos.
- 5.33. Dylai awdurdodau gynnwys digon o wybodaeth gywir i ganiatáu adnabod y ffordd yn ddiamwys. Dylent gynnwys gwybodaeth am led y ffyrdd sydd i'w hychwanegu at y Map a Datganiad Diffiniol. Dylai awdurdodau hefyd gofnodi cyfyngiadau ac amodau, er enghraifft: giatiau a chamfeydd ar hyd y ffordd, ac unrhyw fanylion sydd addas. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol dim ond pan oedd neilltuo'r ffordd yn amodol ar y fath gyfyngiadau. Byddai'n anaddas, er enghraifft, cynnwys giât fel cyfyngiad, pryd y gosodwyd y giât wedi cyfnod o ddefnydd sy'n arwain at neilltuo statudol. O dan yr amgylchiadau hyn, bernid bod y giât, neu unrhyw adeiledd arall, yn rhwystr, heblaw bod ei gosod yn cyflawni amodau penodol ac y'i hawdurdodwyd yn ffurfiol gan yr awdurdod.
- 5.34. Pennir graddfa'r map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn yn Rheoliadau 1993, a rhaid iddi beidio â bod yn llai nag 1:25,000, er y dylid defnyddio mapiau graddfa fwy pan fo'n ymarferol. Dylid dangos graddfa, cyfeiriadedd a chyfeirnodau grid yn eglur ar y map. Ar wahân i ddileadau, pennir y nodiant a ddefnyddir i ddangos yr amryw ddosbarthau hawl dramwy yn y Rheoliadau ar gyfer Mapiau a Datganiadau Diffiniol. Ar gyfer dileadau, argymhellir llinell ddu, amlwg, barhaus.
- 5.35. Gan nad oes trefn ar gyfer cywiro camgymeriadau ar ôl cadarnhau Gorchymyn (ceir pwerau cyfyngedig i Arolygwr addasu Gorchmynion cyn eu cadarnhau), heblaw o ganlyniad i ddarganfod tystiolaeth, dylid rhoi sylw penodol i baratoad Gorchmynion er mwyn sicrhau nad yw map ac atodlen y Gorchymyn yn gwrthdaro. Ymhellach, gan fod Gorchmynion, o'u cadarnhau, yn addasu'r Map a Datganiad Diffiniol i bob diben, ac felly'n destun darpariaethau a. 56(1) o'r DBGChG 1981 parthed effaith dystiolaethol derfynol Mapiau a Datganiadau Diffiniol, gallai map ac atodlen y Gorchymyn gyflawni'r un diben, yn eu tro, â'r Map a Datganiad Diffiniol.

- 5.36. Nodir y drefn ar gyfer gwneud a phenderfynu a ddylid cadarnhau Gorchmynion Addasu Map Diffiniol dan a. 53(2)(a) a (b) ai peidio yn Atodlen 15 y DBGChG 1981. Darpara'r Atodlen ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau'n rhoi gwybod am wneud Gorchmynion, ystyried cyflwyniadau a gwrthwynebiadau, ac addasu Gorchmynion.

### Cyhoeddusrwydd ar gyfer Gorchmynion

- 5.37. Nodir cynnwys hysbysiadau'n cyhoeddi gwneud Gorchmynion a'r cyhoeddusrwydd sydd i'w roi iddynt ym mharagraff 3 Atodlen 15 DBGChG 1981. Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad yn o leiaf un papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn ardal y tir y mae'r Gorchmyn yn ymwneud ag ef. Dylid sylwi y diffinnir papur newydd yn un a gyhoeddir yn gyfnodol neu ar ysbeidiau nid rhagor na chwe diwrnod ar hugain rhwng cyhoeddiad unrhyw ddau bapur o'r fath. Gellir defnyddio papur dosbarthiad eang Awdurdod ei hun, os yw'n unol â'r diffiniad hwn. Yn ychwanegol, dylid rhoi copi, ynghyd â chopi o'r Gorchmyn neu ddyfyniad perthnasol o'r Gorchmyn, i:
- Bob perchennog a deiliad y tir hwnnw.
  - Y cyngor tref neu gymuned perthnasol.
  - Y cyrff rhestredig.
  - Pwy bynnag arall a fo'n addas ym marn yr awdurdod, megis awdurdod Parc Cenedlaethol a chyrff lleol eraill y cydnabyddir eu bod yn cynrychioli buddion defnyddwyr.
- 5.38. Dylai'r disgrifiad yn yr hysbysiad o effaith gyffredinol y Gorchmyn fod yn ddigon i alluogi'r cyhoedd i ddeall ei ddiben sylfaenol ac adnabod yr hawliau tramwy o dan sylw. Ni chyhoeddir cynllun ynghyd â'r hysbysiad yn y papur lleol, felly byddai o gymorth pe cyfeirid ar brif fannau'r ffordd trwy nodweddion yn y maes yn ogystal â chan gyfeirnodau grid.
- 5.39. Rhaid arddangos copi o'r hysbysiad mewn man amlwg ar ddau ben y ffordd. Rhaid gosod gyda'r hysbysiad gynllun yn dangos effaith y Gorchmyn. Er, fodd bynnag, y mae gofyn i fapiau a baratoir yn rhan o'r Gorchmyn fod ar y raddfa addas, gallai hynny arwain at fap sy'n rhy fawr i'w arddangos ar y safle. Yn y fath achosion, fe all mai addas fyddai arddangos cynllun llai ar y safle, yn darlunio effaith y Gorchmyn. Rhaid i'r hysbysiad fod ar gael hefyd yn swyddfeydd cyngor y cyffiniau ac unrhyw leoedd eraill y barnai'r awdurdod eu bod yn addas. Dylai'r lleoedd fod yn rhesymol o hygyrch gan bobl leol. Dylai awdurdodau gyflwyno ac arddangos hysbysiadau gwneud Gorchmyn ar yr un adeg y cyhoeddir hysbysiad. Dylid anfon copi o'r hysbysiad, hefyd, i unrhyw un sydd wedi gofyn am anfon copïau ato, ac sydd wedi talu am y gwasanaeth hwn. Gallai awdurdodau hefyd ddymuno defnyddio eu gwefannau i roi cyhoeddusrwydd i Orchmynion.
- 5.40. Atgoffir awdurdodau o'u rhwymedigaethau parthed cydraddoldeb y Gymraeg (para 2.31-2.35), ac felly y dylid cyhoeddi hysbysiadau safle ac yn y wasg yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- 5.41. Mae adran 70A o'r DBGChG 1981 yn datgan y dylai'r hysbysiadau a gyflwynir mewn perthynas â phrosesau DBGChG 1981 fod trwy un o'r dulliau a ddisgrifir yn a. 329 o'r TCGTH 1990. Bydd hyn, fel arfer, trwy ei ddanfon yn bersonol i'r derbynnydd neu i'w gyfeiriad arferol; trwy ei bostio trwy ddanfoniad cofnodedig; neu, trwy e-bost lle'r rhoddwyd cyfeiriad e-bost.

### Cyflwyno Sylwadau a Gwrthwynebiadau

- 5.42. Dylai awdurdodau geisio achub y blaen ar gyflwyniadau a gwrthwynebiadau trwy drafod â thirfeddianwyr, defnyddwyr a chyrff cynrychioladol o flaen llaw. Dylent hefyd geisio datrys cyflwyniadau a gwrthwynebiadau pan y'u gwnaed.
- 5.43. Dylai'r cyfnod gwneud cyflwyniadau a gwrthwynebiadau fod yn ddim llai na 42 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad y gwnaed Gorchymyn.
- 5.44. Mae paragraff 3(8) Atodlen 15 DBGChG 1981 yn caniatáu i unrhyw un, ar unrhyw adeg cyn y daw'r cyfnod gwrthwynebu i ben, fynnu bod yr awdurdod yn darparu, o fewn 14 diwrnod i'r cais, fanylion unrhyw ddogfennau y bu iddynt eu hystyried wrth wneud y Gorchymyn. Mae darpariaeth, hefyd, ar gyfer caniatáu i bobl weld a chymryd copïau o ddogfennau perthnasol ym meddiant yr awdurdod, a'u hysbysu gan yr awdurdod ynghylch ple mae'r fath ddogfennau nad ydynt yn eu meddiant.

### Cadarnhau Gorchmynion

- 5.45. Gallai awdurdodau gadarnhau Gorchmynion nas gwrthwynebwyd, neu y tynnwyd yn ôl pob sylw a gwrthwynebiad yn eu cylch. Rhaid i awdurdodau gyflwyno Gorchmynion i ba rai y mae cyflwyniadau neu wrthwynebiadau yn eu cylch, a Gorchmynion nas gwrthwynebwyd ond y mae arnynt angen eu haddasu, i Weinidogion Cymru. Mae gan yr Arolygaeth Gynllunio, sy'n gweinyddu'r broses hon ar ran Gweinidogion Cymru, [restr wirio](#) o ddogfennau y mae'n rhaid iddynt fod ynglŷn â Gorchmynion a gyflwynir am benderfyniad ynghylch a ddylid eu cadarnhau ai peidio.
- 5.46. Mae paragraff 5 Atodlen 15 o'r DBGChG 1981 yn datgan y gall yr awdurdod, lle mae un Gorchymyn yn cynnwys un neu ragor o addasiadau i'r Map a Datganiad Diffiniol y mae cyflwyniadau neu wrthwynebiadau'n gysylltiedig â hwy, ac addasiadau eraill nad oes cyflwyniadau neu wrthwynebiadau'n gysylltiedig â hwy, gadarnhau'r rhan honno o'r Gorchymyn nas gwrthwynebir, sydd gan hynny'n addasu'r Map a Datganiad Diffiniol i'r un graddau â'r rhan a gadarnhawyd. Yna rhaid i'r awdurdod gyflwyno'r rhan honno o'r Gorchymyn y mae cyflwyniadau a gwrthwynebiadau yn gysylltiedig â hi i Weinidogion Cymru, i ystyried a ddylid ei chadarnhau ai peidio. Rhaid i awdurdodau hysbysu'r Arolygaeth Gynllunio pryd y bwriadant wneud hyn. Rhaid i unrhyw elfen o Orchymyn a rennir ar gyfer cadarnhad rhannol yn y modd hwn ymddangos fel pe bai modd ei chadarnhau yn ei hawl ei hun.

### Cyhoeddusrwydd ar Gyfer Penderfyniadau Ynghylch Gorchmynion

- 5.47. Ceir gofynion rhoi cyhoeddusrwydd i gadarnhau a pheidio â chadarnhau Gorchmynion ym mharagraff 11 Atodlen 15 DBGChG 1981. Rhwir i

Orchmynion cadarnhaedig yr un cyhoeddusrwydd ag a roddir i Orchmynion gwneuthuredig. Rhaid rhoi copi o'r penderfyniad i beidio â chadarnhau Gorchymyn i'r un bobl ag y rhoddwyd iddynt hysbysiad ynghylch gwneud y Gorchymyn.

- 5.48. Ar adeg y cadarnhau, rhaid anfon at yr Arolwg Ordnans gopïau o'r holl Orchmynion cadarnhaedig a wnaed dan a. 53A (gan gynnwys Gorchymynion dan a. 53A sydd, yn effeithiol, yn addasu'r Map a Datganiad Diffiniol), ac a. 54 (pan wneir penderfyniadau terfynol ynghylch Gorchymynion aiddosbarthu ffyrdd a ddefnyddir yn llwybrau cyhoeddus).

### **Dileu neu Israddio Ffyrdd a Ddangosir ar y Map a Datganiad Diffiniol**

- 5.49. O'i baratoi, a hyd nes y'i newidir wedi hynny, mae'r Map a Datganiad Diffiniol yn dystiolaeth bendant mewn anghydfodau hawliau tramwy. Dyletswydd awdurdodau yw gwneud Gorchymyn yn addasu'r Map a Datganiad Diffiniol pan fo ganddynt dystiolaeth y dylid israddio neu ddileu hawl dramwy gyhoeddus. Gallent ddarganfod y dystiolaeth eu hunain, neu gellid cyflwyno tystiolaeth â chais addasu'r Map a Datganiad.
- 5.50. Serch y man cychwyn eglur parthed dilead neu israddiad posibl hawl tramwy, mae'r pwerau yn a. 53(3) o'r DBGChG 1981 yn cynnwys gwneud Gorchymynion dileu neu israddio hawliau tramwy a ddangosir ar y Map a Datganiad Diffiniol mewn achosion lle dengys tystiolaeth nad oedd hawliau'n bodoli ar yr adeg y'u dangoswyd gyntaf ar y map. Er mwyn gwneud y fath Orchymyn, rhaid i'r awdurdod fedru dweud, yn unol ag a. 53(3)(c)(ii) neu (iii):
- Y dylid dangos priffordd o ddisgrifiad penodol ar y Map a Datganiad yn briffordd o wahanol ddisgrifiad; neu
  - Nad oes hawl dramwy gyhoeddus tros dir a ddangosir yn y Map a Datganiad yn briffordd o unrhyw ddisgrifiad.
- 5.51. Bydd angen i'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer dileu'r hyn a ddangosir yn hawl gyhoeddus o'r fath gofnod awdurdodol â'r Map a Datganiad Diffiniol (ac felly hefyd, i'r un graddau, yn achos israddio ffordd â hawliau "mwy" yn ffordd â hawliau "llai") foddhau rhai gofynion llymion. Sef:
- Rhaid i'r dystiolaeth fod yn newydd. Ni ellir seilio gorchymyn dileu hawl dramwy ar ddim ond ailedrych ar dystiolaeth hysbys ar y pryd yr arolygwyd ac y gwnaed y Map Diffiniol, neu y'i hystyriwyd mewn cais blaenorol.
  - Rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddigon sylweddol i ddisodli'r rhagdyb bod y Map Diffiniol yn gywir.
  - Rhaid i'r dystiolaeth fod yn argyhoeddiadol.
  - Rhaid wrth dystiolaeth bendant ynghylch unrhyw gam-gofnodi.
- 5.52. Er y dylid cyflawni'r pedwar amod, dylid eu hystyried yn y drefn y'u rhestrwyd. Cyn penderfynu gwneud Gorchymyn, rhaid i awdurdodau ystyried pob tystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael iddynt ynghylch statws yr hawl

tramwy, a rhaid iddynt fod yn fodlon fod y dystiolaeth yn dangos, yn ôl yr hyn sy'n debygol, y dylid addasu'r map neu'r datganiad.

- 5.53. Gellir gwneud ceisiadau i awdurdod dan a. 53(5) o'r DBGChG 1981 i wneud Gorchymyn i ddileu neu israddio hawl tramwy. Lle bo cais o'r fath, gwaith y rhai sy'n dadlau nad oes hawl tramwy, neu fod hawl dramwy o statws is na'r hyn a ddangosir, fydd profi bod angen diwygio'r Map oherwydd darganfod tystiolaeth a ddengys yn eglur, o'i hystyried â'r holl dystiolaeth berthnasol arall, y dylid dileu neu israddio'r hawl tramwy. Rhaid i'r awdurdod, yn ôl paragraff 3 Atodlen 14 y Ddeddf, ymchwilio i'r materion a ddatgenir yn y cais; ond nid gwaith yr awdurdod yw dangos bod y Map yn adlewyrchu'r hawliau gwirioneddol. Yn hytrach, gwaith yr ymgeisydd yw dangos y dylid newid y Map a Datganiad Diffiniol er mwyn dileu neu israddio'r ffordd.
- 5.54. Yn achos dileadau, dadleuwyd yn flaenorol y gellid sefydlu achos dros neilltuo rhagdybiedig ar ffordd a gofnodwyd yn y gorffennol ar y Map Diffiniol, ond y canfuwyd, wedi hynny, ei bod wedi'i chofnodi'n anghywir. Seiliwyd y rhain ar y gred y gallai defnydd o'r ffordd, rhwng adeg cofnodi'r ffordd am y tro cyntaf ar y Map a Datganiad Diffiniol, a'r adeg y canfuwyd bod camgymeriad wedi'i wneud, achosi'r neilltuo rhagdybiedig. Cyngor Llywodraeth Cymru yw bod y ddadl hon yn anghywir. Yn hytrach, barn Llywodraeth Cymru yw na all y defnydd o'r ffordd fod "trwy hawl" at ddiben y neilltuo rhagdybiedig, gan na ellir ennill hawliau na ellir eu hatal. Nid oes modd gweithredu hawl dramwy at ddibenion a. 31 o'r DP 1980 pan ddefnyddir y ffordd yn rhinwedd ei bod wedi'i dangos ar y Map Diffiniol, ond sy'n cael ei ddileu oddi arno wedi hynny.

### **Paratoi Mapiau a Datganiadau Diffiniol ar gyfer Ardaloedd Nas Eithriwyd**

- 5.55. Ym 1981 ehangodd y DBGChG yr angen i fod â Map a Datganiad Diffiniol i gynnwys Cymru gyfan, ac y mae awdurdodau y mae eu hardaloedd yn cynnwys mannau a eithriwyd, cyn hynny, rhag yr angen am arolwg bellach o dan ddyletswydd i gynhyrchu Map a Datganiad Diffiniol gan ddefnyddio darpariaethau arolygu'r DBGChG 1981. Argymhellir y dylai awdurdodau gronni cofnod cynhwysfawr trwy ychwanegu llwybrau at Fap a Datganiad "gwag" trwy gyfrwng Gorchmynion a wnaed dan a. 53 o'r DBGChG 1981.

### **Dileu Hawliau Penodol dan Ran 6 DANCLG 2006**

- 5.56. Darfu i adran 67(1) o'r DANCLG 2006 ddileu, o 16 Tachwedd 2006 ymlaen, pob hawl dramwy gyhoeddus anghofnodedig ar gyfer cerbydau a yrrir yn fecanyddol, ag eithriadau penodol. Roedd yr eithriadau, yn fras, ar gyfer priffyrdd a oeddent yn rhan o'r rhwydwaith 'ffyrdd cyffredin' neu'n briffyrdd a grëwyd neu a neilltuwyd yn benodol yn hawl dramwy gyhoeddus ar gyfer cerbydau a yrrir yn fecanyddol. Darparodd y Ddeddf ar gyfer eithriadau ychwanegol lle, mewn rhai achosion penodol, yr oedd ceisiadau a wnaed yn briodol ers cryn amser, dan a. 53(5) o'r DBGChG 1981, i ychwanegu cilffordd agored i bob traffig at y Map a Datganiad Diffiniol. Darfu i'r Ddeddf hefyd gyfyngu ar y cyfle i greu hawliau tramwy cyhoeddus yn y dyfodol ar gyfer

cerbydau a yrrir yn fecanyddol, trwy ddarparu na allant ddod i fodolaeth ond lle'u creir yn unswydd ar gyfer y fath gerbydau.

### **Rhestr Strydoedd**

- 5.57. Mae adran 36(6) DP 1980 hefyd yn mynnu bod awdurdodau'n gwneud ac yn diweddarau'n barhaus restr o strydoedd yn eu hardal sydd yn briffyrdd cynaliadwy ar draul y cyhoedd. Rhaid i restrau, felly, gynnwys (i'r graddau eu bod yn gynaliadwy gan y cyhoedd) y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw un o'r canlynol:
- Unrhyw briffordd, ffordd, lôn, troetffordd, ale neu dramwyfa.
  - Unrhyw sgwâr neu gwt.
  - Unrhyw dir a luniwyd ar ffurf ffordd, pa un a yw wedi'i ffurfio'n ffordd dros dro ai peidio.
- 5.58. O ganlyniad, mae angen i'r rhestr strydoedd gynnwys yr holl ffyrdd hynny a ddangosir ar y map diffiniol sy'n gynaliadwy ar draul y cyhoedd, yn ychwanegol at unrhyw briffordd arall sy'n gynaliadwy gan y cyhoedd.
- 5.59. Ni fanylir ynghylch ar ba ffurf y dylid cadw'r rhestr strydoedd, na pha fanylion y dylid eu cynnwys ynddi. Gallai'r rhestr strydoedd, fodd bynnag, fod ar ffurf map. Er y gall y bydd llawer o gopiâu o'r map hwnnw, dim ond un fydd yn gofnod awdurdodol.

### **Ffyrdd Annosbarthedig ar y Rhestr Strydoedd**

- 5.60. Pan gaiff cais ei wneud o dan y DBGChG 1981 i ychwanegu hawl dramwy gyhoeddus at y Map a Datganiad Diffiniol, gallai cynnwys ffordd annosbarthedig ar y rhestr y DP 1980 o briffyrdd a gynhelir ar draul y cyhoedd ddarparu tystiolaeth ynghylch hawliau cerbydol. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn derfynol, a rhaid ei ystyried ynghyd â phob tystiolaeth berthnasol arall er mwyn penderfynu natur a maint yr hawliau hynny.



## 6. Newid y Rhwydwaith

- 6.1. Ceir proses gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn os bydd hawl dramwy yn cael ei chau neu ddargyfeirio. Gwneir hyn, fel arfer, gan awdurdod yn gwneud Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus o dan o'r DP 1980 neu'r DCGTh 1990.
- 6.2. Mae DP 1980 yn caniatáu creu, dargyfeirio a diddymu llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer gwneud Gorchmynion arbennig o dan rai amgylchiadau, ac yn galluogi awdurdodau i wneud ceisiadau i'r Llys Ynadon i newid hawliau tramwy cyhoeddus eraill, gan gynnwys cilffyrdd agored i bob trafndiaeth.
- 6.3. Mae'r DCGTh 1990 hefyd yn galluogi awdurdodau i gau neu ddargyfeirio llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig, yn ogystal â chreu neu wella priffyrdd amgen yn eu lle: ond dim ond lle mae datblygu yn effeithio arnynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau cyffelyb i unrhyw briffordd.
- 6.4. Seilir gorchmynion o dan y DP 1980 ar hwylustod newid a ddymunir, yn amodol ar brofion defnydd neu fudd cyhoeddus. Gwneir Gorchmynion, fel arfer, er budd y cyhoedd, trawstoriad o'r cyhoedd neu rai â budd iddynt, fel y traetha'r adran berthnasol.
- 6.5. Gellir defnyddio'r DCGTh 1990 i newid y rhwydwaith pan roddir caniatâd cynllunio. Gellir gwneud Gorchmynion i newid neu ddiddymu llwybrau oherwydd y byddent, fel arall, yn anghydnaws â'r datblygiad y rhoddwyd caniatâd iddo. Ni ragwaherddir defnyddio'r DP 1980 pan fo'n hwylus newid y rhwydwaith oherwydd, neu'n gysylltiedig â datblygiad; ond y mae Gorchmynion o dan y DP 1980 yn destun profion budd cyhoeddus penodol.
- 6.6. Gall newidiadau ddigwydd, hefyd, o ganlyniad i offer cyfreithiol a wnaed arall na chan awdurdod. Mae'r rhan yn cynnwys Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Deddfau a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol.

### Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus – Deddf Priffyrdd 1980

#### Gorchmynion Creu Llwybr Cyhoeddus

- 6.7. Mae adran 26 o'r DP 1980 yn rhoi pŵer i awdurdod greu:
  - Llwybrau troed;
  - Llwybrau ceffylau; neu
  - Gilffyrdd cyfyngedig.
- 6.8. Gall awdurdodau wneud Gorchmynion yn creu llwybrau lle'r ymddengys iddynt fod angen llwybr neu ffordd, ac y mae creu ffordd yn hwylus. Wrth wneud y dyfarniad hwn, rhaid i awdurdodau ddwyn mewn cof y graddau y byddai'r ffordd newydd yn ychwanegu at:
  - Gyfleuster neu fwynhad cyfran helaeth o'r cyhoedd; neu



- Hwylustod preswylwyr yr ardal.

6.9. Yn y naill achos a'r llall, mae'n rhaid ystyried hefyd effaith y creu ar hawliau pobl sydd â budd iddynt o'r tir, ochr yn ochr â darpariaethau'r Ddeddf parthed iawndal (DP 1980, a. 28). Dylai awdurdodau hefyd ddwyn mewn cof:

- Anghenion amaeth (gan gynnwys magu neu gadw ceffylau).
- Anghenion coedwigaeth.
- Dymunoldeb cadw nodweddion planhigion, anifeiliaid a nodweddion ffisiograffigol.

6.10. Wrth ystyried y darpariaethau iawndal yn adran 28, mae'n well bwrw ymlaen gyda chydysniad y tiffeddiannwr ac, os oes angen, ceisio cytuno iawndal yn gynnar yn y broses. Gwelir yn aml y bydd Gorchmynion Creu yn cael eu gwneud ar yr un pryd â Gorchmynion eraill (fel y disgrifir isod), ond maent hefyd yn ddefnyddiol pan fo cytuno'n amhosibl neu'n anaddas, e.e. lle na fu modd canfod unrhyw dirfeddiannwr, neu, lle na fu'n bosibl nodi'r tiffeddiannwr neu lle mae perchennog yn cytuno â chreu ond nad oes ganddo allu cyfreithiol i weithredu mewn cytundeb.

6.11. Wrth wneud Gorchmyn o dan a. 26 o'r DP 1980, dylai'r awdurdod ystyried unrhyw waith y bydd ei angen i wneud y ffordd yn addas ar gyfer defnydd cyhoeddus. Dylai'r Gorchmyn, os oes angen, ddatgan nad yw'n dod i rym am nifer benodol o ddyddiau'n dilyn cadarnhad, fel y gellir cyflawni a chwblhau'r fath waith. Pan fo'r gwaith wedi'i gwblhau cyn cadarnhad, nid oes angen y fath gyfnod.

6.12. Cyn cadarnhau Gorchmyn, mae'n rhaid i awdurdod ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol mewn unrhyw Gynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n gyfredol yn yr ardal.

### Gorchmynion Dileu Llwybr Cyhoeddus

6.13. Mae adran 118 o'r DP 1980 yn rhoi pŵer i awdurdod ddileu:

- Llwybrau troed;
- Llwybrau ceffylau; neu
- Gilffyrdd cyfyngedig.

6.14. Wrth *wneud* y fath Orchymyn, rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon fod cau'r ffordd yn hwylus oherwydd nad oes mo'i hangen ar gyfer defnydd cyhoeddus.

6.15. Cyn *cadarnhau* Gorchmyn, dylai'r awdurdod neu, os gwrthwynebir y Gorchmyn, Weinidogion Cymru, fod yn fodlon fod modd cadarnhau'n hwylus:

- Y graddau y byddai'n debyg y defnyddid y llwybr neu'r ffordd gan y cyhoedd, ar wahân i'r Gorchmyn.
- Effaith y dilead ar dir a wasanaethir gan y llwybr neu'r ffordd, gan ystyried y darpariaethau iawndal.

Wrth ystyried y materion hyn, bydd unrhyw amgylchiadau dros dro sy'n atal neu'n cyfyngu ar y defnydd o lwybr neu ffordd gan y cyhoedd yn cael eu diystyru (a. 118(6), DP 1980).

- 6.16. Mae'r asesiad hwylustod sy'n ofynnol ar ddechrau cyfnod gwneud y Gorchymyn yn wahanol felly i'r hyn sy'n ofynnol pan gaiff y Gorchymyn ei gadarnhau. Wrth gadarnhau, nid oes rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn fodlon nad oes angen y ffordd at ddefnydd cyhoeddus. Gellid cadarnhau Gorchymyn, felly, hyd yn oed pe na byddai fawr o ddefnydd ar y ffordd, ond bod y sawl sy'n penderfynu wedi dod i'r casgliad bod dilead yn dal i fod yn fanteisiol o dan yr amgylchiadau.
- 6.17. Dylid dehongli amgylchiadau tros dro at ddiben a. 118(6) yn eang. Mae'r Llysoedd, cyn heddiw, wedi canfod bod amgylchiadau tros dro'n cynnwys rhwystrau yr ymddengys eu bod yn nodweddion parhaol, ond y gellid eu symud ymaith trwy ddulliau cyfreithiol addas. Is-orsaf drydan, pinwydden, a gwrych llawryf 12tr o uchder, e.e.
- 6.18. Nid rhaid dangos ffyrdd ar y map a datganiad diffiniol cyn y gellir eu diddymu, ond rhaid i awdurdodau fod yn fodlon ynghylch statws ffyrdd cyn gwneud Gorchymyn Dilead i'r perwyl.

### **Gorchmynion Dargyfeirio Llwybr Cyhoeddus**

- 6.19. Mae adran 119 o'r DP 1980 yn rhoi pŵer i awdurdod ddargyfeirio:
- Llwybrau troed;
  - Llwybrau ceffylau; neu
  - Gilffyrdd cyfyngedig.
- 6.20. Cyn gwneud Gorchymyn Dargyfeirio rhaid iddi ymddangos i'r awdurdod ei fod yn hwylus dargyfeirio'r llwybr er budd y cyhoedd neu berchennog, deiliad prydles neu ddeiliad y tir a groesir gan y llwybr neu'r ffordd. Gellir gwneud Gorchymyn Dargyfeirio cyn belled â'i bod yn hwylus dargyfeirio rhan neu'r cyfan o'r ffordd er budd o leiaf un o'r partïon hyn, a rhaid i awdurdodau allu esbonio'r rheswm am hyn. Y mae darpariaethau digolledu hefyd yn cynnwys Gorchmynion Dargyfeirio (DP 1980, a. 28).
- 6.21. Unwaith eto, y mae gan 'hwylus' yn y DP 1980 a. 119 ystyr eang, a gallai'r awdurdod ystyried amrywiaeth eang o ffactorau (megis cyfanrwydd hanesyddol y llwybr) wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn, neu gadarnhau gorchymyn nas gwrthwynebir.
- 6.22. Rhaid i'r awdurdod, hefyd, fod yn fodlon nad yw'r Gorchymyn Dargyfeirio yn newid man pen draw'r ffordd:
- Onid yw'r man hwnnw ar briffordd (ei bod yn dod i ben ar lan y môr neu wylfan, e.e.); neu
  - Lle bo ar briffordd, ac eithrio i fan arall sydd ar yr un briffordd, neu briffordd arall cysylltiedig â hi, ac y sydd i bob diben yr un mor gyfleus i'r cyhoedd.

- 6.23. Gallai Gorchymyn Dargyfeirio ddilyn llwybr neu ffordd bresennol yn rhannol, ond ni ddylid defnyddio'r Gorchymyn i gau llwybr pan fo rhan sylweddol o'r ffordd amgen eisoes yn destun hawl dramwy gyhoeddus. Fel arall, byddai'r profion addas ar gyfer Gorchymyn Cau Llwybr Cyhoeddus yn cael eu hosgoi'n amhriodol.
- 6.24. Ni all Gorchymyn Dargyfeirio ond diwygio'r map a datganiad diffiniol mewn perthynas â chwrs neu linell hawl tramwy: ni all newid statws y ffordd. Ni all Gorchymyn Dargyfeirio, er enghraifft, nac israddio llwybr ceffylau'n llwybr troed, nac uwchraddio llwybr troed yn llwybr ceffylau. Pan fo ffordd ddargyfeiriedig yn cydreddeg yn rhannol, fel y nodir uchod, â hawl dramwy bresennol, gallai statws naill ai'r hawl dramwy bresennol neu'r un dargyfeiriedig newid o ganlyniad i'r ffaith fod gan yr hawl dramwy arall wahanol statws. Yn amlwg, pan fo dau hawl dramwy o wahanol statws yn cydreddeg, byddai'r hawliau uwch mewn grym yn y rhan honno pan fo'r ddau yn cydreddeg.
- 6.25. Gallai awdurdodau ystyried Gorchymynion Creu a Diddymu cyfredol pan fo mannau terfyn llwybrau presennol ac/neu arfaethedig yn golygu nad yw Gorchymyn Dargyfeirio yn addas (e.e. newid llwybr ffordd bengaead).
- 6.26. Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn Dargyfeirio, cynghorir y dylid ystyried y profion ar gyfer gwneud y Gorchymyn ac ar gyfer cadarnhau'r Gorchymyn fel ei gilydd. Hyd yn oed pe digonid yr holl brofion, gallai'r awdurdod ddal i ddewis peidio â gwneud Gorchymyn.
- 6.27. Cyn cadarnhau Gorchymyn, rhaid i'r awdurdod, neu Weinidogion Cymru pe gwrthwynebid Gorchymyn, fod yn fodlon:
- Ei bod yn fanteisiol i fuddion yr unigolyn/unigolion a nodir yn y Gorchymyn bod llwybr y llinell yn cael ei wyro (yn amodol ar y cyfyngiadau ar newid y man terfyn: gweler para. 6.22 uchod).
  - Na fydd y llwybr dargyfeiriedig yn sylweddol llai cyfleus i'r cyhoedd (a all gynnwys, er enghraifft, cymharu hyd y llwybrau cyfredol ac arfaethedig a pha mor anodd yw hi i gerdded arnynt).
  - Ei bod yn hwylus cadarnhau'r Gorchymyn parthed yr effaith y byddai'r:
    - Dargyfeiriad yn ei chael ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr neu'r ffordd gyfan.
    - Y Gorchymyn yn ei chael ar dir arall a wasanaethir gan yr hawl dramwy gyhoeddus bresennol, gan ystyried darpariaethau iawndal.
    - Yn ei chael ar unrhyw llwybr neu ffordd newydd ar y tir tros ba un y mae i'w chreu, ac unrhyw dir a ddelir ynghyd ag ef, gan ystyried unwaith eto darpariaethau iawndal.
  - Yr ystyriwyd unrhyw ddarpariaethau materol a gynhwysir o fewn unrhyw Gynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n bodoli ar gyfer yr ardal.
- 6.28. Er y gellir dehongli 'cyfleuster' i olygu rhwyddineb defnydd, gall 'mwynhad' ystyried ffactorau eraill megis y golygfeydd sydd i'w mwynhau o'r llwybr neu ffordd. Mae'n bosibl y gallai dargyfeiriad arfaethedig fod mor gyfleus â'r llwybr

presennol, ond nid mor ddymunol. Os felly, wrth ddod i gasgliad ynghylch hwylustod, byddai'n rhaid i'r sawl sy'n penderfynu gydbwysu budd yr ymgeisydd wrth gael cadarnhau'r Gorchymyn yn erbyn unrhyw golled amwynder i'r cyhoedd.

- 6.29. I'r gwrthwyneb, gallai dargyfeiriad arfaethedig fod yn fwy dymunol gan y cyhoedd, ond yn llawer llai cyfleus (oherwydd, efallai, y byddai'r llwybr dargyfeiriedig yn llai hygyrch neu'n hwy na'r llwybr/ffordd bresennol). Yn y fath amgylchiadau, ni ddylid cadarnhau'r Gorchymyn Dargyfeirio, gan na ellir cadarnhau Gorchymyn Dargyfeirio os bydd y llwybr neu'r ffordd yn llawer llai cyfleus i'r cyhoedd o ganlyniad i'r dargyfeirio.
- 6.30. Yn wahanol i adran 118 o'r DP 1980, nid yw adran 119 yn ei gwneud yn gwbl ofynnol i'r sawl sy'n penderfynu anwybyddu amgylchiadau tros dro - er enghraifft, unrhyw adeiladau neu adeileddau sy'n atal neu'n lleihau defnyddio ffordd bresennol - wrth ystyried a ddylid gwneud neu gadarnhau Gorchymyn Dargyfeirio. Wrth ffurfio barn ynghylch a yw'r ffordd amgen yn llawer llai cyfleus i'r cyhoedd ai peidio, mae [Nodyn Cyngor 9](#) yr Arolygaeth Gynllunio yn datgan mai'r unig fodd teg y gellir penderfynu hynny yw gan ragdybio bod y llwybr presennol ar gael i'r cyhoedd i'w eithaf cyfreithiol.
- 6.31. Mae adran 119(3) o'r DP 1980 yn mynnu y dylai'r awdurdod ystyried a fydd unrhyw waith yn angenrheidiol er mwyn dwyn y ffordd i gyflwr addas ar gyfer defnydd cyhoeddus. Os yw'r fath waith yn angenrheidiol, dylai'r Gorchymyn ddatgan: (i) nad yw dargyfeiriad y llwybr troed yn dod i rym am nifer benodol o ddyddiau'n dilyn cadarnhad, er mwyn caniatáu i'r gwaith hwnnw gael ei wneud; a (ii) nad yw cau'r llwybr troed cyfredol yn dod i rym hyd nes y tystia'r awdurdod priffordd fod yr holl waith wedi cael ei gyflawni.
- 6.32. Nid rhaid dangos llwybrau ar y map a datganiad diffiniol cyn y gellir eu dargyfeirio, ond fel yn achos Gorchymyn a. 118, rhaid i awdurdodau fod yn fodlon ynghylch statws ffyrdd cyn gwneud Gorchymyn.

### **Cytundebau Creu – Deddf Priffyrdd 1980**

- 6.33. Mae adran 25 o'r DP 1980 yn darparu ar gyfer creu llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig trwy gytundeb.
- 6.34. Wrth ymrwymo i gytundeb, dylai'r awdurdod ystyried unrhyw waith angenrheidiol y bydd rhaid wrtho er mwyn dwyn y ffordd i gyflwr addas ar gyfer defnydd cyhoeddus. Os angen, dylai'r cytundeb ddatgan na ddaw i rym hyd nes y cydymffurfir ag unrhyw amodau penodol. Gallai'r cytundeb gynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal a nodi cyfyngiadau ar gyfer y ffordd newydd, ond i'r cyfyngiadau hynny beidio â bod yn anghydnaws â chofnodi'r llwybr yn hawl dramwy gyhoeddus. Mae unrhyw ffordd a grëir dan a. 25 o'r DP 1980 yn gynaliadwy ar draul y cyhoedd.
- 6.35. Dim ond â pherchennog y tir a groesir gan y llwybr arfaethedig y gellir ymrwymo i gytundebau, a dylai awdurdodau fod yn argyhoeddedig ynghylch gallu'r parti arall trwy archwiliad gweithredoedd neu deitl cofrestredig. Ni all parti ymrwymo i gytundeb ag ef ei hun. Gan hynny, ni all awdurdod ymrwymo

i gytundeb a. 25 ar gyfer hawl dramwy gyhoeddus newydd ar ei dir ei hun. Dylid ystyried, yn hytrach, weithredu hawliau trwy neilltuo dan a. 1 Deddf Lleoliaeth 2011 neu wneud Gorchymyn Creu dan a. 26 o'r DP 1980.

- 6.36. Pan ymrwymir i gytundeb, rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y llwybr wedi'i greu ar wyneb y tir, a hysbysu yn o leiaf un papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal. Er bod rhaid i awdurdod ymgynghori ag awdurdodau lleol eraill os yw'r tir o dan sylw o fewn tiriogaeth yr awdurdod cyfagos, nid rhaid ymgynghori â defnyddwyr cyn ymrwymo i gytundeb. Argymhellir, fodd bynnag, y dylai awdurdodau hysbysu cynghorau tref a chymuned a chyrrff defnyddwyr ynghylch y ffyrdd a grëwyd.
- 6.37. Ni ellir ystyried cytundebau creu sy'n amodol ac yn dibynnu ar gadarnhau Gorchymyn cysylltiedig wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer y Gorchymynion hynny. Gellir ystyried cytundeb creu diamod, seiliedig sydd eisoes mewn grym, fodd bynnag.

## **Gorchymynion Llwybr Cyhoeddus Arbennig– Deddf Priffyrdd 1980**

### **Gorchymyn Croesfan Rheilffordd**

- 6.38. Mae gan weithredwyr rheilffyrdd hawl ymgeisio, o dan a118A neu a119A o'r DP 1980, fel y bo'n addas, am awdurdod ar gyfer Gorchymynion Croesfan Rheilffordd, sydd yn dileu neu'n dargyfeirio llwybrau troed, llwybrau marchogaeth neu gilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd trwy gyfrwng croesfannau rheilffordd. Mae Rheoliadau Gorchymynion Diddymu a Dargyfeirio Croesfannau Rheilffordd 1993 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r gweithredwr rheilffordd ei chyflenwi wrth ymgeisio am Orchymyn Croesfan Rheilffordd, ar ffurf Gorchymynion a hysbysiadau. Y gweithredwr, fel arfer, biau cyfiawnhau'r angen am y Gorchymyn, ac er y gall y bydd peth gwybodaeth ynghylch defnyddio'r llwybr ar gael oddi wrth yr awdurdod priffyrdd neu ffynonellau eraill, disgwylir i'r gweithredwr gloriannu orau ynghylch yr wybodaeth sydd ar gael. Yn ychwanegol, dylai'r gweithredwr gynnwys cynlluniau ynghylch sut y caeir y groesfan yn ddiogel, pe bai Gorchymyn yn llwyddiannus. Ni ellir derbyn bod ceisiadau nad ydynt yn y ffurf addas (sef fel y rhagnodir yn y rheoliadau hyn neu mewn ffurf sydd yn sylweddol â'r un effaith), neu sy'n methu â darparu'r wybodaeth y mae gofyn amdani, wedi'u gwneuthur yn ddilys.
- 6.39. Gan y bwriedir Gorchymynion Croesfan Rheilffordd yn bennaf ar gyfer mynd i'r afael â phwnc diogelwch y cyhoedd, mae'n hanfodol fod awdurdodau'n ymdrin â phob cais o'r fath yn ddiymdroi. Lle gwnaed cais dilys, ac nid yw awdurdod wedi cadarnhau'r Gorchymyn, na'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer cadarnhau o fewn 6 mis i'w dderbyn, darpara a. 120(3A) o'r DP 1980 y gall Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn heb ymgynghori â'r awdurdod, er y gwneir hyn, fel arfer, wrth ymateb i gais ysgrifenedig gan y gweithredwr.
- 6.40. Mae adran 118A(1) yn darparu ar gyfer dileu llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig sy'n croesi rheilffordd, arall na thrwy dwnnel neu dros

bont, lle'r ymddengys hynny'n gyfleus i'r awdurdod er mwyn diogelwch aelodau'r cyhoedd sy'n ei ddefnyddio neu'n debyg o'i ddefnyddio. Dylid gofalu osgoi creu ffordd bengaead a fyddai'n annog tresmasu ar y rheilffordd. Mae adran 118A(2) yn darparu y gallai'r Gorchymyn ddileu'r hawl dramwy ar y groesfan ei hun, ac am gymaint o'i hyd ag y barno'r awdurdod yn gyfleus o'r groesfan i'w groesffordd â phriffordd arall y mae hawl dramwy gyffelyb trosti.

6.41. Cyn cadarnhau'r Gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru, neu'r awdurdod yn achos Gorchymyn nas gwrthwynebwyd, fod yn fodlon yn unol ag a. 118(4) ei bod yn gyfleus gwneud felly, o gofio yr holl amgylchiadau, ac yn benodol, pa un a yw'n rhesymol ymarferol gwneud y groesfan yn ddiogel at ddefnydd cyhoeddus, ac i unrhyw drefniadau a wneir ar gyfer sicrhau bod unrhyw rwystrau ac arwyddion priodol yn cael eu codi a'u cynnal os caiff y Gorchymyn ei gadarnhau. Gallai ystyriaethau eraill gynnwys:

- Faint o ddefnydd a wneir, ar hyn o bryd, o'r llwybr presennol.
- Y perygl i'r cyhoedd o barhau â'r fath ddefnydd.
- Effaith colli'r llwybr ar ddefnyddwyr y rhwydwaith hawliau tramwy megis cyfangorff.
- Y cyfle i gymryd camau amgen i ymdrin â'r broblem, megis Gorchymyn Dargyfeirio neu bont neu dwnnel, a chost gymharol y fath gamau amgen.

6.42. Lle cadarnheir Gorchymyn dylid codi arwyddion ar ddau ben y ffordd ddileedig yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y dileu, ac yn eu cynghori ynghylch y llwybr amgen agosaf. Dylai awdurdodau hefyd ystyried a ddylid darparu map neu godi arwyddbyst a marciau ffordd yn dangos y llwybr amgen. Mae adran 118A(5) yn darparu y gallai awdurdodau fynnu bod y gweithredwr yn dod i gytundeb i dalu neu gyfrannu tuag at unrhyw dreuliau mewn cysylltiad â chodi neu gynnal unrhyw rwystrau neu arwyddion.

6.43. Darpara adran 119A(1) ar gyfer dargyfeirio llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig sy'n croesi rheilffordd, arall na thrwy dwnnel neu dros bont, lle'r ymddengys hynny'n gyfleus i'r awdurdod er diogelwch aelodau'r cyhoedd sy'n ei ddefnyddio neu'n debyg o'i ddefnyddio. Fel y cyfryw, ni ddylid cadarnhau'r fath Orchymyn oni bai fod y sawl sy'n penderfynu yn fodlon ei fod yn hwylus o dan yr holl amgylchiadau. Cynghorir awdurdodau hefyd i ystyried a fyddai'r ffordd newydd yn rhesymol gyfleus i'r cyhoedd, a'r effaith y byddai'n ei chael ar y tir a wasanaethir gan y llwybr neu'r ffordd bresennol, ac ar y tir y mae'r llwybr neu'r ffordd newydd i'w chreu arno. Dylid ystyried, hefyd, effaith y ffordd ddargyfeiriedig ar gyfangorff y rhwydwaith hawliau tramwy, ac ar ddiogelwch y dargyfeiriad, yn enwedig lle'r elo ar hyd neu ar draws briffordd gerbydau.

6.44. O dan a. 119A (6) fe allai'r Gorchymyn Dargyfeirio fynnu bod rhaid i'r gweithredwr rheilffordd gynnal rhan neu'r cyfan o'r ffordd a grëwyd gan y Gorchymyn, a than a. 119A(8), gallai'r awdurdod fynnu bod y gweithredwr yn ymrwmo i gytundeb i dalu rhan neu'r cyfan o unrhyw iawndal a allai fod yn daladwy, ynghyd ag unrhyw dreuliau rhesymol yr aethpwyd iddynt mewn cysylltiad â chodi a chynnal rhwystrau ac arwyddion, neu lunio'r ffordd



newydd. Fel yn achos Gorchmynion Diddymu Croesfan Rheilffordd, rhaid i'r gweithredwr sicrhau codi ffensys addas er mwyn rhwystro mynediad at y rheilffordd, ac y darperir arwyddion addas yn cynghori defnyddwyr dichonol fod y llwybr wedi'i ddargyfeirio. Dylai awdurdodau ystyried a oes angen darparu map yn dangos y ffordd amgen, neu godi arwyddbyst a marciau ffordd at y diben hwn.

- 6.45. Mae adran 119A(7) yn gwneud elfen ddileu Gorchymyn Dargyfeirio Croesfan Rheilffordd yn amodol ar weithrediad ffisegol boddhaol y rhan amgen o'r ffordd, gan adlewyrchu'r ddarpariaeth a wneir yn a. 119(3) ar gyfer dargyfeiriadau llwybrau cyhoeddus (gweler adran 6.32 uchod).

### **Gorchymyn Arbennig Atal Troseddu**

- 6.46. Nid yw adrannau 118B a 119B o'r DP 1980 yn berthnasol ar hyn o bryd yng Nghymru ond i'r graddau y maent yn ymwneud â Gorchmynion Arbennig Diogelu Ysgolion. Ar hyn o bryd, felly, yng Nghymru, nid yw'r ddarpariaeth a wneir o dan yr adrannau hyn yn ymestyn yn gyffredinol i wneud Gorchmynion Arbennig Atal Troseddu ar gyfer cau neu ddargyfeirio hawliau tramwy ar seiliau atal troseddu mewn mannau a ddynodwyd.
- 6.47. Gallai Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus fod yn ymateb mwy addas i droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, pe dymunid cadw'r hawliau cyhoeddus ar gyfer adferiad ffisegol posibl y llwybr yn ddiweddarach (para 4.71- 4.76).

### **Gorchymyn Arbennig Diogelu Ysgolion**

- 6.48. Mae adrannau 118B a 119B o'r DP 1980 yn galluogi awdurdodau i gau neu ddargyfeirio hawl dramwy sy'n croesi tir ysgol, os yw'n hwylus, at ddiben diogelu disgyblion neu weithwyr rhag trais neu fygythiad trais, aflonyddu, dychryn neu ofid o ganlyniad i weithgaredd anghyfreithlon, neu unrhyw fygythiad arall i'w hiechyd a'u diogelwch o ganlyniad i'r fath weithgaredd.
- 6.49. Cyn cadarnhau Gorchymyn a wnaed o dan a118B ac a119B, rhaid i Weinidogion Cymru neu, yn achos Gorchmynion nas heriwyd, yr awdurdod, ystyried hwylustod gwneud hynny gyda golwg ar gamau eraill y byddai modd eu cymryd er mwyn diogelu'r ysgol a thebygolrwydd gwella diogeled yn sylweddol, yn ogystal ag effeithiau'r Gorchymyn ar y tir a wasanaethir gan yr hawl dramwy ddileedig neu'r dargyfeiriad. Nid yw'r pwerau ar gael i Awdurdodau Parc Cenedlaethol.
- 6.50. Nid yw adrannau 118C a 119C y Ddeddf mewn grym yng Nghymru.

### **Dargyfeiriadau SoDdGA**

- 6.51. Nid yw adrannau 119D a 119E o'r DP 1980 mewn grym yng Nghymru.
- 6.52. Byddai'r adrannau, fel arall, yn galluogi awdurdod, ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru, i wneud Gorchymyn dargyfeirio hawl dramwy gyhoeddus pan fo defnydd cyhoeddus o'r briffordd yn achosi, neu y byddai parhad defnydd



cyhoeddus yn debyg o achosi, difrod sylweddol i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

## **Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

### **Gorchmynion Cau a Dargyfeirio a Wneir gan Awdurdodau Lleol**

- 6.53. Mae adran 257 yn rhoi pŵer i awdurdod ddargyfeirio neu ddileu:
- Llwybrau troed;
  - Llwybrau ceffylau; neu
  - Gilffyrdd cyfyngedig.
- 6.54. Mae'r DCGTh 1990 hefyd yn galluogi Gorchmynion i gynnwys darpariaeth ar gyfer creu priffordd amgen, neu wella un bresennol, i'w defnyddio yn lle un sy'n cael ei chau neu ei dargyfeirio.
- 6.55. Nid oes gan awdurdodau unrhyw bŵer i wneud Gorchmynion dileu neu ddargyfeirio priffyrdd sydd â hawliau cerbydau modur er mwyn galluogi cyflawni datblygu. Gwneir Gorchmynion gan yr awdurdod a roddodd y caniatâd cynllunio neu, lle rhoddwyd caniatâd gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys caniatâd a gynhwysir mewn Gorchymyn datblygu arbennig neu gyffredinol, neu o dan Orchymyn yn dynodi parth menter), neu cyflawnir y datblygiad gan adran llywodraeth, gan yr awdurdod a fyddai, o dan amgylchiadau arferol, wedi rhoi'r caniatâd cynllunio.
- 6.56. Cyn gwneud Gorchymyn, rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon fod angen gwneud hynny er mwyn galluogi cyflawni datblygu naill ai:
- Yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III (y Ddeddf); neu
  - Gan adran llywodraeth.
- 6.57. Ni ddylid rhagdybio, fodd bynnag, y dylid gwneud Gorchymyn dim ond oherwydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio.
- 6.58. Golyga'r prawf rheidrwydd archwilio'r gweithgareddau a awdurdodwyd gan y caniatâd cynllunio (datblygu gweithrediadol a newidiadau defnydd fel ei gilydd) er mwyn gweld a ydynt, ai nad ydynt, yn gydnaws â chadw hawliau priffordd. Byddai gweithgaredd a olygai rhwystro priffordd (codi adeiledd tros linell priffordd, neu gyflwyno defnydd megis storio awyr agored neu barcio tymor hir, e.e.) yn anghydnaws â'r briffordd, ac felly'n cyflwyno achos o reidrwydd.
- 6.59. Hyd yn oed lle cyflwynir achos o reidrwydd, mae gan awdurdod ddisgresiwn hyd o ran a ddylai wneud Gorchymyn ai peidio. Fodd bynnag, ar ôl dod i'r casgliad y dylid rhoi'r caniatâd cynllunio, rhaid wrth resymau da dros benderfynu na ddylid gwneud Gorchymyn a fyddai'n caniatáu gweithredu'r caniatâd.
- 6.60. Wrth wneud dyfarniad a ddylid gwneud Gorchymyn, dylid ystyried y canlynol:

- Buddiannau'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Effeithiau posibl y Gorchymyn ar rai aelodau o'r cyhoedd, megis deiliaid eiddo nesaf at y briffordd.
- Unrhyw golled ariannol ddichonol i aelodau'r cyhoedd.

- 6.61. Wrth wneud dargyfeiriad, rhaid i'r llwybr newydd naill ai ddechrau neu ddarford yn rhyw fan ar linell y ffordd wreiddiol. Fodd bynnag, nid rhaid i ffyrdd amgen wneud hynny, felly gallent, er enghraifft, fod yn gyflin â'r ffordd sy'n cael ei chau. Er mwyn osgoi creu ffordd bengaead, ac er mwyn galluogi'r cyhoedd, pan fo modd, i ddychwelyd i'r rhan honno o'r ffordd wreiddiol nas effeithiwyd gan y datblygiad, dylai unrhyw ffordd amgen a ddarperir gysylltu â'r ffordd wreiddiol trwy briffordd arall.
- 6.62. Pan gynigir darparu a neilltuo dargyfeiriad neu hawl dramwy amgen tros dir nad yw ym meddiant y datblygwr, rhaid cael cydsyniad y tirfeddiannwr/tirfeddianwyr â'r neilltuo arfaethedig cyn y gwneir y Gorchymyn. Nid oes darpariaeth ddigolledu parthed gorchmynion DCGTh arall na lle y cytunwyd yn annibynnol. Pan fo'r rhan honno o'r ffordd sydd i'w chau neu ei dargyfeirio'n croesi ffin ardaloedd dau awdurdod, rhaid i'r ddau awdurdod ar y cyd wneud y Gorchymyn (onid yw'r naill awdurdod yn cyflawni swyddogaethau'r llall trwy gytundeb dan a. 101 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).
- 6.63. Wrth wneud Gorchymyn Dargyfeirio dan a. 257 o'r DCGTh 1990, dylai'r awdurdod ystyried unrhyw waith angenrheidiol ar gyfer dwyn y ffordd amgen i gyflwr addas ar gyfer defnydd cyhoeddus. Lle bo angen, dylai'r Gorchymyn, fel y rhagnodir gan Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus) 1993 ddatgan o fewn ei baragraff 3 na fydd y dargyfeiriad yn dod i rym hyd nes y tystia'r awdurdod y cydymffurfiwyd â'r gofynion a ddiffinnir yn ei baragraff 2. Sylwch fod rhaid hysbysebu i'r cyhoedd, trwy bapur newydd lleol, yr ardystiad a gyflawnwyd gan gwblhau'r gwaith.
- 6.64. Er mwyn cadarnhau Gorchymyn Cau neu Ddargyfeirio, rhaid i'r awdurdod, neu Weinidogion Cymru os gwrthwynebir y Gorchymyn, fod yn fodlon bod y meini prawf a ystyriwyd adeg cyfnod gwneud y Gorchymyn wedi eu bodloni.
- 6.65. Lle cwblheir y datblygiad, i'r graddau y mae'n effeithio ar hawl tramwy, cyn y gwneir neu y cadarnheir y Gorchymyn angenrheidiol ar gyfer dargyfeirio neu ddileu'r hawl tramwy, nid yw'r pwerau dan a. 257 ac a. 259 o'r DCGTh 1990 i wneud a chadarnhau Gorchmynion ar gael, bellach. Hynny oherwydd bod y datblygiad, y bwriedir i'r Gorchymyn ei alluogi, eisoes wedi'i gyflawni. Os yw'r fath ddatblygiad eisoes wedi'i gwblhau, nid oes sail ar gyfer gwneud Gorchymyn. Gall yr awdurdod, wrth gwrs, ystyried sut y gallai weithredu, os o gwbl, er mwyn sicrhau dileu neu ddargyfeirio'r hawl dramwy trwy arfer pa bwerau eraill a allai fod ar gael. Yn hyn o beth, dylid barnu bod datblygiad wedi'i gwblhau os yw'r gwaith sy'n weddill i'w gyflawni yn fychan.

### **Gorchmynion Dileu ar Dir a Ddelir at Ddibenion Cynllunio**

- 6.66. Mae adran 258 yn rhoi pŵer i awdurdod gau llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig ar ei dir ei hun os bwriada ddatblygu'r tir.
- 6.67. Er mwyn cadarnhau Gorchmyn Dileu, rhaid i awdurdod, neu Weinidogion Cymru os gwrthwynebir y Gorchmyn, fod yn fodlon:
- Y darparwyd neu y darperir hawl dramwy amgen; neu
  - Nad oes angen darparu hawl dramwy amgen.

### **Y Weithdrefn sydd Ar Gael i Weinidogion Cymru o Flaen Llaw ar gyfer Caniatâd Cynllunio**

- 6.68. Ni all awdurdodau wneud Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus gan ragdybio rhoi caniatâd cynllunio (er y gall wneud gwaith rhagarweiniol, megis ymgynghoriad). Mae adran 253 o'r DCGTh 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud a hysbysebu drafft o'r Gorchmyn ple:
- Gwnaed cais am ganiatâd cynllunio gan awdurdod, ymgwymerwr statudol neu awdurdod Parc Cenedlaethol; neu
  - Erys y cais wedi'i gyfeirio at Weinidogion Cymru yn rhinwedd cyfarwyddyd dan a. 77; neu
  - Y mae'r ymgeisydd wedi apelio dan a. 78 yn erbyn gwrthod caniatâd neu gydsyniad cynllunio angenrheidiol o dan orchymyn datblygu, neu yn erbyn parhad y fath ganiatâd neu gydsyniad.
- 6.69. Mae trefniadau tebyg o dan reoliad 15 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 1992, hefyd, i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi hysbysiad Gorchmyn dan a. 251, gan ddileu hawl dramwy gyhoeddus tros dir a delir at ddibenion cynllunio, ar yr un pryd â chaffael y tir trwy orchymyn pryniant gorfodol (a. 226) neu drwy gytundeb (a. 227). Pan fydd y tir dros ba un y mae'r hawl tramwy'n bodoli wedi'i gaffael, gallai Gweinidogion Cymru hefyd wneud Gorchmyn Prynant Gorfodol dan a. 254 er mwyn caffael tir ar gyfer darparu hawl dramwy amgen.

### **Achosion Deddf Caffael Tir 1981**

- 6.70. Mae adran 32 o'r Ddeddf hon yn galluogi awdurdodau sy'n caffael i wneud Gorchmynion ar gyfer dileu hawliau tramwy angherbyddol tros dir sydd wedi, y gellid, neu y bwriedir, ei brynu'n orfodol. Cyn gwneud Gorchmyn, rhaid i'r awdurdod sy'n caffael fod yn fodlon y darparwyd neu y darperir ffordd amgen (neu nad oes angen un); trwy gytundeb neu Orchymyn Llwybr cyhoeddus, e.e.
- 6.71. Darpara adran 32 ar gyfer cyfyngiadau ar y pŵer i wneud Gorchmyn, gan gynnwys pryd y mae dilead yr hawl dramwy yn dod i rym. Nid yw'r pŵer yn adran 32 ar gael chwaith pan fo a. 251 neu a. 258 o'r DCGTh 1990 yn weithredol. Mae Atodlen 6 o'r DP 1980 yn weithredol parthed gwneud, cadarnhau, dilysrwydd a dyddiad gweithredu Gorchmynion dan a.32 (gweler a. 32(2), Deddf Caffaeliad Tir 1981).

## Gorchmynion Cau Dros Dro (Mwynau)

- 6.72. Mae adran 261 o'r DCGTh 1980 yn rhoi pŵer i awdurdod wneud Gorchmynion dan a. 257 i gau neu ddargyfeirio llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig am gyfnod o amser fel y gellir gweithio mwynau o'r wyneb.
- 6.73. Cyn cadarnhau'r Gorchmyn, rhaid i'r awdurdod, neu Weinidogion Cymru pe gwrthwynebir Gorchmyn, fod yn fodlon:
- Bod angen cau'r ffordd er mwyn galluogi gweithio mwynau trwy weithio ar yr wyneb.
  - Y gellir adfer y ffordd wedyn i gyflwr nid llai cyfleus i'r cyhoedd, i raddau helaeth.
- 6.74. Cyn y DCGTh 1990, bu atal hawliau tramwy angherbyddol a effeithid gan gloddio brig yn destun Deddf Glo Brig 1958. Er na ellir gwneud, yn awr, unrhyw Orchmynion newydd o dan Ddeddf 1958, bydd unrhyw rai cyn 31 Rhagfyr 1999 yn parhau i fod yn weithredol.
- 6.75. Gall Gweinidogion Cymru ddiddymu Gorchmyn a wnaed dan a. 15 o Ddeddf Glo Brig 1958:
- Os na chyflawnwyd gweithgareddau a ganiateir yn unol â'r caniatâd cynllunio cloddio brig ar y tir ar ba un y bu'r hawl tramwy, ac y maent yn fodlon nad yw'n debyg y cyflawnir y fath weithgareddau yn y dyfodol agos; neu
  - Cyn gynted ag y cyflawnwyd y fath weithgareddau a ganiateir gan eu bod yn fodlon nad oes rhagor o angen atal yr hawl dramwy at ddiben cyflawni'r fath weithgareddau a ganiateir.
  - Y maent yn fodlon mai addas gwneud hynny oherwydd unrhyw fethiant ar ran y sawl ar gais yr hwn y gwnaed y Gorchmyn er mwyn cydymffurfio â gofynion a. 15A(10) Deddf 1958.
- 6.76. Ni ragnodir y weithdrefn ar gyfer diddymu Gorchmyn sy'n bodoli, ond mae'n debygol o gael ei chychwyn gan Weinidogion Cymru, trwy'r Arolygaeth Gynllunio, gan geisio egluro pa un a yw'r amgylchiadau gyfer diddymu wedi'u bodloni, neu a oes awdurdod wedi eu hysbysu o hynny o'u gwirfodd.
- 6.77. Wrth gadarnhau angen neu ddiffyg angen parhad Gorchmyn, dylai awdurdodau gyflwyno copïau o'r Gorchmyn gwreiddiol at Weinidogion Cymru ynghyd â datganiad ategol yn enwi'r gweithgaredd a ganiateir ac yn cynghori ynghylch y cyflwr cwblhau neu obaith cyflawni'r gweithgareddau.
- 6.78. Lle ni fo cofnodion o'r Gorchmyn gwreiddiol neu'r gweithgaredd a ganiateir ar gael, bellach, digon yw sefydlu i ba raddau y mae *unrhyw* weithgaredd cloddio brig neu ganiatâd cynllunio cloddio brig yn parhau o fewn yr ardal a effeithiwyd. Lle ni fo unrhyw obaith y cyflawnir y fath weithgaredd, neu, pan

fo'n eglur nad oes rhagor o angen atal hawliau at ddibenion cyflawni unrhyw fath weithgaredd a gwblhawyd, gellir diddymu Gorchymyn.

### Ceisiadau Llys Ynadon

- 6.79. Mae adran 116 o'r DP 1980 yn galluogi awdurdodau i ymgeisio i Lys Ynadon am Orchymyn dileu neu ddargyfeirio priffordd o unrhyw fath arall na chefnffordd neu ffordd arbennig. Mae'r darpariaethau hyn, felly, yn cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd agored i bob traffig, yn ychwanegol at y pwerau ar gael yn a. 118 ac a. 119 o'r DP 1980 a deddfwriaeth arall i ddileu a dargyfeirio'r hawliau tramwy hyn, arall na chilffyrdd agored i bob traffig.
- 6.80. Gallai fod yna amgylchiadau ple byddo'n addas defnyddio'r drefn Llys Ynadon dan a. 116 o'r DP 1980. Er enghraifft, gellid defnyddio a. 116 i ddileu neu ddargyfeirio llwybr troed neu lwybr ceffylau (neu gadw'r fath hawliau), a dileu hawl dramwy gerbydol ar yr un pryd. Gellid ei ddefnyddio hefyd i ddileu hawliau cerbydol a chadw hawliau llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig tros gilffyrdd agored i bob traffig, er y dylai awdurdodau fod yn ymwybodol y gallai hyn agor llwybr troed neu lwybr ceffylau canlyniadol i aredig, gan arwain at ddinistrio ei gymeriad a'i olwg megis nodwedd dirweddol.
- 6.81. Bernir, fodd bynnag, y dylai awdurdodau ddefnyddio pwerau eraill sydd ar gael ar gyfer dileu neu ddargyfeirio hawliau tramwy onid oes rhesymau da dros beidio â gwneud.

### Gorchmynion Cyfredol

- 6.82. Gellir gwneud Gorchmynion Creu a Dargyfeirio'n gyfredol â Gorchmynion Dileu er mwyn darparu llwybrau amgen na'r rhai a gaeir. Lle cysylltir Gorchmynion yn y modd hwn, gellir ystyried y llwybrau newydd a gynhwysir o fewn y Gorchymyn (neu Orchmynion) Creu neu Ddargyfeirio wrth benderfynu a ddylid cadarnhau'r Dileu ai peidio. Nid yw hyn yn cynnwys Cytundebau Creu.
- 6.83. Wrth ystyried y llwybrau newydd, dylid dwyn mewn cof gyfleuster y llwybr amgen o'i gymharu â'r hwn sydd i'w ddileu, ac a yw hynny'n sylweddol lai na'r hyn a fwyneir gan ddefnyddwyr y llwybr presennol. Bydd angen i awdurdodau ystyried a gyrhaeddwyd y meini prawf a nodir yn a. 118(1) o'r DP 1980. Dylid gofalu sicrhau, hefyd, rhoi ystyriaeth lawn i'r holl faterion a nodir yn a. 26 (neu adrannau 119–119B yn achos Gorchmynion Dargyfeirio) ac a. 118.
- 6.84. Lle gwnaed Gorchmynion Diddymu a Chreu neu Ddargyfeirio'n gyfredol, ac y gwnaed cyflwyniadau neu wrthwynebiadau ynghylch y naill ond nid y llall, cynghorir awdurdodau i gyflwyno'r ddau Orchymyn i Weinidogion Cymru ar gyfer eu cadarnhau. Nid oes darpariaeth ar gyfer cyfuno Creu a Diddymu yn un Gorchymyn.

## Gorchmynion Ar y Cyd a Chyfun

- 6.85. Nid oes unrhyw reoliadau mewn grym yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn caniatáu i a. 53A o'r DBGChG 1981 ddod yn weithredol.
- 6.86. O ganlyniad, nid oes darpariaethau ar gyfer galluogi awdurdodau i gynnwys cyfarwyddiadau addasu'r map a datganiad diffiniol mewn rhai Gorchmynion penodol. Dylai awdurdodau, felly, barhau i wneud Gorchmynion ar wahân yn ôl yr angen.

## Gorchmynion a Deddfau Seneddol Ffyrdd Ymyl

- 6.87. Lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu neu wella priffordd, ac y mae priffordd arall yn croesi neu'n ymuno â'r llwybr, neu y'i heffeithir gan y fath ddatblygiad yn y presennol neu'r dyfodol, mae pwerau ar gael dan a. 248 o'r DCGTh 1990 i alluogi Gweinidogion Cymru i gau neu ddargyfeirio'r fath briffyrdd eraill, lle bernir hynny'n hwylus er budd diogelwch neu er mwyn hwyluso symudiad traffig ar y briffordd. Yn ychwanegol, mae pwerau ar gyfer gwneud Gorchmynion Ffyrdd Ymyl ar gael dan a. 14 o'r DP 1980 parthed cefnffyrdd neu ffyrdd dosbarthiadol (nad ydynt yn ffyrdd arbennig). Nid addas defnyddio a. 247 neu a. 257 o'r DCGTh 1990 ar gyfer cau neu ddargyfeirio ffyrdd at y dibenion hyn.
- 6.88. Yn gyffelyb, mae modd i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol neu Ddeddfau Seneddol effeithio'n uniongyrchol ar hawliau tramwy enwedig.

## Ceisiadau am Gostau

- 6.89. Disgwylir, fel arfer, i bartïon mewn achosion hawliau tramwy sy'n codi pan gyflwynir Gorchymyn hawliau tramwy i'r Arolygaeth Gynllunio ar gyfer eu cadarnhau dalu eu treuliau eu hunain. Yn yr achosion hyn, yn wahanol i gyfreitha sifil cyffredin, nid yw dyfarnu costau'n dilyn y canlyniad, o raid. Mewn geiriau eraill, ni ellir hyderu y bydd y sawl sy'n colli'r achos yn gorfod talu'r holl gostau. Yn amodol ar yr eithriadau a amlinellir isod, dyfernir costau ar sail ymddygiad afresymol yn unig.
- 6.90. Gallai'r Arolygaeth Gynllunio orchymyn bod y naill barti yn talu costau'r llall:
- Lle bo'r parti hwnnw wedi ymddwyn yn "afresymol".
  - Lle bo'r ymddygiad afresymol wedi achosi i'r parti arall fynd i dreuliau diangen na fyddent wedi mynd iddynt fel arall.
- 6.91. Ceir arweiniad ynghylch dull priodol wrth ystyried ceisiadau costau yng Nghylchlythyr Swyddfa Cymru 23/93, 'Dyfarnu Costau Mewn Trafodion Cynllunio a Thrafodion Eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol)'.
- 6.92. Ni ellir dyfarnu costau heblaw mewn achosion lle cynhelir ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus, ac nid yw hynny'n cynnwys achosion hawliau tramwy a benderfynir trwy gyflwyno cyflwyniadau ysgrifenedig ac ymweliad safle. Nid yw achosion hawliau tramwy yn galluogi gwneud ceisiadau am gostau cyn yr



ymchwiliad neu'r gwrandawriad cyhoeddus. Dylid gwneud unrhyw gais ar sail ymddygiad afresymol parti arall i'r Arolygydd yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad. Fodd bynnag, anogir partion i wrandawriad neu ymchwiliad i roi gwybod i'r parti gwrthwynebus, o flaen llaw, am y posibilrwydd y gallai cais am gostau gael ei wneud, a'r rhesymau dros hynny.

- 6.93. Gallai parti orfod talu costau pe gellid, yn rhesymol, bod wedi osgoi gwrandawriad neu ymchwiliad, neu pe'i hoedir neu ei hystynnir yn afresymol. Gallai'r awdurdod, er enghraifft, fod ym mherygl os yw Arolygydd yn atal gwrandawriad neu ymchwiliad oherwydd iddo ganfod bod y Gorchymyn yn ddiffygiol. Gallai unrhyw un nad yw'n cydymffurfio â'r amserlenni a nodir gan yr Arolygaeth Gynllunio (oni bo rheswm da pam na allent) hefyd fod ym mherygl os achosant ohirio gwrandawriad neu ymchwiliad, neu beri iddo barhau'n hwy nag y buasai pe baent wedi cydymffurfio â'r amserlenni, a thrwy wneud hynny yn achosi i eraill fynd i draul ddiangen neu wastraffus yn y broses.
- 6.94. Nid rhaid i ymgeiswyr a phersonau perthnasol fod yn bresennol mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Gallant benderfynu dibynnu ar eu tystiolaeth ysgrifenedig, er, os gwnânt, dylent gynghori'r Arolygaeth Gynllunio mewn da bryd. Ond os yw ymgeisydd neu berson perthnasol yn gofyn i gael ei wrando, ac yna'n peidio ag ymddangos neu gael ei gynrychioli heb reswm digonol, mae perygl y dyfernir costau yn ei erbyn. Mae perygl, hefyd, y dyfernir costau os bu raid rhoi'r gorau i wrandawriad neu ymchwiliad o ganlyniad i dynnu gwrthwynebiad yn ôl yn hwyr yn yr achos.
- 6.95. Mewn achos lle nid yw'r parti yn erbyn yr hwn yr hawlir costau yn bresennol yn yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad, ni fydd modd i'r Arolygydd glywed ei gyflwyniadau yn erbyn yr hawliad. Yn y fath achosion, bydd yr Arolygydd yn rhoi gwybod am y cais a'r amgylchiadau, gyda chasgliadau darpariaethol, ond heb argymhelliad, i Adran Gostau'r Arolygaeth Gynllunio, a fydd yn canlyn ac yn penderfynu'r hawliad wedi gwahodd cyflwyniadau'r parti absennol. Cyn y cyhoeddir penderfyniad, cyfnewidir â'r parti sy'n hawlio unrhyw gyflwyniadau a dderbynnir.
- 6.96. Mewn achosion lle ceir penderfyniad neu ymchwiliad dros dro, a bod cais am gostau yn ymwneud â sylwedd y Gorchymyn, yn hytrach na mater o drefn, yna y mae'n debyg mai dim ond ar ddiwedd y broses y penderfynir y cais, pan fo rhinweddau'r Gorchymyn wedi'u sefydlu y tu hwnt i unrhyw amheuaeth.

### Gorchmynion 'Cyfatebol'

- 6.97. Bernir bod Gorchmynion Creu Llwybr Cyhoeddus a wneir dan a. 26 o'r DP 1980 yn gyfatebol i Orchmynion Prynu Gorfodol, yn y gallai gwneud neu gadarnhau'r Gorchymyn amddifadu gwrthwynebwyr o ryw hawl neu fudd o dir y mae'r statud yn rhoi hawl am iawndal ar ei gyfer. Gallai Gorchmynion Dileu a Dargyfeirio a wneir o dan adrannau 118-119B o'r DP 1980 hefyd fod yn gyfatebol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol.
- 6.98. Os yw rhywun â budd yn y tir y mae llwybr i'w greu arno, ei ddileu neu ei wro yn gwrthwynebu'n llwyddiannus y fath Orchymyn, dyfernir costau o blaid yr



unigolyn hwnnw oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Bydd dyfarnu costau, felly, yn dilyn pan fo'r unigolyn yn dod i wrandawriad neu ymchwiliad, neu'n cael ei gynrychioli yno, ac fe'i clywir fel gwrthwynebwr statudol, ac ni chadarnheir y Gorchymyn, neu yr addasir y Gorchymyn o blaid budd yr unigolyn, boed hynny'n gyfan neu'n rhannol. Nid oes rhaid i wrthwynebwr o'r fath ymgeisio am gostau yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, gan y bydd Gweinidogion Cymru yn ysgrifennu ato ar ddiwedd achos y Gorchymyn. Dyfernir yn erbyn yr awdurdod sy'n gwneud y Gorchymyn, er na fyddai hyn, ynddo'i hun, yn awgrymu ymddygiad afresymol ar ran yr awdurdod.

### **Gorchmynion a Benderfynir mewn Llys Ynadon**

- 6.99. Mae'r trefnau costau a ddisgrifir uchod yn gymwys pan fo Arolygydd, ar ran Gweinidogion Cymru, yn penderfynu cadarnhau Gorchymyn ai peidio trwy ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus. Os yw pob parti'n ymddwyn yn "rhesymol", nid oes perygl y dyfernir costau. I'r gwrthwyneb, penderfynir Gorchymyn Dargyfeirio neu Ddileu a wnaed dan a. 116 o'r DP 1980 mewn Llys Ynadon o dan drefnau costau cyfreitha sifil, lle mae costau'n "canlyn y digwyddiad". Hynny yw, mae cyfrifoldeb am gostau yn dibynnu ar ganlyniad yr achos ei hun. Golyga hyn y gallai'r parti, neu'r partïon, a fethai neu a fethent â chael y canlyniad yr oeddent yn ei ddymuno, orfod wynebu talu costau'r parti neu bartïon llwyddiannus.

### **Trefnau ar gyfer Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus**

- 6.100. Lluniwyd y darpariaethau statudol parthed creu, dargyfeirio a chau hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn sicrhau diogelu hawliau cyhoeddus a buddiannau perchnogion a deiliaid fel ei gilydd, yn ogystal â buddiannau cyrff megis ymgymerydd statudol. Mae'n hanfodol, felly, y dylai awdurdodau sy'n dymuno dwyn Gorchymyn i rym erbyn dyddiad penodol ganiatáu digon o amser, wrth wneud y Gorchymyn, i gydymffurfio â'r holl ofynion statudol, a allai gynnwys ymchwiliad cyhoeddus i wrthwynebiadau. Dylid dwyn mewn cof, yn benodol, fod cau llwybr neu ffordd cyn dileu'r hawl dramwy drosto yn anghyfreithlon.

### **Ymgeisio**

- 6.101. Mae gan awdurdodau ddisgresiwn gwneud Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus, fel y disgrifiwyd uchod, a gallant wneud hynny o'u dewis eu hunain neu ar gais parti arall. Mae ffurf ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Croesfannau Rheilffordd wedi'i rhagnodi, ond fel arall, pan fo parti arall yn ceisio newid y rhwydwaith trwy Orchymyn Llwybr Cyhoeddus, ni ragnodir ffurf y cais. Gallai awdurdodau, serch hynny, ganfod mai defnyddiol yw ymdrin â cheisiadau trwy gyfrwng ffurflen gais, gan gasglu gwybodaeth at ddibenion gweinyddol ac er mwyn cynorthwyo ag asesu profion cyfreithiol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ymgeisio am Orchymyn Creu Llwybr Cyhoeddus er mwyn galluogi'r cyhoedd i gael mynediad at unrhyw dir neu i hwyluso'r fath fynediad. Fodd bynnag, nid yw'r hawl i ymgeisio am Orchymynion Llwybr Cyhoeddus a geir yn adrannau 118ZA, 118C, 119ZA a 119C mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd.

- 6.102. Pe penderfynai'r awdurdod fwrw ymlaen â'r cais, y mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Adennill Costau Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus) 1993, wedi'u diwygio gan reoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Costau Cymorth Tramor a Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus) 1996, yn caniatáu i awdurdodau godi ar ymgeiswyr gostau gwneud Gorchmynion o dan adrannau 26, 118, 118A, 119 a 119A o'r DP 1980.
- 6.103. Dylai awdurdodau gyhoeddi eu cyfraddau costau, a rhoi gwybod i ymgeiswyr o flaen llaw ynghylch uchafswm y gost a godir am eu cais. Rhaid i awdurdodau beidio â chodi rhagor na'r costau y bu iddynt eu talu.
- 6.104. Enghreifftiau o'r costau y gallai awdurdodau eu talu wrth wneud Gorchymyn yw:
- Hysbysiadau i dirfeddianwyr, ymgwymerwyr statudol, cyrff rhestredig, awdurdodau eraill a phobl eraill.
  - Gosod hysbysiadau ar y safle ac ym mannau eraill.
  - Hysbyseb yn un papur newydd lleol ar gyfer pob un cam o'r Gorchymyn, sef gwneud y Gorchymyn, cadarnhau'r Gorchymyn, a dyfodiad y Gorchymyn i rym (pan fo angen y cam olaf ar wahân). Rhaid cylchredeg y papur newydd yn eang ac yn ddibynadwy yn ardal y Gorchymyn, a than y gofyniad i gael y gwerth gorau, gallai cyhoeddiadau llai confensiynol, megis dalennau rhad ac am ddim, gyflawni'r gofyniad.
  - Archwiliadau safle.
  - Ymchwil i statws a hanes blaenorol y ffordd.
  - Trafodaethau ag ymgeiswyr ac eraill sydd â budd iddynt cyn gwneud y Gorchymyn.
  - Paratoi adroddiadau ar gyfer Pwyllgor.
  - Paratoi Gorchmynion a hysbysiadau.
- 6.105. Gall awdurdodau adennill gan ymgeiswyr gostau ymgynghoriadau anffurfiol (megis trafodaethau rhwng awdurdodau, ymgeiswyr, tirfeddianwyr, grwpiau defnyddwyr ac unrhyw gorff neu unigolyn arall â budd) pan eu bod yn arwain at wneud Gorchmynion. Yr awdurdodau eu hunain sy'n penderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen ar gyfer gwneud Gorchymyn penodol, a dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol y gallai'r rhain amrywio yn ôl amgylchiadau'r achos penodol.
- 6.106. Y mae gwrthwynebiadau i Orchymyn, a phenderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylid cadarnhau'r Gorchymyn ai peidio, y tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd. Bernir ei bod yn afresymol disgwyl i'r ymgeisydd dalu'r costau ychwanegol ar yr awdurdod wrth ganlyn Gorchmynion gwrthwynebus ymlaen at eu cadarnhau. Felly, nid oes pŵer i godi costau yn gysylltiedig â chyflwyno Gorchymyn i Weinidogion Cymru, ac am y penderfyniad canlyniadol ynghylch a ddylid ei gadarnhau ai peidio. Bydd yr awdurdod, serch hynny, yn dymuno sicrhau rhoi i'r ymgeisydd pob cyfle i fod â rhan yn unrhyw ymchwiliad neu wrandawriad cyhoeddus. Er bod gan wrthwynebwyr hawl eu clywed gan Weinidogion Cymru, gellir ystyried y fath faterion ar sail cyflwyniadau

ysgrifenedig. Cafwyd fod y fath drefniadau'n gost-effeithiol, a dylai pob parti ystyried y drefn hon ple bynnag y bo modd.

6.107. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y mae gan ymgeiswyr hawl i ad-daliad:

- Lle metho'r awdurdod â chadarnhau Gorchymyn diwrthwynebiad.
- Lle, yn achos Gorchymyn diwrthwynebiad, y metho'r awdurdod â chyflwyno'r Gorchymyn i Weinidogion Cymru ar gyfer ei gadarnhau heb gytundeb y sawl a ofynnodd am y Gorchymyn.
- Lle ni chynhelir achos rhagarweiniol cadarnhau Gorchymyn Creu Llwybr Cyhoeddus yn gyfredol ag achos ar gyfer Gorchymyn Dileu Llwybr Cyhoeddus.
- Lle ni ellir cadarnhau'r Gorchymyn oherwydd y'i gwnaed mewn modd annilys.

6.108. Ni all awdurdodau hawlio tâl cyn mynd i draul. Dylent hawlio'u tâl, felly, wedi gosod yr hysbyseb ynghylch gwneud y Gorchymyn gyda'r papur newydd lleol. Yn gyffelyb, ni ddylid ceisio tâl am hysbysebion dilynol mewn perthynas â chadarnhau'r Gorchymyn, neu ardystio'r llwybr newydd, hyd nes y'u gosodwyd gyda'r papur newydd. Gallai awdurdodau ohirio ardystiad, neu yn achos Gorchymynion a wrthwynebir, gyfeirio at Weinidogion Cymru, hyd nes y derbynnir tâl.

6.109. Mae pŵer codi tâl yn ddewisol, a gallai awdurdodau ddewis peidio â chodi tâl am y gwasanaeth hwn o gwbl. Disgwylir y bydd awdurdodau, fel arfer, yn ceisio defnyddio'r pŵer hwn i adennill y costau yr aethant iddynt wrth wneud y Gorchymynion hyn, ond derbynnir na allai hynny fod yn gost-effeithiol o dan rhai amgylchiadau, neu y gallai amgylchiadau eraill ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch codi tâl. Fel arfer, felly, dylai ymgeiswyr ddisgwyl dwyn traul gwneud Gorchymyn.

6.110. Cyn gwneud Gorchymyn sy'n arfaethu dargyfeirio hawl dramwy dan a. 119 o'r DP 1980, gall awdurdodau fynnu bod perchennog, deiliad prydles neu ddeiliad y tir yn cytuno dan a. 119(5) i dalu neu gyfrannu at dreuliau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt trwy ddwyn ffordd newydd i gyflwr addas ar gyfer ei defnyddio gan y cyhoedd.

### Ymgynghori Cynorchmynnol

6.111. Cyn i awdurdod wneud Gorchymyn, rhaid ymgynghori ag awdurdodau lleol ac awdurdodau Parc Cenedlaethol yn ardal pa rai y mae'r ffordd neu'r ffordd arfaethedig. Os yw ffordd sydd i'w dileu neu ei dargyfeirio yn rhannol o fewn ardal awdurdod cyfagos, rhaid cael cydsyniad yr awdurdod hwnnw.

6.112. Yn ychwanegol at y gofynion statudol, dylai awdurdodau ystyried ymgynghori â chynghorau tref neu gymuned, cyrff rhestredig, grwpiau defnyddwyr, Fforymau Mynediad Lleol, a grwpiau cyswllt. Rhaid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw ffordd neu ffordd arfaethedig sydd o fewn Parc Cenedlaethol neu'n effeithio ar Lwybr Pellter Mawr yn ôl diffiniad y DPCMCG 1949 (gan gynnwys Ffordd Genedlaethol). Dylai hyn gynorthwyo

awdurdodau i achub y blaen ar gyflwyniadau a gwrthwynebiadau cyn iddynt wneud Gorchmynion, trwy gyfrwng trafod â thirfeddianwyr, defnyddwyr a chyrff cynrychioladol.

- 6.113. Dylai awdurdodau ymgynghori'n eang ynghylch cynlluniau a allent arwain at effeithio hawliau tramwy cyhoeddus gan Orchmynion. Hyn yn enwedig parthed Gorchmynion arfaethedig sydd i'w gwneud o dan y DP 1980 neu'r DCGTh 1990, lle y gall y bo dewisiadau eraill.
- 6.114. Dylid ymgynghori ag ymgymrwyr statudol cyn gwneud Gorchmyn, a chael eu cydsyniad pan fo angen. Darpara adran 121(4) DP 1980 y gallant wrthod â chydysynio â chadarnhau Gorchmynion Dileu a Dargyfeirio. Mae adran 24(2) DP 1980 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio os yw hawl dramwy arfaethedig i gysylltu â chefnffordd. Lle bo angen cyflwyno hysbysiadau i berchnogion tir, ac y mae'r tir yn eiddo i fywoliaeth eglwysig, mae paragraff 1(4) Atodlen 6 i DP 1980 yn datgan bod rhaid cyflwyno hysbysiad i Fwrdd Cyllid Esgobaethol yr esgobaeth y mae'r tir ynddi. Mae angen cydsyniad yr awdurdod addas, yn ôl diffiniad a. 327 o DP 1980, parthed cymhwysiad y Ddeddf at Dir y Goron.
- 6.115. Ni ellir cadarnhau Gorchmynion a wnaed dan a. 257 o'r DCGTh 1990 sy'n effeithio ar gyfarpar sy'n perthyn i ymgymrwyr statudol heb eu cydsyniad nhw.

### Penderfynu

- 6.116. Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchmynion Creu, Dargyfeirio neu Ddileu o dan DP 1980, rhaid i awdurdodau, dan a. 29 ac a. 121(3) o'r Ddeddf, roi sylw dyledus i anghenion amaeth a choedwigaeth, a buddioldeb cadwraeth planhigion, anifeiliaid a nodweddion daearegol a ffisiograffegol. Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Awdurdodau Lleol) i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' cyn belled ag y bo hyn yn gyson o ran ceisio cyflawni'r swyddogaethau hynny.
- 6.117. Parthed tir a ddynodwyd yn Barc Cenedlaethol neu'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae'r ddeddfwriaeth berthnasol, sef a. 11A(2) o'r DPCMGG 1949 ac a. 85 o'r DCGHT 2000, yn y drefn honno, yn mynnu bod awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau ( a fydd yn cynnwys gwneud Gorchmynion a chytundebau creu, dargyfeirio neu ddileu hawliau tramwy cyhoeddus), yn rhoi sylw dyledus i'r dibenion y crëwyd y Parc Cenedlaethol neu'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar eu cyfer.

### Gwneud Gorchmyn

- 6.118. Mae ffurfiau'r amryw Orchmynion a'r hysbysiadau a ddarperir ar eu cyfer gan y DP 1980 wedi'u rhagnodi yn Rheoliadau Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus 1993 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus) 1993.

- 6.119. Ni ddylai'r cyfyngiadau a'r amodau a nodir yn yr Atodlen i ffurf Gorchymyn fod yn amgen na chyfyngiadau ac amodau sy'n effeithio ar weithrediad gwirioneddol hawl cyhoeddus y defnyddiwr, e.e. dyluniad, safon, gosodiad, nifer giatiau, neu amodau symud ymaith adeiledd neu leihad ei effaith ar ddefnyddwyr.
- 6.120. Nid oes lledau safonol ar gyfer ffyrdd a grëir neu a ddargyfeirir o fewn Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus. Bydd amgylchiadau lleol sy'n effeithio ar y lledau sy'n addas neu'n gyraeddadwy yn amrywio, ond dylai awdurdodau ragnodi lledau ym mhob Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus.
- 6.121. Dylai'r mapiau a geir mewn Gorchymyn fod ar raddfa nid llai nag 1:2,500 neu, onid yw'r fath fap ar gael, ar y raddfa fwyaf sydd ar gael yn hwylus. Dylid defnyddio detholiadau o argraffiad cyfredol o fap Arolwg Ordnans, a dylid ei gymeradwyo ag amodau hawlfraint gofynnol yr Arolwg Ordnans. Dylid dangos y raddfa a'r cyfeiriad yn eglur, yn ogystal â'r cyfeirnodau grid er mwyn galluogi'r cyhoedd i adnabod yr hawliau tramwy o dan sylw. Dylai'r map hefyd gynnwys digon o fanylion i ddangos yr effaith, nid yn unig ar y llwybr neu'r ffordd sydd i'w chau neu ei dargyfeirio, ond at y priffyrdd cysylltiedig â hi. Yn achos Gorchymynion Dargyfeirio a wneir o dan DP 1980, rhaid i fap y Gorchymyn ddangos a yw rhan o'r llwybr newydd sydd i'w ddilyn yn cynnwys llwybr neu ffordd sy'n bodoli eisoes, ac os felly, diffinio'r rhan honno.
- 6.122. Rhaid cyhoeddi hysbysiadau yn o leiaf un papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddi. Ar yr un pryd ag y cyhoeddir yr hysbysiad, rhai cyflwyno copi o'r un hysbysiad, ynghyd â chopi o'r Gorchymyn drafft neu ddetholiad perthnasol o'r Gorchymyn drafft, a chopi o'r map cysylltiedig, i bob perchennog a deiliad y tir hwnnw; y cyngor cymuned neu dref perthnasol; y cyrff rhestredig (Atodiad 1); a phan fo angen, bobl neu gyrff eraill megis Awdurdod Parc Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.123. Rhaid i awdurdodau hefyd hysbysu unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n mynnu eu bod nhw'n gwneud hynny ynghylch Gorchymynion a wnaed tros gyfnod penodol i ychwanegu at neu ddiwygio'r map a datganiad diffiniol neu newid y rhwydwaith. Gallai'r gofyniad hwn gynnwys pob Gorchymyn a wnaed gan yr awdurdod neu Orchymynion o fath penodol, a gallai ymwneud â'u hardal gyfan neu unrhyw ran ohoni. Gallai awdurdodau godi tâl rhesymol am wneud felly.
- 6.124. Dylai'r disgrifiad yn yr hysbysiad o effaith gyffredinol y Gorchymyn fod yn ddigon i alluogi'r cyhoedd i ddeall ei ddiben sylfaenol ac adnabod yr hawliau tramwy o dan sylw. Ni fydd cynllun ynghyd â'r hysbysiad a gyhoeddir mewn papur newydd lleol, felly dylid cyfeirio at fannau allweddol y llwybr yn ôl nodweddion yn y maes, yn ogystal â chyfeirnodau grid penodol.
- 6.125. Rhaid arddangos copi o'r hysbysiad mewn man amlwg yn nau ben y ffordd sydd i'w chreu, ei dargyfeirio neu ei chau gan y Gorchymyn. Rhaid gosod gyda'r hysbysiad gynllun yn dangos effaith y Gorchymyn. Rhaid arddangos yr hysbysiad, hefyd, yn swyddfeydd cyngor yn y gymdogaeth ac unrhyw fannau eraill y barno'r awdurdod eu bod yn addas. Dylai'r lleoedd fod yn rhesymol o hygyrch i bobl leol.

- 6.126. Rhaid i awdurdodau anfon copiâu o'r hysbysiadau statudol o Orchmynion wedi'u gwneud fel y rhagnodir isod i'r cyrff a restrir yn **Atodiad 1**.
- 6.127. Dylid cyhoeddi hysbysiadau y mae angen eu rhoi o dan y DCGTh 1990 o dan gyfeirio at a. 329. Dylai hysbysiadau a roddir mewn perthynas â'r DP 1980 fod o dan gyfeirio at a. 322.
- 6.128. Yn y ddau achos, bydd hyn, fel arfer, trwy ei ddanfôn yn bersonol i'r sawl y'i cyfeiriwyd ato, neu ei gyfeiriad arferol; neu trwy ei bostio trwy ddanfoniad cofrestredig. Mae'r DCGTh 1990 hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwasanaeth trwy e-bost lle'r rhoddwyd cyfeiriad e-bost. Mae darpariaethau ychwanegol ar gyfer achosion lle na ellir canfod enw'r sawl yr effeithir arno, gan gynnwys trefnau ar gyfer gosod hysbysiad ar y safle, pan fo angen, o fewn Atodlen 6, paragraff 3(C) o'r DP 1980; Atodlen 14, paragraffau 6 a 7 o'r DCGTh 1990; a. 329 o'r DCGTh 1990 ac a. 322 o'r DP 1980.

### Cyflwyno Cyflwyniadau

- 6.129. Rhaid i'r cyfnod ar gyfer gwneud cyflwyniadau a gwrthwynebiadau fod yn ddim llai na 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad y gwnaed Gorchymyn. Dylai awdurdodau sicrhau bod copi o'r Gorchymyn a'r map cysylltiedig ar gael ar bob adeg resymol yn ystod y cyfnod. Dylai awdurdodau ystyried yn benodol ymestyn cyfnod y gwrthwynebiad lle byddai fel arall yn dod i ben ar ddiwrnod y gellir rhagweld y byddai swyddfeydd ar gau arno, e.e. Gŵyl Banc.
- 6.130. O hysbysebu Gorchymyn, disgwylir i awdurdodau ymdrechu i ddatrys gwrthwynebiadau ac i sicrhau eu tynnu yn ôl. Y mae cyflwyniad neu wrthwynebiad wedi'i wneud yn briodol parthed Gorchymyn ar yr amod ei fod mewn pryd ac yn y dull a bennir yn yr hysbysiad. Oni thynnir gwrthwynebiadau a wnaed yn briodol yn ôl, yna ni ellir cadarnhau'r Gorchymyn gan yr awdurdod sy'n gwneud y Gorchymyn. Os yw awdurdod sy'n gwneud Gorchymyn yn dymuno bwrw ymlaen â Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus sydd wedi ennyn gwrthwynebiad, neu'n dymuno iddo gael ei gadarnhau â diwygiadau, yna rhaid cyflwyno'r Gorchymyn hefyd i Weinidogion Cymru i benderfynu a ddylid ei gadarnhau ai peidio. Nid oes gan yr awdurdod hawl gwrthod derbyn gwrthwynebiad ar sail ei farn ei hun ynghylch a yw'n ymddangos bod seiliau'r gwrthwynebiad neu'r cyflwyniad yn berthnasol, er y bydd angen iddo wneud cyflwyniadau ynghylch y gwrthwynebiad fel rhan o'i gyflwyniad i Weinidogion Cymru.

### Cadarnhau

- 6.131. Gallai awdurdodau gadarnhau Gorchmynion nas gwrthwynebir, neu i ba rai y mae pob cyflwyniad a gwrthwynebiad a wnaed yn briodol wedi eu tynnu yn ôl. Gall awdurdodau ddewis peidio â bwrw ymlaen â Gorchmynion y mae cyflwyniadau neu wrthwynebiadau yn eu cylch, neu dynnu Gorchymyn yn ôl am resymau eraill, megis ffactorau allanol sy'n golygu nad yw cynllun yn addas bellach. Er mwyn dwyn y weithdrefn i ben, rhaid i'r awdurdod wneud



penderfyniad ffurfiol i beidio â bwrw ymlaen, a dylai hysbysu'r ymgeisydd a'r rhai sydd wedi gwneud cyflwyniadau neu wrthwynebiadau ynghylch derbyn y cynnig.

- 6.132. Yn achos Gorchymyn y gwnaed yn ei gylch gyflwyniadau neu wrthwynebiadau priodol, bydd Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid ei gadarnhau ai peidio. Unwaith y cyflwynir Gorchymyn i Weinidogion Cymru, mae pŵer penderfynu wedi ei drosglwyddo iddynt hwy, neu eu Harolygydd penodedig. Fodd bynnag, os, wedi hynny, y tynnir pob cyflwyniad a gwrthwynebiad yn ôl, gofynnir i'r awdurdod a ddymuna gadarnhau'r Gorchymyn ei hun. Mae'r Arolygaeth Gynllunio, sy'n gweinyddu'r broses gadarnhau ar ran Gweinidogion Cymru, â rhestr wirio o ddogfennau y mae'n rhaid eu hanfon ynghyd â Gorchymyn sydd wedi'i gyflwyno ar gyfer penderfyniad ynghylch a ddylid ei gadarnhau ai peidio.
- 6.133. Gall yr arolygydd addasu Gorchymynion sy'n mynnu cadarnhad gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2 Atodlen 6 i'r DP 1980 (Gorchymynion o dan adrannau 26 a 118 - 119D o'r Ddeddf, neu a. 32 o Ddeddf Caffael Tir 1981).
- 6.134. Rhaid i'r sawl sydd â budd yn y tir yr effeithir arno gan Orchymyn wneud hawliadau am iawndal dan a. 28 o'r DP 1980 (neu yn ôl a. 121(2) fel y'i diwygiwyd) mewn ysgrifen i'r awdurdod, a'u cyflwyno iddynt o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym.

## Arolwg Ordnans

- 6.135. Mae mapiau Arolwg Ordnans yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus, felly maent yn offerynnau pwysig ar gyfer y cyhoedd wrth ddefnyddio'r rhwydwaith. Y mae o fudd i bawb fod y mapiau hyn yn adlewyrchu'n gywir hawliau'r cyhoedd, ac o gwblhau unrhyw Orchymynion, rhaid i'r awdurdod gyflwyno'r wybodaeth berthnasol i Arolwg Ordnans. Dylai awdurdodau anfon at yr Arolwg Ordnans gopïau o Orchymynion sy'n ymwneud â'r awdurdod, gan dystio bod newid wedi dod i rym, wedi i'r Awdurdod ardystio hynny. Dylid anfon Gorchymynion eraill wedi iddynt gael eu cadarnhau.

**Tabl 1: Pryd y dylai awdurdodau anfon copïau o Orchymynion at yr Arolwg Ordnans**

| <i>Darpariaeth</i>                                                                                  | <i>Arolwg Ordnans</i>   |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|
| <i>Deddf Priffyrdd 1980</i>                                                                         |                         |
| a26 Pwerau gorfodol ar gyfer creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig         | Gorchymyn o'i gadarnhau |
| a116 Pŵer Llys Ynadon i awdurdodi cau neu ddargyfeirio priffordd                                    | Ar benderfyniad yr Ynad |
| a118 Cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd                                             | Gorchymyn o'i gadarnhau |
| a118A Cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd         | Gorchymyn o'i gadarnhau |
| a119 Dargyfeirio llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd                                     | Gorchymyn o'i ardystio  |
| a119A Dargyfeirio llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd | Gorchymyn o'i ardystio  |
| <i>Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981</i>                                                        |                         |
| a53(2) Gorchymyn Addasu Map Diffiniol                                                               | Gorchymyn o'i gadarnhau |



|                                                                                                           |                         |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|
| <i>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990</i>                                                                 |                         |
| a257 Llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig a effeithir gan ddatblygu: Gorchmynion gan | Gorchymyn o'i ardystio  |
| a258 Dileu hawliau tramwy cyhoeddus tros dir a ddelir at ddibenion cynllunio                              | Gorchymyn o'i gadarnhau |
| <i>Deddf Caffael Tir 1981</i>                                                                             |                         |
| a32 Phŵer dileu hawliau tramwy cyhoeddus penodol                                                          | Gorchymyn o'i gadarnhau |

## 7. Caniatâd Cynllunio a'r Rhwydwaith

- 7.1. Mae cynlluniau ar gyfer datblygu tir sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus yn codi dau destun pryder penodol: bod angen ystyriaeth ddigonol ynghylch yr hawliau tramwy cyn penderfynu ynghylch y cais cynllunio; ac o roi caniatâd cynllunio, bod angen cadw'r hawl dramwy yn agored ac yn ddirwysr hyd nes y mae'r trefnau statudol sy'n awdurdodi cau neu ddargyfeirio wedi eu cwblhau.
- 7.2. Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn rhoi i ddatblygwyr yr hawl i rwystro hawl dramwy gyhoeddus. Ni ellir rhagdybio ei bod yn anochel y gwneir neu y cadarnheir Gorchymyn dan a. 247 neu a. 257 o'r TCGTH 1990 ar gyfer dargyfeirio neu ddileu'r hawl dramwy oherwydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio. Ni ddylid dechrau datblygu, i'r graddau y mae'n effeithio ar hawl tramwy, a dylid cadw'r hawl tramwy'n agored ar gyfer defnydd cyhoeddus, hyd nes y bo'r Gorchymyn angenrheidiol wedi dod i rym. Bydd y gofyniad cadw hawl dramwy gyhoeddus yn agored ar gyfer defnydd cyhoeddus yn gwahardd datblygwr rhag defnyddio'r llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig bresennol yn fynedfa gerbydau ar gyfer y safle, onid oes hawliau preifat ychwanegol. Rhaid i awdurdodau sicrhau bod ymgeiswyr y gallai eu cynlluniau effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus yn ymwybodol o gyfyngiadau ar eu hawl i ddechrau gwaith ar yr adeg y rhoddir caniatâd cynllunio. Wrth roi caniatâd cynllunio, ni ddylai'r awdurdod cynllunio lleol osod amodau sy'n destun rheolaethau statudol eraill: gorchmynion dargyfeirio neu gau, er enghraifft. Fe all mai buddiol, fodd bynnag, fyddai atodi nodyn neu hysbysiad wrth y penderfyniad yn tynnu sylw'r ymgeisydd at fathau eraill o ganiatâd y mae'n rhaid eu cael cyn y gall datblygu ddechrau.
- 7.3. Mae effaith datblygiad ar hawl dramwy gyhoeddus yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio, a dylai awdurdodau sicrhau ystyried y canlyniadau dichonol pryd bynnag yr ystyrir y fath geisiadau.
- 7.4. Nid yw mwyafrif y ceisiadau cynllunio amlinellol yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi pwyso a mesur yr effaith ar unrhyw hawl tramwy. O ganlyniad, yr arfer yw ymdrin â'r fath faterion wrth ystyried y materion a neilltuir o dan y caniatâd cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth ddiweddarach.
- 7.5. Mae Cylchlythyr Swyddfa Cymru 32/92 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chyflenwi a'i dilysu ynghyd â chais cynllunio. Dylid marcio pob hawl dramwy gyhoeddus sy'n croesi neu'n gyfagos at y safle datblygu arfaethedig ar y cynllun sydd i'w gyflwyno gyda'r cais cynllunio llawn. Er y dylai'r wybodaeth a gyflenwir gan ymgeisydd egluro, felly, sut y bydd y datblygiad dichonol yn amharu ar unrhyw hawliau tramwy, bydd angen i awdurdodau sicrhau adnabod pob hawl dramwy a effeithir gan y datblygiad, ac ystyried unrhyw geisiadau am ychwanegu llwybr neu ffordd at y map diffinio; unrhyw addasiadau y gallai'r awdurdod ei hun fod yn eu harfaethu; bodolaeth bosibl unrhyw hawliau tramwy eraill a ddangosir ar y map diffiniol, ac unrhyw ffyrdd nas cofnodwyd eto ar y map diffiniol.

- 7.6. Byddai'n fuddiol pe bai'r awdurdod a'r datblygwr yn ymwybodol o effaith cynllun datblygu ar y rhwydwaith hawliau tramwy leol cyn gynted yn y broses ag y bo modd. Gallai hyn fod yn y cam cyn ymgeisio neu'r cam cynllunio amlinellol. Gellir lleihau i'r eithaf unrhyw anfanteision dichonol i'r cyhoedd a gyfyd o drefniadau amgen arfaethedig ar gyfer hawl dramwy a effeithir trwy drafodaethau cynnar cydrhwng y datblygwr, yr awdurdod, grwpiau amwynder lleol, cyrff rhestredig (**Atodiad 1**) ac unigolion yr effeithir arnynt.
- 7.7. Lle bo trafodaethau cyn ymgeisio, dylid cynnwys y swyddog hawliau tramwy ym mhob cyfarfod. Gellir disgwyl y dylai unrhyw ymgynghori yn y cam hwn gynnwys y cyrff rhestredig fel mater o drefn.
- 7.8. Bydd y fath weithredu'n esgor ar gynllun derbyniol mewn llawer i achos, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y cynlluniau dilynol yn dderbyniol i'r cyhoedd. Ymhellach, dylai'r arddull leihau i'r eithaf ansicrwydd, costau adolygu cynlluniau dylunio ac oedi. Gallai peidio â mabwysiadu'r arddull hwn arwain at oedi sylweddol, yn bennaf oherwydd nad yw'r pŵer gan yr awdurdod i gadarnhau Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus. Yn hytrach, bydd rhaid ei gyflwyno i Weinidogion Cymru am benderfyniad ynghylch a ddylid ei gadarnhau ai peidio. Dylid atgoffa ymgeiswyr fod cael caniatâd ffurfiol i gau neu ddargyfeirio eto'n rheidrwydd cyfreithiol, pa un a roddir caniatâd ai peidio. Gallai methu â chael caniatâd ffurfiol cyn dechrau gwaith arwain at erlyn.
- 7.9. Pan fydd angen diwygio hawl dramwy bresennol i hwyluso'r datblygiad arfaethedig, dylai unrhyw gyfluniad amgen osgoi defnyddio ffyrdd ystadau, rhodfeydd, gerddi neu fannau preifat eraill lle bynnag y bo modd, a dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio llwybrau ystâd gwneuthuredig trwy ardaloedd sydd wedi'u tirlunio neu agored oddi wrth draffig cerbydol. Dylid ystyried potensial llwybrau amgen i annog trafndiaeth gynaliadwy a theithio llesol hefyd.
- 7.10. Lle bo'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio llawn, megis cloddio mwynau, fe all y bydd trafod hirfaith rhwng y datblygwr a'r awdurdod cyn y penderfyniad ynghylch y cais, yn y cyfnod o wyth wythnos a amodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio a osodir o'r neilltu trwy gydsyniad. Os oes disgwyliad rhesymol y rhoddir caniatâd cynllunio yn y pen draw, nid oes unrhyw reswm pam na ddylid ystyried y darpariaethau ar gyfer unrhyw gau neu ddargyfeirio canlyniadol ar hawliau tramwy yn gyfredol â thrafodaethau ynghylch y datblygiad arfaethedig, ac yn rhan ohonynt, yn hytrach na disgwyl am roi caniatâd cynllunio. Dylai hyn gynnwys, cyn belled ag y bo modd, baratoi drafft o'r Gorchymyn, a hysbysiadau cysylltiedig, yn y ffurf a ragnodir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymynion Llwybr Cyhoeddus) 1993, er y dylid gofalu sicrhau bod staff hawliau tramwy cyhoeddus yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r cynllun yn ystod cyfnod penderfynu'r cais.
- 7.11. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn darparu bod rhaid hysbysebu datblygiad sy'n effeithio ar hawl dramwy gyhoeddus mewn papur newydd lleol a thrwy osod hysbysiad ar y safle. Mae hyn yn gwbl ar wahân i unrhyw hysbysiadau a hysbysebion y

mae'u hangen wrth wneud a chadarnhau Gorchymyn Dileu neu Ddargyfeirio dilynol.

- 7.12. Mae'r drefn ar gyfer dargyfeirio neu ddileu hawliau tramwy a wneir o dan y TCGTH 1990 yn canlyn yr un a ddisgrifir yn para 6.100– 6.137. Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymynion Llwybr Cyhoeddus) 1993.

### **Datblygu a Ganiateir**

- 7.13. Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi amrywiaeth eang o ddatblygu y gellir ei gyflawni heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Lle bo cyfyngiadau a geir yng Ngorchymyn 1995 yn cyfeirio at briffyrdd, mae hyn yn cynnwys, yn gyffredinol, pob hawl dramwy gyhoeddus. Lle cyfeirir at briffyrdd "a ddefnyddir gan draffig cerbydol", dylai hyn gynnwys unrhyw gilffordd sydd ar agor i bob traffig neu gilffordd gyfyngedig a gofnodir ar y Map a Datganiad Diffiniol.
- 7.14. Mae'n drosedd dan a. 34(1)b o'r DTFf 1988 gyrru cerbyd a yrrir yn fecanyddol ar lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig heb awdurdod cyfreithlon. Felly, gallai defnyddio'r fath hawl dramwy gyhoeddus i greu mynedfa gerbydol newydd, neu'r tebyg, y gellir barnu ei fod yn ddatblygiad a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fod yn drosedd o dan y DTFf 1988.

## Atodiad 1

### Cyrff Rhestredig

| Sefydliad                   | Maes Ymgynghori                                                                                                                     | Cyfeiriad ymgynghori cynorchmynnol                                                | Maes hysbysu ynghylch Gorchmynion                        | Cyfeiriad arall                                                                                                   |
|-----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Auto Cycle Union            | Pob achos, heblaw'r rhai sy'n effeithio ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau tros ba rai ni hawlir nac amheuir bod hawliau cerbydol | Y cynrychiolydd lleol addas y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod amdano                 | Pob gorchymyn a wnaed yng Nghymru a Lloegr               | Auto Cycle Union, Wood Street, Rugby, Warwickshire CV21 2XY (Heblaw lle'r rhoddwyd gwybod fel arall i'r awdurdod) |
| British Driving Society     | Pob achos, heblaw'r rhai sy'n effeithio ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau tros ba rai ni hawlir nac amheuir bod hawliau cerbydol | British Driving Society, Endersley, Church Road, Wingfield, Eye, Suffolk IP21 5QZ | Pob Gorchymyn map diffiniol a wnaed yng Nghymru a Lloegr | British Driving Society, Endersley, Church Road, Wingfield, Eye, Suffolk IP21 5QZ                                 |
| British Horse Society       | Pob achos                                                                                                                           | Y cynrychiolydd BHS lleol y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod amdano                   | Pob Gorchymyn a wnaed yng Nghymru a Lloegr               | BHS, British Equestrian Centre, Stoneleigh, Kenilworth, Warwickshire CV8 2LR                                      |
| Byways and Bridleways Trust | Pob achos                                                                                                                           | Enwebai lleol y BBT y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod amdano                         | Pob Gorchymyn a wnaed yng Nghymru a Lloegr               | Byways and Bridleways Trust PO Box 117, Newcastle Upon Tyne, NE3 5YT                                              |
| Cyclists' Touring Club      | Pob achos, heblaw'r rhai sy'n effeithio ar lwybrau                                                                                  | Cyclists' Touring Club, Parklands, Railton Road,                                  | Pob Gorchymyn a wnaed yng Nghymru a                      | Cyclists' Touring Club, Parklands, Railton Road,                                                                  |

|                                |                                                                                                                                                          |                                                                                                                                      |                                            |                                                                                                                                      |
|--------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                | troed tros ba rai ni hawlr nac amheuir bod unrhyw hawliau eraill                                                                                         | Guildford, Surrey. GU2 9JX                                                                                                           | Lloegr                                     | Guildford, Surrey. GU2 9JX                                                                                                           |
| Open Spaces Society            | Pob achos, ond dim ond yn yr ardaloedd hynny pan fo'r gymdeithas wedi hysbysu'r awdurdodau o dan sylw ynghylch eu budd                                   | Y cynrychiolydd lleol addas y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod amdano                                                                    | Pob Gorchymyn a wnaed yng Nghymru a Lloegr | Open Spaces Society, 25A Bell Street, Henley-on-Thames, Swydd Rydychen RG9 2BA                                                       |
| The Ramblers' Association      | Pob achos                                                                                                                                                | Cynrychiolydd lleol y RA y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod amdano                                                                       | Pob Gorchymyn a wnaed yng Nghymru a Lloegr | Ramblers' Association, 2nd Floor Camelford House, 87-90 Albert Embankment, Llundain, SE1 7TW                                         |
| Welsh Trail Riders Association | Pob achos yng Nghymru, heblaw'r rhai sy'n effeithio ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau tros ba rai ni hawlr nac amheuir bod hawliau cerbydol cyhoeddus | W.T.R.A. Ltd<br>Blwch Post 3015<br>Caerdydd CF3 5YE<br>Y Deyrnas Unedig<br><br>(Heblaw lle'r rhoddwyd gwybod fel arall i'r awdurdod) | Pob Gorchymyn a wnaed yng Nghymru          | W.T.R.A. Ltd<br>Blwch Post 3015<br>Caerdydd CF3 5YE<br>Y Deyrnas Unedig<br><br>(Heblaw lle'r rhoddwyd gwybod fel arall i'r awdurdod) |

Dylai awdurdodau sylwi y gallai enwau a chyfeiriadau'r rhai y mae'n rhaid anfon y hysbysiadau hyn atynt newid o bryd i'w gilydd, neu amrywio o'r naill ardal i'r llall. Gofynnwyd i'r cyrff rhestredig sicrhau rhoi gwybod i awdurdodau ymhell cyn y fath newidiadau. Dylai awdurdodau sicrhau, wrth gwrs, y cedwir eu cofnodion eu hunain yn gwbl gyfoes yn hwn o beth.

Yn ychwanegol, gofynnir i awdurdodau, pryd bynnag y gwnant Orchmynion sy'n arwain at greu llwybr troed neu lwybr ceffylau ar dir yn nesaf at linellau rheilffordd gweithredol, hysbysu Network Rail ynghylch gwneud a chadarnhau'r Gorchymyn a darparu iddynt gopi o'r Gorchymyn.



## Atodiad 2

### Ffynonellau Gwybodaeth Ychwanegol

#### *Cyfoeth Naturiol Cymru*

- ‘Tudalennau cyngor ac arweiniad polisi Hamdden a Mynediad’ (ar gael ar ei wefan)
- ‘Trwy bob dull rhesymol: Mynediad cynhwysol i’r awyr agored’
- ‘Arweiniad at Fapiau diffiniol a newidiadau i hawliau tramwy cyhoeddus’
- Y Cod Cefn Gwlad

#### *Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig*

- ‘Strwythurau Awdurdodi (bylchau, giatiau a chamfeydd) ar hawliau tramwy’
- ‘Gwneud y gorau o gilffyrdd’
- ‘Rheoleiddio defnydd o gerbydau modur ar hawliau tramwy cyhoeddus ac oddi ar y ffordd’
- ‘Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol ar weithredu'r ddyletswydd bioamrywiaeth’

#### *Y Swyddfa Gartref*

- ‘Y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014: Diwygio pwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Canllaw statudol ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen’

#### *Yr Arolygaeth Gynllunio*

- Hawliau Tramwy (adran ar ei gwefan)

#### *Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad (gan gynnwys Pwyllgor Adolygu Hawliau Tramwy - Nodiadau canllaw arfer)*

- Gwefan Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad

#### *Yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron*

- Gwefan rhywogaethau estron

#### *Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch*

- Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Wybodaeth Rhif 17EW (rev1)

#### *Ymddiriedolaeth Pittcroft*

- Understanding the Defra guidance on Public Path Structures and Gaps, Gates, Stiles. A guide to the British Standard BS5709:2006

#### *Canllawiau Llywodraeth Cymru*

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

## Atodiad 3

### Model Drafft Cytundeb 147ZA

(Nid yw hwn yn rhan o'r canllaw statudol)

#### ER GWYBODAETH

Cynhwysir y nodiadau hyn er mwyn esbonio Adran 147ZA Deddf Priffyrdd 1980. Nid ydynt yn rhan o'r cytundeb.

1. Diben Adran 147ZA yw galluogi ymrwymo i gytundebau rhwng awdurdodau lleol, trefeddiannwyr, deiliaid a deiliaid prydles ar gyfer gosod adeileddau newydd ar draws camfeydd a giatiau ar draws llwybrau troed a llwybrau ceffylau, yn lle'r rhai sydd yno eisoes. Bydd y rhai newydd yn haws i'r cyhoedd eu defnyddio, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau neu broblemau symudedd.
2. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cyfrifoldebau priodol y perchennog ac ati a'r awdurdod ynghylch cynllunio a chodi'r adeiledd newydd a'i gynnal wedi hynny.
3. Mae adran 147ZA hefyd yn darparu y bydd hawl y perchennog i godi a chynnal adeiledd ar draws y llwybr neu'r ffordd yn cynnwys yr adeiledd newydd, ac yn peidio â chynnwys yr adeiledd blaenorol, ar y dyddiad a bennir yn y cytundeb, neu, oni phennir dyddiad, blwyddyn wedi dyddiad y cytundeb. Oni chedwir at unrhyw amodau yn y cytundeb, bydd yr hawl i godi a chynnal yr adeiledd newydd yn peidio â bod, oni a hyd nes y cydymffurfir â'r amodau, a gallai'r awdurdod fynnu bod yr adeiledd yn cael ei symud ymaith.
4. **Gallai'r cytundeb model hwn fod o ddefnydd i awdurdodau, perchnogion, deiliaid prydles a deiliaid, ond nid yw ond yn batrwm sydd wedi'i awgrymu, a dylid ei addasu at amgylchiadau unigol. Dylai awdurdodau, perchnogion, deiliaid prydles a deiliaid gael cyngor cyfreithiol cyn ymrwymo i gytundeb o dan adran 147ZA.**

| CYNNWYS ARFAETHEDIG Y CYTUNDEB                                                                                                                                                                                                               | Nodiadau                                                                                      |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><i>Eitemau mewn llythrennau italig yw lle'r ychwanegwyd manylion, neu lle y mae un neu ragor o ddewisiadau i'w dileu pan fo hynny'n addas.</i></p>                                                                                        |                                                                                               |
| <p>1. Mae hwn yn gytundeb rhwng yr Awdurdod a [perchennog] [deiliad prydles] [deiliad] o dan adran 147ZA Deddf Priffyrdd 1980 at ddiben [crynodeb o ddiben y cytundeb: gosod giât mochyn yn lle camfa ar lwybr troed 4 Llanrywle, e.e.].</p> | <p>Wedi'i gynnwys er mwyn darparu crynodeb o destun y cytundeb, datgan partïon y cytundeb</p> |


|                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                           | a'i gwneud yn eglur ei fod yn gytundeb o dan adran 147ZA.                                                                 |
| 2. Yn y Cytundeb hwn, y mae'r diffiniadau canlynol yn weithredol, ac y mae i'r termau nas diffinnir yr ystyr a roddir iddynt yn Neddf Priffyrdd 1980:                                                                                     | Yn ei wneud yn eglur bod unrhyw dermau nas diffinnir yn cymryd unrhyw ystyr a roddir iddynt yn Neddf Priffyrdd 1980.      |
| Golyga "awdurdod" yr awdurdod priffyrdd lleol neu awdurdod cymwys arall, neu unrhyw awdurdod arall sy'n gweithredu mewn cytundeb â'r awdurdod priffyrdd lleol sy'n darparu y gall yr awdurdod hwnnw ymrwymo i gytundeb o dan adran 147ZA; | Yn caniatáu bodolaeth awdurdod asiantaethol sydd, o dan ei gytundeb asiantaeth, â phŵer ymrwymo i gytundebau adran 147ZA. |
| Golyga "adeiledd presennol" <i>[disgrifiad o'r adeiledd]</i> yn <i>[disgrifiad o'r lleoliad, gan gynnwys cyfeirnod grid]</i> ac a ddangosir yn fan A ar y cynllun a atodwyd wrth y Cytundeb hwn;                                          |                                                                                                                           |
| Golyga "deiliad prydles" <i>[manyion deiliad prydles];</i>                                                                                                                                                                                | Cynhwyswch hwn pan fo deiliad prydles.                                                                                    |
| Golyga "adeiledd newydd" <i>[disgrifiad o'r adeiledd]</i> yn <i>[disgrifiad o'r lleoliad, gan gynnwys cyfeirnod grid]</i> ac a ddangosir yn fan A ar y cynllun a atodwyd wrth y Cytundeb hwn;                                             |                                                                                                                           |
| Golyga "deiliad" <i>[manyion deiliad];</i>                                                                                                                                                                                                | Cynhwyswch hwn pan fo deiliad ar wahân i'r perchennog.                                                                    |
| Golyga "perchennog" <i>[manyion perchennog];</i>                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                           |

|                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Golyga “gwaith cymhwysol” yr holl waith fel y’i disgrifir yn yr Atodlen i’r Cytundeb y sy’n angenrheidiol ar gyfer symud ymaith yr adeiledd presennol a chodi’r un newydd yn ei le;</p>                                                                 |                                                                                                                                          |
| <p>Golyga “hawl tramwy” y <i>[llwybr troed] [llwybr ceffylau]</i> ar ba un y mae’r adeiledd presennol, <i>ac a gofnodir yn y map a datganiad diffiniol ar gyfer [enw’r Map diffiniol] yn [enw’r plwyf a rhif yr hawl tramwy]</i>.</p>                      | <p>Cynhwyswch y cyfeirnod map diffiniol ar gyfer yr hawl dramwy lle’i cofnodir felly.</p>                                                |
| <p>3. Mae’r hawl dramwy yn destun cyfyngiad trwy ba un y mae gan y perchennog/deiliad prydles/deiliad hawl codi a chynnal yr adeiledd presennol <i>[yn rhinwedd awdurdodiad a roddwyd ar (dyddiad) gan (enw’r awdurdod a roddodd yr awdurdodiad)]</i>.</p> | <p>Rhowch fanylion yr awdurdodiad adran 147 os oes un.</p>                                                                               |
| <p>4. Mae’r perchennog/deiliad prydles/deiliad yn cytuno i wneud y gwaith cymhwysol o fewn tri mis i ddyddiad y Cytundeb hwn, ac i hysbysu’r awdurdod pan fo’r gwaith wedi’i gwblhau.</p>                                                                  | <p>Ail-ysgrifennwch hwn a’r cymal nesaf yn ôl y gofyn os yw’r awdurdod a’r perchennog/deiliad prydles/deiliad i dalu dim o’r costau.</p> |
| <p>5. Cytuna’r awdurdod i ad-dalu’r perchennog/deiliad prydles/deiliad am dreuliau yr aethpwyd iddynt yn rhesymol wrth ysgwyddo cost y gwaith cymhwysol.</p>                                                                                               | <p>Ychwanegwch destun, os dymunir, i ddarparu ar gyfer archwiliad gan yr awdurdod cyn gwneud unrhyw daliad.</p>                          |
| <p>6. <i>At ddibenion is-adran (5) a 147ZA dyddiad effeithiol y Cytundeb hwn yw [roddwch ddyddiad]</i>.</p>                                                                                                                                                | <p>Defnyddiwch y cymal hwn dim ond pan fo’r dyddiad effeithiol i’w ragnodi: yn niffyg hynny, y dyddiad yw un flwyddyn o ddyddiad</p>     |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>7. <i>Mae'r [perchennog], [deiliad prydles] a [deiliad] wedi cydsynio â gwneud y Cytundeb hwn.</i></p> <p>8. <i>Y mae'r amodau canlynol ar y Cytundeb hwn: [nodwch yr amodau]</i></p> <p>9. <i>Ni fernir y codwyd yr adeiledd newydd o dan y Cytundeb hwn oni chydymffurfir â'r amodau a ragnodir yng nghymal 8.</i></p> <p>Llofnodwyd: <i>[gan bartïon y Cytundeb]</i></p> <p>Dyddiad:</p> | <p>y Cytundeb.</p> <p>Cynhwyswch hwn os oes deiliad neu ddeiliad prydles ar wahân i'r perchennog, a dilêwch fel bo'n addas.</p> <p>Cynhwyswch hwn os yw amodau i'w rhagnodi (isadrannau (3) a (4)).</p> <p>Cynhwyswch hwn os yw amodau i'w rhagnodi.</p> |
| <p><b>CYNLLUN</b></p> <p>Yn dangos y llwybr neu ffordd ac, yn fan A, lleoliad yr adeiledd presennol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <p><b>ATODLEN</b></p> <p>Disgrifiad o'r gwaith cymhwysol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                          |

## Atodiad 4

### Siart Lif: Ceisiadau am Orchmynton Addasu



## Atodiad 5

### Siart Lif: Trefn Gorchmynion Addasu a Llwybr Cyhoeddus

